



Cyfarfod

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dyddiad ac Amser

11.00 y.b., DYDD LLUN, 12FED EBRILL, 2021

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

01286 679 878

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 2 Ebrill 2021)

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Aelodaeth (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Berwyn Parry Jones
Edgar Wyn Owen
Gareth Tudor Morris Jones

Simon Glyn
Huw Gruffydd Wyn Jones
Gareth A. Roberts
Sedd wag

Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Eric M. Jones
I. Dilwyn Lloyd

Anne Lloyd Jones
Eirwyn Williams

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Owain Williams

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Louise Hughes

Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd
Stephen W. Churchman

TREFN SIARAD AR GEISIADAU CYNLLUNIO YN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Mae'r Cyngor wedi penderfynu rhoddi'r hawl i 3ydd parti siarad ar geisiadau cynllunio yn y Pwyllgor Cynllunio. Mae'r daflen hon yn amlinellu'r trefniadau gweithredol arferol ar gyfer siarad yn y pwyllgor.

1.	Adroddiad y Gwasanaeth Cynllunio ar y cais cynllunio yn cynnwys argymhelliad.	
2.	Os oes cais wedi ei dderbyn gan 3ydd parti i siarad, bydd y Cadeirydd yn gwahodd y siaradwr ymlaen	
3.	Gwrthwynebydd, neu gynrychiolydd o'r gwrthwynebwyr yn cael annerch y pwyllgor	3 munud
4.	Ymgeisydd, gynrychiolydd yr ymgeisydd(wyr) neu Asiant yn cael annerch y pwyllgor	3 munud
5.	Aelod(au) Lleol yn cael annerch y pwyllgor	10 munud
6.	Cadeirydd y pwyllgor yn gofyn am gynigydd ac eilydd i'r cais cynllunio	
7.	Y pwyllgor yn trafod y cais cynllunio.	

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol ac i nodi materion protocol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

7 - 17

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 22ain o Fawrth 2021 fel rhai cywir

5. CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO

Cyflwyno adroddiad Pennaeth Adran Amgylchedd.

5.1. GORCHYMYN DIOGELU COED (GDC) DROS DRO C20/01/TP - TIR GER TYDDYN MEILIR, ABERERCH, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 6YH

18 - 31

I ystyried cadarnhau y Gorchymyn Diogelu Coed.

5.2. CAIS RHIF C20/1063/22/AC - CEFN GRAIANOG, LLANLLYFNI, CAERNARFON, LL54 6SY

32 - 60

Cais dan Adran 73 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i amrywio amod 1 ar ganiatâd cynllunio C16/0816/34/MW (estyniad arfaethedig dwyreiniol i echdynnu tywod a graean a gwaith adfer graddol) i ganiatáu estyniad pedair blynedd i gwblhau gweithrediadau mwynau a blwyddyn ychwanegol i gwblhau'r gwaith adfer

AELODAU LLEOL: Cynghorydd Owain Williams a'r Cynghorydd Craig ab Iago

[Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol](#)

5.3. CAIS RHIF C20/1064/22/AC - CEFN GRAIANOG, LLANLLYFNI, CAERNARFON, LL54 6SY

61 - 84

Cais o dan Adran 73 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i amrywio amod 1 ar ganiatâd cynllunio C15/0299/34/MW (adeiladu 3 lagŵn siltio ategol a gwaith cysylltiedig i ddarparu'r capasiti angenrheidiol i alluogi gwaith mwynau sy'n parhau a darparu system gaeedig ar gyfer rheoli dŵr o'r chwarel ar y safle) i ganiatáu estyniad pedair blynedd mewn cysylltiad â'r gwaith mwynau a blwyddyn ychwanegol i gwblhau'r gwaith adfer

AELODAU LLEOL: Cynghorydd Owain Williams a'r Cynghorydd Craig ab Iago

[Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol](#)

5.4 CAIS RHIF C20/1065/22/AC - CEFN GRAIANOG, LLANLLYFNI, CAERNARFON, LL54 6SY 85 - 119

Cais o dan Adran 73 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i amrywio amod 1 ar ganiatad cynllunio C10D/0487/34/MW i ymestyn hyd oes chwarela a gweithrediadau prosesu cysylltiol am bedair mlynedd ychwanegol i ganiatau cwblhau'r gwaith mwynau gyda blwyddyn ychwanegol ar gyfer cwblhau adfer.

AELODAU LLEOL: Cynghorydd Owain Williams a'r Cynghorydd Craig ab Iago

[Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol](#)

5.5 CAIS RHIF C19/0746/46/LL - TREFGRAIG ISAF, RHYDLIOS, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 8LR 120 - 139

Gosod 8 carafan symudol

AELOD LLEOL: Cynghorydd Simon Glyn

[Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol](#)

5.6 RHIF CAIS C20/0673/41/MG - CAE BODLONDEB, GER AEL Y BRYN, CHWILOG, LL53 6SH 140 - 158

Cais ar gyfer materion a gadwyd yn ôl a gwybodaeth draenio a datblygu cam wrth cam mewn cyswllt a chaniatâd cynllunio amlinellol C16/1603/41/AM ar gyfer codi 9 tŷ sy'n cynnwys 3 fforddiadwy a ffordd mynediad

AELOD LLEOL: Cynghorydd Aled Evans

[Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol](#)

5.7 CAIS RHIF C20/0674/41/MG - CAE BODLONDEB, GER AEL Y BRYN, CHWILOG, LL53 6SH 159 - 177

Cais ar gyfer materion a gadwyd yn ol a gwybodaeth draenio a datblygu cam wrth cam mewn cyswllt a chaniatad cynllunio amlinellol C16/1363/41/AM ar gyfer codi 9 ty sy'n cynnwys 3 fforddiadwy a ffordd mynediad.

AELOD LLEOL: Cynghorydd Aled Evans

[Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol](#)

**5.8 CAIS RHIF C20/0040/35/LL - SIBRWD Y GWYNT, MORANNEDD, 178 - 196
CRICIETH, LL52 0PP**

Codi ty preswyl newydd

AELOD LLEOL: Cynghorydd Eirwyn Williams

[Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol](#)

PWYLLGOR CYNLLUNIO 22-03-21

Yn bresennol: Cadeirydd: Y Cyngorydd Eric M Jones
Is Gadeirydd: Y Cyngorydd Gareth A Roberts

Y Cyngorwyr: Stephen Churchman, Elwyn Edwards, Simon Glyn, Louise Hughes, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Gareth T Jones, Huw Wyn Jones, Dilwyn Lloyd, Edgar Owen, Eirwyn Williams ac Owain Williams

Hefyd yn bresennol: Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio ac Amgylchedd), Cara Owen (Rheolwr Cynllunio), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Idwal Williams (Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu), Glyn Llewelyn Gruffudd (Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i' nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

a) Datganodd yr aelodau canlynol ei bod yn aelodau lleol mewn perthynas â'r eitemau a nodir:

Y Cyngorydd Elfed Williams (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.1 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C19/0003/18/MG)

Y Cyngorydd Eirwyn Williams (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.2 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C20/0040/35/LL)

Y Cyngorydd Judith Humphreys (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C20/0942/22/LL)

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 1af o Fawrth 2021 fel rhai cywir

5. CEISIADAU CYNLLUNIO

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i ddatblygu. Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau.

PENDERFYNWYD

5.1. Cais Rhif C19/0003/18/MG - Rhiw Goch, Clwt Y Bont, Deiniolen, Caernarfon, Gwynedd

Materion a gadwyd yn ôl mewn perthynas â chais C13/0611/18/AM ar gyfer datblygiad preswyl o 17 o dai (yn cynnwys 2 dy fforddiadwy) a mynedfa newydd - cynlluniau diwygiedig a gwybodaeth ychwanegol

- a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais. Eglurwyd bod egwyddor y bwriad eisoes wedi ei drafod a'i dderbyn o dan y cais amlinellol, gyda'r cais gerbron ar gyfer asesu'r elfennau graddfa, golwg, tirweddu a mynedfa yn unig oedd wedi eu cadw'n ôl. Yn ychwanegol i'r materion a gadwyd yn ôl, roedd angen cydymffurfio gydag amodau oedd yn ymwneud a chyflwyno manylion parthed:-
- (i) cyflwyno Archwiliad Desg er mwyn asesu risg o lygredd dichonol ar y safle;
 - (ii) cyflwyno gwybodaeth/eglhurhad pellach parthed lliniaru effaith llifogydd;
 - (iii) cyflwyno Datganiad Rheoli i'w gytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer y cwrs dwr sy'n rhedeg drwy'r safle;
 - (iv) cyflwyno manylion darparu a gweithredu system rheoli dŵr hwyneb
 - (v) cyflwyno manylion llwybr mynedfa i'r cwrs dwr, gwelliannau i drefniadau'r fewnfa ynghyd a thynnu'r geuffos.

Adroddwyd bod y safle wedi ei leoli i'r de-orllewin o Ddeiniolen ar lecyn o dir diffaith a oedd yn hanesyddol wedi cael ei ddefnyddio at ddiben diwydiant cynhyrchu nwyddau dringo. Cyflwynwyd cynlluniau diwygiedig gyda'r cais a nodwyd bod y polisïau perthnasol ynghyd ag ymatebion y cyfnod ymgynghori wedi ei cynnwys yn yr adroddiad.

Yng nghyd-destun mwynderau gweledol, roedd yr egwyddor o godi 17 tŷ ar y safle eisoes wedi ei dderbyn. Gan ystyried gosodiad y safle o fewn y tirlun ynghyd a'i agosatrwydd at ardaloedd adeiledig, ni ystyriwyd y byddai'r datblygiad yn cael effaith arwyddocaol ar osodiad, cymeriad nag ar olygfeydd i mewn neu allan o'r dirwedd hanesyddol hwn. Ategwyd bod y safle yn dirywio ar sail mwynderau gweledol ac yn ddolur llygad yn y tirlun. Awgrymwyd y byddai caniatáu y cais yn debygol o fod yn gam tuag at wella'r mwynderau gweledol yn y rhan yma o'r pentref. Yn ogystal, gan ystyried gosodiad a dyluniad y tai arfaethedig ar y safle mewn perthynas â gosodiad a ffurf yr anheddau cyfagos, ystyriwyd na fyddai effaith sylweddol nac arwyddocaol ar fwynderau preswyl na chyffredinol yr anheddau hyn

Adroddwyd bod bwriad creu mynedfa newydd fyddai'n disodli'r fynedfa bresennol ar gyfer y datblygiad tai oddi ar y ffordd sirol dosbarth III gyfagos. Er bod gwrthwynebiad wedi ei dderbyn i'r cais ar sail diogelwch ffyrdd, roedd yr egwyddor o greu mynedfa newydd eisoes wedi ei dderbyn. Cyflwynwyd cynlluniau manwl ynghyd ag Asesiad Canlyniadau Llifogydd, Adendwm i'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd, Datganiad Manylion Rhyddhau Dŵr o'r Safle, Datganiad Gwaith ar gyfer cario allan gwelliannau i'r cwrs dwr sy'n rhedeg drwy'r safle ynghyd a Chytundeb Rheoli ar gyfer y cwrs dwr i ddiwallu gofynion y cais amlinellol. Ategwyd bod Uned Dŵr ac Amgylchedd y Cyngor caniatáu i'r ymgeisydd ymgymryd â gwaith gwelliant i'r cwrs dwr sy'n cynnwys gosod trap graean ac adeiladu siambr cilfach gyda sgrin chwyn iddo. Dylai'r gwaith sicrhau na fydd llifogydd yn deillio o'r cwrs dwr naill a'i i'r tai arfaethedig nag allan i'r ffordd gyfagos.

Cyflwynwyd Adroddiad Ymchwiliad Tir Halogedig Cam 1, Rhan 2. Yn dilyn ymchwiliadau a chymryd samplau o'r ddaear ni ddaethpwyd ar draws unrhyw ffynhonnell halogedig o fewn y safle. Ategwyd bod Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn hapus gyda chasgliadau'r Adroddiad Halogedig.

Ystyriwyd bod y cais cynllunio yn cwrdd gyda gofynion polisi cynllunio lleol a chenedlaethol.

- b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol y pwyntiau canlynol:
- Derbyn bod y cais ar gyfer asesu rhai o elfennau'r datblygiad yn unig, ond angen dwyn i sylw problemau llifogydd yn yr ardal - angen sicrhau bod gwaith atal yn cael ei gwblhau
 - Angen cynnal trafodaeth gyda swyddogion y Cyngor ynglŷn â barn ar y datblygiad mewn perthynas â chais UNESCO
 - Cais i ystyried cynyddu'r nifer tai fforddiadwy o fewn y datblygiad
 - Pryder am ddiffyg palmentydd - hyn yn tansellio gofynion diogelwch
 - Cais i ystyried enwau Cymraeg ar y tai
 - Dim gwrthwynebiad i dai, ond angen tai i bobl leol

c) Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu y cais

ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylw canlynol gan aelodau:

- Pryder yn nifer isel y tai fforddiadwy
- Awgrym y dylai dyluniad y tai fod yn fwy arloesol
- Angen ystyried diffyg palmentydd
- Cais i ddarparu ardal chwarae
- Pryder am lifogydd - a yw'r safle ei hun yn destun llifogydd?
- Awgrym i ystyried os yw'r gair 'nepell' ym mharagraff 5.6 yn gywir

d) Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Swyddog Monitro bod egwyddor y datblygiad eisoes wedi ei sefydlu ac mai materion a gadwyd yn ôl oedd dan sylw. Ategodd Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio ac Amgylchedd mai cyfyngedig oedd y materion y gellid eu trafod. Amlygodd nad oedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Uned Draenio nac yr Uned Trafnidiaeth wrthwynebiadau i'r cais ac yngg nghyd-destun UNESCO, nodwyd, bod Cadw fel un o'r ymgynghorai statudol heb fynegi gwrthwynebiad i'r cais. Nododd bod y cyfiawnhad dros ganiatáu y cais yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn os oedd dyluniad y tai wedi ei gytuno, nododd y Swyddog Rheolaeth Datblygu bod cynlluniau bras wedi ei cyflwyno yn wreiddiol yn amlygu gosodiad y tai. Ategodd bod y cynlluniau cyfredol yn rhai diwygiedig gyda'r gosodiad wedi ei ail gyflwyno a dyluniad y tai yn fwy derbyniol. Nododd y Rheolwr Cynllunio nad oedd cymysgedd tai yn ystyriaeth pan gafodd y cais amlinellol ei ganiatáu - bod cymysgedd tai yn fater sydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r canllaw cynllunio atodol ers hynny. O ganlyniad, ni ellid ail ymweld â materion sydd yn ymwneud a chymysgedd tai.

PENDERFYNWYD: Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Cynorthwyol Adran yr Amgylchedd i ganiatáu'r cais materion a gadwyd yn ôl yn ddarostyngedig i:-

Amodau:-

1. Yn unol â'r cynlluniau diwygiedig.
2. Cydymffurfio a gofynion y Caniatâd Draenio Tir Cwrs Dwr Cyffredin.

Nodyn i'r ymgeisydd parthed cyngor Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ymwneud a thir halogedig.

5.2. Cais Rhif C20/0040/35/LL - Sibrwd Y Gwynt Morannedd, Criccieth, Gwynedd

Codi tŷ preswyl newydd

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr.

- a) Amlygodd y Rheolwr Cynllunio bod y cais yn ymwneud a chodi tŷ newydd a chreu mynedfa gerbydol oddi ar y ffordd stad bresennol. Eglurwyd bod y safle wedi ei leoli o fewn ffin datblygu pentref Criccieth; ar blot cul o fewn stad o dai amrywiol sydd ar lethr sy'n codi tua chefn y safle, ac wedi ei leoli rhwng dau eiddo gydag eiddo arall union o'i flaen gyferbyn a'r ffordd stad gul. Ategwyd bod y cais wedi bod yn destun sawl cais cynllunio ac apêl - 6 cais cynllunio wedi ei wrthod ar y safle yn y gorffennol a chaniatâd wedi ei roi ar y safle drwy apêl ar sail y cynlluniau a gyflwynwyd fel rhan o gais C08D/0870/35/LL, Cadarnhawyd bod y caniatâd yma yn parhau yn fyw ar y safle

Cyflwynwyd y cais i Bwyllgor ar gais yr Aelod Lleol.

Adroddwyd bod yr adroddiad yn mynd i'r afael a'r materion hynny a godwyd yn yr apeliadau blaenorol; ac yn asesu'r bwriad yn erbyn polisiau cyfredol y Cynllun Datblygu Lleol. Nodwyd bod penderfyniadau apêl (gwrthod a chaniatáu) ar y safle yn gosod yn glir fod potensial i eiddo deulawr ar y safle yma beri goredrych ac effaith annerbyniol ar y trigolion gerllaw bob ochr ac i'r blaen. Mae'r penderfyniadau apêl yn dibynnu ar leoliadau ffenestri a lefelau llawr er mwyn sicrhau nad oes effaith andwyol ar y tai cyfagos.

Eglurwyd bod y tŷ sydd gerbron erbyn hyn oddeutu 4m yn lletach a 1m yn hirach na'r eiddo a ganiatawyd. Nodir fod yr eiddo wedi ei ddylunio gydag ongl ar y blaen fel nad yw'r edrychiad yn edrych allan i'r un cyfeiriad i gyd (i geisio osgoi goredrych). Mae'r annedd gerbron felly ychydig yn is o ran crib y to na'r hyn a ganiatawyd ond yn lletach ac yn cynnwys mwy o agoriadau ar y llawr cyntaf. Ystyriwyd nad yw'r lleihad mewn uchder yn gyfaddawd am yr effaith andwyol o gynyddu ei led ac ychwanegu agoriadau ar y llawr cyntaf. Ystyriwyd y byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol sylweddol yn fwy ar eiddo Pen y Bryn sydd wedi ei leoli yn union o flaen y safle, na'r hyn a grybwyllwyd yn dderbyniol yn ystod apêl 2011. Ystyriwyd fod maint yr eiddo (yn benodol ei led a'i swmp) yn golygu nad yw'r eiddo yn cydweddu a phatrwm adeiladu a dyluniad y stad

Nodwyd bod materion trafndiaeth, mynediad a draenio yn dderbyniol

Ar sail yr asesiad, ystyriwyd fod y bwriad yn annerbyniol oherwydd bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) yn ystyried y byddai'r tŷ gerbron, oherwydd ei faint (yn benodol ei uchder a'i led) lleoliad y ffenestri/drysau a balconïau ar yr edrychiad blaen a'r lefelau llawr gorffenedig yn cael effaith andwyol sylweddol ar fwynderau a phreifatrwydd rhesymol eiddo o flaen y safle.

Argymhellwyd gwrthod y cais am y rhesymau oedd wedi ei cynnwys yn y ffurflen sylwadau hwyr a oedd wedi ei diwygio i gynnwys deunyddiau / gorffeniad allanol.

- b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr ymgeisydd y pwyntiau canlynol: Defnyddiwyd lluniau drone i ddangos effaith goredrych lleoliad y tŷ newydd.
- Bod swyddogion, ar ôl gweld y dystiolaeth wedi cytuno bod "dogfennau yn dangos y byddai'r goredrych o'r ffenest balconi'r un fath a'r hyn a ganiatawyd drwy'r apêl"
 - Sylwadau penderfyniad yr apêl - "Ni ystyriaf fod modd gweld rhan uchaf yr annedd a gynigir yn niweidiol oddi mewn i dermau'r polisi. Y rhyngweledd rhwng y prif ffenestri sydd o bryder posib."
 - Na fyddai modd gweld ffenestri'r bwriad o'r tŷ gyferbyn, oni bai bod y perchennog yn bwriadu torheulo ar y to
 - Os cymharu goredrych gyda thŷ drws nesaf, Hafan Deg, mae'r gwahaniaeth fel nos a dydd.
 - Does dim ffenestri ar ochr y tŷ. Mae'r balconi yn gaeedig, fel bod modd gweld yn syth allan yn unig
 - Bod y 'tŷ' sydd wedi derbyn caniatâd yn dŷ dau lawr, sydd yn mesur 180 metr sgwâr. Mae'r cais dan sylw yn dŷ dau lawr, sy'n mesur 177 metr sgwâr, felly yn llai na'r hyn sydd wedi ei gytuno yn barod.

- Bod tueddiad y stad yn hollol gyferbyniol i sylwadau'r swyddogion gyda rhan fwyaf o'r tai yn agos at un, dau neu dair ffin eu tir.
 - Bod elfen o oredrych yn bodoli ar y stad. Pob tŷ yn unigryw, ei siâp, ei faint a'i arddull gyda maint y ffenestri, nifer o falconïau, stafelloedd haul a phatios yn amrywio ar y stad.
 - Bod y rhesymau gwrthod nid yn unig yn gamarweiniol, ond yn anghywir - yr hyn sydd wedi ei ganiatau drwy apel wedi ei wella
 - Bod y tŷ yn LLAI 'na beth sydd wedi ei basio.
 - Bod y tŷ yn BELLACH YN ÔL 'na beth sydd wedi ei basio.
 - Bod y tŷ yn IS na be sydd wedi ei basio.
 - Bod safle'r tŷ ar y plot yn CYD-FYND a phatrwm y stad.
 - Bod pob tŷ ar y stad yn wahanol.
 - Nid yw'r tŷ yn goredrych.
 - Yn deulu ifanc, wedi dod adref i Griccieth i ymgartrefu
- c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol y pwyntiau canlynol:
- Ei fod yn cytuno gyda phenderfyniad Cyngor Cymuned / Tref
 - Ei fod yn gefnogol i'r cais
 - Dim gwrthwynebiad
- ch) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais yn groes i'r argymhelliad
- d) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:
- Bod y stad yn gymysg o gynlluniau pensaernïol
 - Nad oedd unffurfiaeth i arddull tai yng Nghriccieth
 - Bod y cynllun diwygiedig gyda llai o arwynebedd
 - Bod bwriad tyllu i lawr i osgoi ymddangosiad gormesol
 - Bod y balconi yn gaeedig ac felly dim effaith ar dai cyfochrog
 - Hapus gyda gosodiad a maint y datblygiad
- Pryder am ddeunyddiau allanol
 - Dim gwrthwynebiad i'r cynllun, ond ceisio gwella edrychiad
- dd) Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant - gohirio'r penderfyniad a chynnal trafodaethau pellach gyda'r ymgeisydd ynglŷn â deunyddiau amgen

Mewn ymateb i'r cynnig i gynnal trafodaethau pellach gyda'r ymgeisydd, nododd y Rheolwr Cynllunio bod modd ystyried hyn gan awgrymu llechi ar gyfer y to fyddai yn cydweddu yn well yn ei amgylchedd

PENDERFYNWYD:

Gohirio er mwyn cynnal trafodaethau pellach gyda'r ymgeisydd ynglŷn â deunyddiau amgen ar gyfer y to a'r waliau allanol

5.3 Cais Rhif C20/0986/45/LL - Black Lion Lôn Abererch, Pwllheli, Gwynedd

Dymchwel tŷ tafarn a chodi 6 tŷ ynghyd a gwaith cysylltiol

- a) Amlygodd y Rheolwr Cynllunio mai cais llawn oedd dan sylw ar gyfer dymchwel tŷ tafarn deulawr presennol ac adeiladu 6 tŷ 2 neu 3 llofft mewn rhes. Byddai'r tai yn 3 llawr ac yn cynnwys y canlynol:

- Llawr Daear: cyntedd, toiled, ystafell iwtiliti, modurdy/gweithdy, ystafell wely/swyddfa
- Llawr cyntaf: ystafell fyw, cegin, ystafell ymolchi
- Ail lawr: dwy ystafell wely (1 yn en-suite)

Adroddwyd bod y safle wedi ei leoli o fewn ffin datblygu tref Pwllheli, o fewn ardal breswyl yn bennaf gydag ambell ddefnydd masnachol gerllaw; mewn lleoliad amlwg wrth ochr un o'r prif lwybrau trafniadaeth i mewn ac allan o dref. Nodwyd bod yr adeilad a'i ddefnydd fel tafarn yn wag ar hyn o bryd.

Amlygwyd nad oedd y bwriad yn dderbyniol ar sawl rheswm oedd yn ymwneud â

- Cholled o'r dafarn
- Diffyg cyfiawnhad am y tai
- Diffyg cyfiawnhad am gymysgedd tai
- Diffyg darpariaeth tai fforddiadwy

Nodwyd pryderon am ddyluniad, graddfa a dwysedd y datblygiad yn ogystal â diffyg gofod mwynderol - ystyriwyd y cais fel gorddatblygiad o'r safle ac y byddai'n cael effaith andwyol ar yr ardal.

Amlygwyd bod yr asesiad yn amlygu diffyg gwybodaeth ar sawl mater, megis bioamrywiaeth, llifogydd a draenio ac ieithyddol ac o ganlyniad nid oedd modd asesu'r bwriad yn llawn. Argymhellwyd gwrthod y cais oherwydd y rhesymau hyn. Ategwyd, oherwydd y gwrthwynebiadau sylfaenol, nid oedd y swyddogion wedi mynd yn ôl at yr asiant i holi am wybodaeth angenrheidiol nad oedd yn ffurfio rhan o'r cais. Nodwyd nad oedd cais am gyngor ymlaen llaw wedi ei dderbyn.

b) Cynigwyd ac eiliwyd i wrthod y cais

c) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Tafarn hanesyddol sydd wedi newid dwylo lawer gwaith
- Sgîl effaith covid 19 yn debygol o amlygu pwysau cynyddol ar ddatblygu - rhaid felly sicrhau'r angen fforddiadwy
- Angen annog ymgeiswyr i gymryd cyngor cyn cyflwyno - awgrym o lawlyfr i amlinellu gwybodaeth sydd ei angen wrth gyflwyno cais
- Angen amlygu datganiadau iaith yn well ar y wefan

PENDERFYNWYD:

Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i wrthod y cais.

Rhesymau

- 1. O ystyried graddfa, dyluniad a nifer yr anheddau arfaethedig, ni ystyrir y byddai'r datblygiad yn gweddu nac o ymddangosiad derbyniol o fewn yr ardal leol. Yn ogystal, o ystyried natur gyfyng y safle, nifer yr unedau fel rhan o'r cynllun a diffyg gofod amwynder ynghlwm a'r tai unigol credir y byddai'n or-ddatblygiad o'r safle ag yn niweidiol i fwynderau preswyl. Felly, ystyrir bod y cynnig yn groes i ofynion perthnasol polisiau PCYFF 2 a PCYFF 3 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn**
- 2. Ar sail diffyg cymysgedd briodol o dai, diffyg cyfiawnhad yn amlinellu sut fydd y bwriad arfaethedig yn cyfarch anghenion y gymuned leol nac unrhyw ddarpariaeth o dai fforddiadwy fel rhan o'r cais nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y bwriad yn dderbyniol. O ganlyniad, credir bod y bwriad yn**

methu cyfarfod gofynion polisiâu TAI 1, TAI 8 a TAI 15 o fewn Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, ynghyd a chyngor perthnasol a roddir o fewn Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy a Chymysgedd Tai.

3. Er y cyflwynwyd dogfen a nodir fel Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol fel rhan o'r cais, nid yw'n cynnwys gwybodaeth ddigonol ac o ganlyniad, ni chredir fod digon o wybodaeth ar gael i asesu os yw'r bwriad yn unol â maen prawf 1c o Bolisi PS1 sydd yn gofyn am ddatganiad iaith Gymraeg fyddai'n dangos sut byddai datblygiadau arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg. Ar y sail yma, nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ei argyhoeddi na fyddai'r bwriad yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg yn ardal y cynllun
4. Ni chredir fod gwybodaeth ddigonol wedi ei gyflwyno sydd yn cyfiawnhau colli'r cyfleuster ar sail gofynion perthnasol polisi ISA 2 yn ogystal â chyngor a roddir yn y Canllaw Cynllunio Atodol: Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu; sydd yn nodi'r angen i gadarnhau trwy dystiolaeth bod ymdrechion wedi bod i farchnata'r eiddo'n addas.
5. Mae'r safle yn gorwedd o fewn ardal mewn risg o lifogydd dŵr wyneb ag oherwydd na gyflwynwyd Asesiad Canlyniadau Llifogydd fyddai wedi ystyried datblygu diogel y safle ynghyd a dangos na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn disodli dŵr wyneb tuag at eiddo eraill ni chredir fod y bwriad yn dderbyniol ar sail risg llifogydd a'i fod o ganlyniad yn groes i faen prawf 8 polisi PS 5, maen prawf 4 polisi PS 6 ynghyd a chyfarwyddyd a roddir ym mharagraff 11.1 o Nodyn Cyngor Technegol 15.
6. Ni chyflwynwyd arolwg rhagarweiniol ar gyfer rhywogaethau wedi eu gwarchod o fewn y safle a'r adeiladau ac nid oes gwelliannau bioamrywiaeth yn ffurfio rhan o'r bwriad. O ganlyniad, ni ellir sicrhau gwarchodaeth a gwelliannau i fioamrywiaeth leol ac o ganlyniad credir fod y bwriad yn annerbyniol o safbwynt gofynion meini prawf polisi AMG 5 ynghyd a chyngor a roddir o few n NCT 5.

5.4 Cais Rhif C20/1020/39/LL - Rhandir Caravan Park Lôn Plas Crwth, Mynytho, Pwllheli

Ail-leoli saith carafán o fewn cwrtill maes carafanau presennol

- a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod y bwriad yn ymwneud a newidiadau o fewn maes carafanau sefydlog presennol trwy ail-leoli 7 carafán o'u lleoliadau presennol yn wasgaredig o fewn y safle, i un safle. Byddai'r gwelliannau a fwriedir eu gwneud yn cynnwys,
 - adeiladu clawdd pridd 1m o uchel gyda llwyni ar ei ben ar hyd ymylon yr unedau yn eu lleoliad newydd.
 - cynnal tirlunio a phlannu o fewn y llecynnau ddaw yn wag oddi mewn i'r safle wedi ail leoli'r unedau.

Eglurwyd, yn bresennol bod caniatâd cynllunio ar gyfer 62 carafán sefydlog ar y safle a gan mai ail-leoli 7 carafán bresennol i leoliad newydd oedd y bwriad, ni fyddai'r niferoedd carafanau yn cynyddu.

Lleolir y safle yng nghefn gwlad ac oddi fewn dynodiadau Ardal Tirwedd Arbennig Gorllewin Llŷn a Thirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Enlli. Ceir mynediad i'r safle ar hyd ffordd breifat o'r ffordd ddosbarth cyhoeddus agosaf. Nodwyd bod gwrychoedd sefydledig ar hyd ffiniau'r safle ac oddi mewn gyda thyfiant gwasgaredig o goed yn ogystal.

Cyflwynwyd y cais i Bwyllgor gan fod ardal y datblygiad yn fwy na'r hyn y gellid ei benderfynu o dan y drefn ddirprwyedig.

Ystyriwyd yr addasiadau fel gwelliannu bwriadedig. Cyfeiriwyd at yr hanes cynllunio a'r ymatebion oedd wedi eu derbyn yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn dilyn cynnal asesiad llawn o'r materion cynllunio perthnasol, ystyriwyd bod y bwriad yn cydymffurfio gyda pholisïau perthnasol.

- b) Amlygwyd bod yr Aelod Lleol wedi nodi 'ei fod yn llwyr gytyn gydag argymhelliad a sylwadau'r Swyddog Cynllunio'.
- c) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu y cais
- ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:
 - Bod angen sicrhau digon o le rhwng carafanau
 - Bod angen gwrthod ceisiadau i lenwi bylchau
 - Angen sicrhau bod yr ymgeisydd yn cydymffurfio gyda gosodiadau pellter
 - Angen cadarnhad bod trwydded i'r safle
 - Unedau gwyliau yn cynyddu mewn maint – awgrym i leihau / adoylgu nifeoredd carafanau ar safeloedd os yw'r unedau yn mynd yn fwy

Mewn ymateb i'r sylwadau ynglŷn â sicrhau digon o le rhwng carafanau, nodwyd bod gofynion trwydded yn mynnu hyn ynghyd a gofynion y Gwasanaeth Tan. Ategodd y Swyddog Monitro bod y drwydded yn seiliedig ar ganiatâd cynllunio a bod y carafanau i'w gosod yn unol ag amodau caeth y drwydded. Nodwyd bod y cais gerbron, i ail-leoli 7 carafán, yn gais priodol ac yn disgyn o fewn gofynnion polisi - petai'r maes carafanau eisiau ehangu ymhellach, buasai rhaid cyflwyno cais o'r newydd.

PENDERFYNWYD:

Caniatáu

Amodau

1. **Amser**
2. **Cydymffurfio gyda chynlluniau**
3. **Tirlunio**
4. **Cyfyngu i ddefnydd gwyliau**
5. **Cyfyngu defnydd lleiniau/cynllun adfer**
6. **Cyfyngu niferoedd**

5.5 Cais Rhif C20/0942/22/LL - Tir ger Maes Dulyn County Road, Penygroes

Cais ar gyfer codi 24 o dai, creu mynedfa newydd a ffordd stad fewnol, cadarnhau llwybr cyhoeddus, gwaith draenio a gwaith cysylltiol

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr.

- a) Ymhelaethodd y Rheolwr Cynllunio ar gefndir y cais oedd yn gais llawn ar gyfer darparu 24 o unedau preswyl gyda phob un ohonynt yn dai fforddiadwy. Cyflwynwyd y cais gan Grŵp Cynefin (Landlord Cymdeithasol Cofrestredig) ac yn gynllun ar y cyd rhwng Grŵp Cynefin a Chyngor Gwynedd. Eglurwyd bod y safle, sydd eisoes ym mherchnogaeth Grŵp Cynefin, wedi ei leoli oddi fewn i ffin datblygu Penygroes ac wedi ei ddynodi ar gyfer tai fel y'i cynhwysir yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. Rhennir y cais i sawl elfen wahanol sy'n cynnwys:-

- Darparu unedau fforddiadwy sy'n cynnwys 10 tŷ 2 ystafell wely, 3 tŷ 3 ystafell wely, 2 tŷ 3 ystafell wely, 1 tŷ 4 ystafell wely ac 8 fflat 1 ystafell wely fydd ar gael ar ffurf cymysgedd o ddeiliadaeth fforddiadwy sydd i'w gytuno. Darparu isadeiledd i gynnwys ffordd stad a llwybrau troed cysylltiedig, ffensys/rheiliau a waliau cerrig.
- Darparu llecynnau parcio ar gyfer pob tŷ, creu mynedfa newydd o'r ffordd sirol dosbarth II B4418 ynghyd a darparu llwybr troed drwy'r safle i gydymffurfio a'r llwybr cyhoeddus sydd yn ei groesi.
- Darparu llecyn amwynder o fewn y safle ynghyd a llefydd ar gyfer crynhoi dŵr a choridor bywyd gwyllt

Adroddwyd bod yr ymgeisydd wedi llwyddo i dderbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru i adeiladu'r holl unedau preswyl fel rhai fforddiadwy.

Cyfeiriwyd at faterion tai fforddiadwy a chymysgedd tai. Adroddwyd bod yr ymgeisydd wedi cyflwyno Nodyn Tai Fforddiadwy. Eglurwyd y byddai'r tenantiaid yn cael ei dewis drwy bolisi tai gosod lleol. Amcangyfrifwyd bod 70 o geisiadau ar y gofrestr aros am dai cymdeithasol yn yr ardal a'r diffyg cyflenwad yn golygu y byddai rhai yn aros yn hir am gartref. Ystyriwyd bod y bwriad yn gam mawr i'r cyfeiriad cywir i gartrefu pobl yn eu hardal leol drwy ddatblygu cynllun o ansawdd fyddai'n diwallu anghenion cydnabyddedig drwy ddarparu cymysgedd briodol o unedau.

Nodwyd bod materion mwynderau gweledol, cyffredinol a phreswyl a materion trafndiaeth yn dderbyniol. Yng nghyd-detun materion llifogydd a draenio, nodwyd bod Dŵr Cymru wedi cadarnhau bodlonrwydd bod yr asedau yn cael eu gwarchod mewn ffordd briodol.

Wrth gyfeirio at faterion ieithyddol, adroddwyd bod datganiad iaith wedi ei gyflwyno gyda'r cais ynghyd a diwygiad pellach. Ategwyd bod sylwadau pellach wedi eu cyflwyno (22/3/21) gan yr Uned Iaith yn cadarnhau nad oedd ganddynt wrthwynebiad i'r cais oherwydd bod y materion addysg a'r angen am dai wedi eu cadarnhau.

Adroddwyd bod Swyddog Gwybodaeth yr Adran Addysg wedi nodi bod Ysgol Gynradd Bro Lleu dros ei capasiti ac o ganlyniad bod cyfiawnhad i ofyn am gyfraniad er mwyn diwallu'r diffyg capasiti yma drwy gyfrannu swm penodol o £64,614. Ategwyd bod yr ymgeisydd wedi derbyn cadarnhad gan swyddogion cynllunio bod angen cyfraniad addysgol a gellid sicrhau hyn drwy arwyddo cytundeb cyfreithiol o dan Adran 106.

Yng nghyd-destun llecynnau chwarae, amlygwyd bod diffyg llecynnau chwarae gyda chyfarpar i blant yn yr ardal. Nodwyd bod yr ymgeisydd yn cynnig 1040m² o lecyn agored heb gyfarpar ar y safle, gydag esboniad na ellid darparu offer ar y llecyn agored oherwydd yr angen am fynediad i wasanaethau megis Dŵr Cymru. Er bod y bwriad yn cynnwys llecyn agored bwriedig, nid yw'r llecyn yn cwrdd â'r angen ar gyfer llecyn gydag offer. Er mwyn cydymffurfio a gofynion polisi ISA5 o'r CDLI ynghyd a'r CCA: Llecynnau Agored mewn Datblygiadau Tai Newydd, cafwyd cadarnhad y bydd yn ofynnol i'r datblygwr ddarparu cyfraniad o £8911.54 drwy gytundeb 106 er mwyn sicrhau darpariaeth briodol yn yr ardal leol.

Ni ystyriwyd fod y bwriad yn groes i bolisiau lleol na chenedlaethol ac nad oedd unrhyw fater cynllunio perthnasol yn gorbwyso'r ystyriaethau polisi. O ganlyniad, ystyriwyd fod y bwriad yn dderbyniol yn ddarostyngedig ar gwblhau Cytundeb 106 i sicrhau cyfraniad addysg a chyfraniad llecyn agored ac i gynnwys amodau priodol.

- b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr ymgeisydd y pwyntiau canlynol:
- Bod y datblygiad yn bwysig iawn i Grŵp Cynefin – ei fod ar ei stepen drws
 - Cynhaliwyd ymgynghoriad sylweddol ar y datblygiad trwy arolwg anghenion tai a gynhaliwyd gan yr Hwylusydd Tai Gwledig a hefyd proses cyn ymgeisio cynllunio
 - Cynlluniau wedi ei diwygio ar sawl achlysur - bod datblygiad y 24 cartref newydd hyn a'r gymysgedd a gyflwynir yn y cais yn ymateb i adborth a phryderon a godwyd.
 - Bod y tir eisoes ym mherchnogaeth Grŵp Cynefin ac wrth ei ddatblygu mae'n cyf;wyno heriau, gyda'r angen i fynd i'r afael ag amodau tir annormal sylweddol a lleoliad gwasanaethau ar ran o'r safle. Fodd bynnag, y datblygiad fel y'i dyluniwyd a'i gyflwyno yn mynd i'r afael â hyn.
 - Y bwriad yw adeiladu 24 o gartrefi carbon isel ac ynni effeithlon newydd, a llwyddwyd i gael arian grant gan Lywodraeth Cymru trwy'r Rhaglen Tai Arloesol
 - Fel Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, bydd yr holl gartrefi newydd ar gael i bobl leol ar ddeiliadaeth fforddiadwy cymysg. Bydd y ddeiliadaeth yn unol â'r ddeiliadaeth fforddiadwy a ganiateir gan amodau'r grantiau sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y datblygiad
 - Yn gweithio'n agos gyda Chyngor Cymuned Llanllyfni, Cyngor Gwynedd a Tai Teg i gytuno ar bolisi gosod lleol ar gyfer y cartrefi newydd yma.
- c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol y pwyntiau canlynol
- Bod angen dirfawr am dai i bobl lleol
 - Diffyg tai yn un o heriau Cyngor Gwynedd, felly croesawu'r datblygiad
 - Yn ddatblygiad arloesol, amgylcheddol gyfeillgar
 - Yn ymateb i'r angen am dai yn lleol
 - Ymfalchïo yn y cynllun
 - Cefnogaeth llawn i'r cynllun
- ch) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu y cais
- d) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:
- Bod y tai yn rhai o ansawdd da
 - Gosodiad yn dderbyniol
 - Hapus gyda'r amodau a'r dyluniad
 - Croesawu amod argymhellion yr Uned Coed
 - Bod angen ystyried enwau Cymraeg ar y tai
 - Croesawu'r datblygiad
 - Angen am dai yn lleol

Mewn ymateb i sylw bod 24 yn lawer o dai a bod angen osgoi gweld sefyllfa o dai gwag fyddai o ganlyniad yn cael eu gwerthu fel tai marchnad agored, nododd y Rheolwr Cynllunio bod yr ymgeisydd yn landlord cofrestredig fydd yn derbyn grant sydd yn clymu'r tai fel rhai fforddiadwy yn unig - bydd y tai yn cael eu gosod ar rent drwy bartneriaeth rhwng y Cyngor a Grŵp Cynefin.

Mewn ymateb i sylw am enwau tai Cymraeg, amlygwyd bod trefn statudol i enwi tai ac na fyddai yn rhesymol gosod amod i sicrhau hyn. Ategwyd bod Rheolaeth Adeiladu gyda chyfrifoldeb dros enwi stadau a rhifo tai. Byddai modd annog pobl i ddefnyddio enwau Cymraeg - awgrym i osod nodyn i amlygu'r dymuniad.

PENDERFYNWYD

Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Cynorthwyol Adran yr Amgylchedd i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i dderbyn ymateb ffafriol gan Dwr Cymru ac i'r ymgeisydd gwblhau cytundeb o dan Adran 106 er mwyn sicrhau cyfraniad ariannol ar gyfer darpariaeth addysgol a chyfraniad llecyn agored.

Amodau

1. 5 mlynedd.
2. Yn unol â'r dogfennau/cynlluniau a gyflwynwyd gyda'r cais.
3. Llechi naturiol.
4. Samplau o'r deunyddiau a'r lliwiau ar gyfer y tai ynghyd a manylion y paneli solar i'w cytuno gyda'r ACLL.
5. Amodau Priffyrdd.
6. Tirlunio meddal a chaled.
7. Amodau Bioamrywiaeth a Choed
8. Cyfyngu ar oriau gweithio i 08:00 - 18:00 yn yr wythnos, 08:00 - 12:00 ar ddydd Sadwrn a dim o gwbl ar y Sul a Gwyliau Banc.
9. Manylion Llwybr
10. Cytuno manylion parthed enwau Cymraeg ar gyfer y datblygiad ynghyd ac arwyddion sy'n hysbysu ac yn hyrwyddo'r datblygiad o fewn ac oddi allan y safle.
11. Sicrhau cynllun/trefniadau ar gyfer darparu'r unedau fforddiadwy.
12. Tynnu hawliau datblygu cyffredinol o'r unedau fforddiadwy.
13. Cyflwyno Datganiad Dull Adeiladu gan gynnwys darpariaeth parcio cerbydau'r adeiladwyr.
14. Cyflwyno manylion goleuadau allanol i'w gytuno gyda'r ACLL cyn iddynt gael eu gosod.
15. Amod mesurau lliniaru archeolegol.
16. Diogelu'r llecyn agored ar gyfer y dyfodol

Nodyn: Hysbysu'r ymgeisydd o'r angen i gyflwyno cynllun strategaeth ddraenio gynaliadwy i'w gymeradwyo gan Uned Dwr ac Amgylchedd y Cyngor

Nodyn: Hysbysu'r ymgeisydd o ymateb Dŵr Cymru sy'n cyfeirio at garthffos gyhoeddus yn croesi'r safle.

Nodyn: Enwau Cymraeg i'r tai yn ogystal â'r Stad/ffyrdd o fewn y stad ei hun

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 13:10pm.

CADEIRYDD

Eitem 5.1

EITEM 1

PWYLLGOR:	Pwyllgor Cynllunio
DYDDIAD:	Ebrill 2021
TEITL:	Gorchymyn Diogelu Coed (GDC) Dros Dro C20/01/TP – Tir ger Tyddyn Meilir, Abererch, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6YH
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Ystyried cadarnhau y Gorchymyn Diogelu Coed uchod.
ADRODDIAD GAN:	Dirprwy Bennaeth Adran Amgylchedd
GWEITHREDU:	Gofynnir i'r pwyllgor dderbyn yr argymhelliad

1. CEFNDIR

- 1.1 Rhoddwyd Gorchymyn Diogelu Coed Dros Dro (“y Gorchymyn”) ar ddau grŵp o goed yn y lleoliad a ddangosir ar y cynllun amgaeedig ar y 8 Rhagfyr 2020 yn dilyn archwiliad gan Wasanaeth Bioamrywiaeth y Cyngor. Gwnaethpwyd asesiad o'r ddau grŵp o goed gan ddefnyddio sustem TEMPO (*Tree Evaluation Method for Preservation Orders*) ac fe sgoriodd Grŵp 1 18 pwynt, a Grŵp 2 16 pwynt. Mae'r sustem TEMPO yn nodi bod unrhyw goeden/coed sydd yn sgorio 16 pwynt neu fwy yn teilyngu cael eu diogelu.
- 1.2 Cyflwynwyd y Gorchymyn gan yr ystyrir bod y coed o werth mwynderol uchel ac yn iach heb unrhyw arwydd o straen, er bod Grŵp 2 wedi sgorio ychydig yn llai oherwydd bod cyflwr iechyd cyffredinol y coed wedi ei gymryd i ystyriaeth. Maent wedi eu lleoli cyfocrog a ffordd trydydd dosbarth ac mewn man amlwg yn y tirwedd ac yn gwneud cyfraniad bositif at edrychiad yr ardal o'u cwmpas. Mae pwysigrwydd y coed wedi cynyddu yn sylweddol ers torri nifer o goed yng nghyffiniau y grwpiau.

2. LLEOLIAD a DISGRIFIAD

- 2.1 Mae'r coed wedi eu lleoli i'r gogledd o Tyddyn Meilir, ac ar ffin dwyreiniol y ffordd sirol trydydd dosbarth o Glogwyn i'r de heibio Eisteddfa i Ddôl Trement. Mae'r tir ym mherchnogaeth preifat, ac mae pryder yn bodoli bod y coed dan fygythiad i'w torri.
- 2.2 Mae Grŵp G1 yn cynnwys 25 o goed Ffawydd aeddfed ag un dderwen wedi eu polardio i fewn i glawdd. Mae Grŵp G2 yn cynnwys 32 o goed ffawydd, 2 sycamorwydden, ac 1 dderwen gyda'r ffawydd wedi polardio fewn i glawdd.

3. SYLWADAU ALLANOL

- 3.1 Yn unol â gofynion statudol ymgynghorwyd â'r Aelod Lleol, Cyngor Cymuned Llannor â'r perchennog tir yn dilyn cyhoeddi'r gorchymyn dros dro, a rhoddwyd 28 diwrnod iddynt ymateb. Nid oes cymdogion eraill sydd yn debygol o gael eu effeithio gan y gorchymyn.

- 3.2 Ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth Cyngor Cymdeithas Llannor, ond derbyniwyd gwrthwynebiad i'r gorchymyn dros dro oddi wrth yr Aelod Lleol ar sail ei fod wedi trafod y coed gyda'r perchennog tir dros y blynyddoedd, ac nad yw yn bwriadu torri y coed. Yn hytrach, tocio canghennau dros y ffordd sirol ac yn y caeau sydd yn rhwystro defnydd o dractor a pheiriannau a fwriedir, ac felly nad oes diben i'r gorchymyn ei hun.
- 3.3 Derbyniwyd gwrthwynebiad i'r gorchymyn dros dro gan y perchennog tir, ac mae seiliau y gwrthwynebiad wedi eu nodi isod:-
1. Yn Atodlen 1 nodir mai 'gwerth mwynderol uchel' y coed a'u 'cyfraniad positif i edrychiad yr ardal' yw'r rheswm dros gyflwyno GDC. Ni nodir unrhyw reswm arall. Ystyriaethau esthetaidd, argraffiadol yn unig a grybwyllir. Nid oes unrhyw fygythiad i'r coed yn hyn o beth. Ni fyddai gwerth mwynderol y coed yn ddim llai o'u polardio'n daclus. A byddai hynny'n ychwanegu at oes y coed yn y tymor hir;
 2. Coed wedi eu plannu'n wrych oedd y rhain yn wreiddiol ac maent wedi cael llonydd i dyfu am ddegawdau lawer. Mae eu tocio yn hanfodol gan eu bod yn bwrw eu cysgod dros sribyn da o gae ac yn ei gwneud hi'n amhosib i fynd â thractor gydag ymyl y ffens. Mae angen ail ffensio'r cae ond rwy'n gyndyn o wneud hynny cyn tocio'r coed, yn enwedig y rhai sydd â llawer o bydredd yn eu bonau;
 3. Byddai disgwyl i mi gyflwyno cais cynllunio ffurfiol ac adroddiadau arbenigol cyn ymgymryd â gwaith tocio yn afresymol o feichus o ystyried cyflwr llawer o'r coed.
- 3.4 Yn ychwanegol i hyn, derbyniwyd llythyr gan Undeb Amaethwyr Cymru ar y 3 Mawrth 2021 yn cefnogi gwrthwynebiad y perchennog tir i'r gorchymyn dros dro ar sail:-
1. Nid oes fygythiad i 'werth mwynderol uchel' y coed a'u 'cyfraniad positif i edrychiad yr ardal'. Bwriad y perchennog tir yw tocio'r coed, nid eu cwmpo.
 2. Mae pydredd amlwg ym moncyff llawer o'r coed. Byddai ysgafnu'r baich drwy eu polardio yn ychwanegu at oes y coed yn y tymor hir;
 3. Gwrych oedd yma yn wreiddiol ac mae wedi cael llonydd i dyfu heb ei reoli. Byddai tocio'r coed yn cyfrannu at adfer rheolaeth dda. Fel y maent ar hyn o bryd, mae'r coed yn amharu ar waith i reoli ysgall a gwella'r borfa. Mae eu tocio hefyd yn angenrheidiol cyn medru ffensio'r terfyn ar hyd y ffordd;
 4. Mae'r baich gweinyddol ar amaethwyr eisoes yn drwm a byddai ychwanegu yn ddiangen at y baich hwnnw yn dangos cryn ddihidrydd at les cynheiliaid cefn gwlad.

4 **ASESIAD**

- 4.1 Mae'r hawl i wneud gorchymyn diogelu coed wedi ei ddirprwyo i swyddogion o fewn y Gwasanaeth Cynllunio. Fodd bynnag, pan dderbynnir gwrthwynebiadau i'r gorchymyn, mae'n briodol cyflwyno'r gorchymyn i'r Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad os dylid ei gadarnhau neu beidio.
- 4.2 Gwneir gorchymynion diogelu os yw'n ymddangos i'r Awdurdod Cynllunio Lleol y byddai yn amserol er budd amwynder i wneud darpariaeth ar gyfer diogelu coed neu

goedlannau yn ei ardal. Mae amlygrwydd y coed i'r cyhoedd yn gymorth i'r Awdurdod Cynllunio Lleol asesu os yw eu ardrawiad ar yr amgylchedd lleol yn sylweddol. Serch hynny, nid yw amlygrwydd coed ynddo ei hun yn ddigonol i warantu gorchymyn diogelu. Mae angen asesu pwysigrwydd maint a ffurf y coed eu hunain, ac eu potensial mwynderol i'r dyfodol. Yn ogystal, dylid ystyried arwyddocâd y coed yn eu amgylchedd lleol. Os credir bod risg i goed gael eu torri lawr, neu eu tocio mewn ffyrdd a all gael ardrawiad sylweddol ar amwynder ardal, yna byddai yn amserol cyhoeddi gorchymyn diogelu. Nid oes angen i'r risg fod yn un dybryd.

- 4.3 Mae 'pollarding' yn ddull o docio sydd yn cadw coed a llwyni yn llai ran maint na pe byddent yn tyfu yn naturiol. Gwneir gwaith o'r fath unwaith mae coeden neu lwyn wedi cyrraedd uchder penodol, ac mae tocio blynyddol yn cadw y goeden neu lwyn i'r uchder hynny. Mae yn ddull traddodiadol o gynaeafu pren o goeden heb ei lladd, ond fe'i derbynir hefyd fel nodwedd esthetaidd ynddo ei hun. Nid yw yn hawdd ei gymhwyso i goed aeddfed, gan bod torri canghennau mwy, a adweinir fel topio, yn gadael coeden yn fwy agored i haint.
- 4.4 Yn dilyn derbyn y gwrthwynebiadau i'r gorchymyn ymgynghorwyd ymhellach gyda'r Gwasanaeth Bioamrywiaeth. Derbyniwyd sylwadau yn ymateb i'r pwyntiau a nodwyd uchod, fel a ganlyn:-
1. Mae gwerth mwynderol yn allweddol pan yn ystyried creu gorchymyn diogelu coed;
 2. Mae gwerth bioamrywiaeth y coed yn ystyriaeth o bwys yn ogystal, ac hefyd yr angen am drafodaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru os oes angen trwydded i dorri dros 5m³ o goed, yn enwedig gan nad ydynt wedi eu cynnal ers dros 30 o flynyddoedd;
 3. Er y bu i'r coed gael eu plannu fel gwrych, nid ydynt wedi eu tocio ers dros 30 o flynyddoedd. Yn unol ac ymarferion gwaith cynnal da, mae'r *Arboricultural Association* â'r Gymdeithas Garddwriaethol Frenhinol yn cyngori y dylid ymgymryd â gwaith tocio pob ychydig o flynyddoedd fel nad yw canghennau yn gordyfu a creu problemau.
 4. Mae cyfeiriad wedi ei wneud at gyflwr y coed, ond ni ystyrir y gellir dadlau na fydd tocio y coed ddim yn cael unrhyw effaith arnynt. Mae'n debygol iawn y bydd ymgymryd â gwaith tocio sylweddol yn golygu y bydd cyflwr rhai o'r coed wedyn yn disgyn i mewn i'r categori o gyflwr gwael. Er mwyn cynnal a chadw y coed yma mewn cyflwr da, mae'n hanfodol cael cyngor arbenigol i wybyddu y gwaith sydd yn angenrheidiol, ac a fydd hefyd yn lleihau y tebygolrwydd o ddifa y coed yn gyfan gwbl.
 5. Pan archwiliwyd y coed i ystyried cyflwyno gorchymyn diogelu yn wreiddiol, sylwyd bod rhai coed eisoes wedi eu tocio i lawr i 10/12 troedfedd. Ystyrir bod hyn yn newid edrychiad y coed yn sylweddol, ac hefyd yn ormod o waith i goed sydd heb eu cynnal ers sawl degawd;

6. Nid yw cynnal coed sydd wedi eu heffeithio â ffwng pydredd ddim mor hawdd a torri canghennau i ysgafnu baich. Mae coeden angen canran o goron iach er mwyn gallu cynnal ei hun. Dylid ceisio cyngor arbenigol i wneud unrhyw waith i'r coed er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu lladd o ganlyniad i unrhyw waith tocio.
7. Os yw'r coed yn atal gallu rheoli ysgall a gwella'r borfa, yna byddai codi coron y coed (*crown lift*) yn opsiwn neillog a fyddai yn lleihau y cysgod yn y cae a gallu mynediad tractor a gofynion ffensio.
8. Ystyrir y dylai'r perchennog tir gael arweiniad arbenigol i ymgymryd ac unrhyw waith i'r coed. Ni ystyrir bod hynny yn broses trwsogl nac anodd, a byddai yn sicrhau bod y coed yn cael eu cynnal mewn ffordd effeithiol, drwy ddefnyddio dulliau ymarfer da, fel bod y coed yn cael eu cadw i'r dyfodol fel nodwedd arbennig yng nghefn gwlad yr ardal.

5. CASGLIADAU

- 5.1 Mae'n debygol mai gwrych oedd yn bodoli ar y safle yn y blynyddoedd a fu, ond oherwydd diffyg rheolaeth tebygol, gwelir heddiw rhes o goed o rywogaeth ffawydd yn y mwyafrif ar y safle. Sylweddolir dymuniad i ddod a'r coed dan reolaeth, ond mae'n bwysig bod unrhyw waith iddynt yn cael ei wneud drwy ddilyn dulliau gweithio ymarfer da.
- 5.2 Mae peth gwaith wedi ei ymgymryd o docio rhai coed ar y safle eisoes, a cyn i'r gorchymyn dros dro gael ei gyhoeddi. Archwiliwyd y coed ar y 9 Chwefror 2021 yng nghwmni'r perchennog tir, a nodwyd bod sawl coeden gyda pydredd a thyllau yn eu boncyff. Fodd bynnag, ymddengys bod dulliau cynnal neillog ar wahân i docio yn bosibl (gyda cyngor arbenigol priodol) fyddai yn golygu y gellir diogelu'r coed, tra ar yr un pryd yn rhoddi mynediad rhwydd i'r tîrfeddiannwr ar gyfer amaethu'r tir, a chynnal y borfa a terfynau caeau.

6. Y BROSES CADARNHAU

- 6.1 Mae 4 dewis i'r Pwyllgor ar ôl ystyried yr adroddiad hwn a'r gwrthwynebiadau a sylwadau a dderbyniwyd, sef:
 - i. Cadarnhau'r gorchymyn fel y mae, heb newidiadau
 - ii. Cadarnhau gyda newidiadau
 - iii. Peidio cadarnhau
 - iv. Cynnal ymchwiliad cyhoeddus.
- 6.2 Yn dilyn ystyried y cyfan o'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn, argymhellir bod y Pwyllgor yn dewis opsiwn (i) uchod, sef cadarnhau'r gorchymyn heb newidiadau.

7. ARGYMHELLIAD

- 7.1 Cadarnhau'r gorchymyn heb newidiadau.

C20/01/TP

Tud. 22

Gorchymyn Diogelu Coed (GDC) Dros Dro

**Tir ger Tyddyn Meilir, Abererch, Pwllheli, Gwynedd,
LL53 6YH**



Tud. 23



Tud. 24



Tud. 25





Tud. 27



Tud. 28







Eitem 5.2

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Rhif: 2

Rhif y Cais: C20/1063/22/AC

Dyddiad 22/12/20
Cofrestru:

Math y Cais: Adnewyddu a Newid Amod(au)

Cymuned: Clynnog

Ward: Clynnog

Bwriad: Cais dan Adran 73 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i amrywio amod 1 ar ganiatâd cynllunio C16/0816/34/MW (estyniad arfaethedig dwyreiniol i echdynnu tywod a graean a gwaith adfer graddol) i ganiatáu estyniad pedair blynedd i gwblhau gweithrediadau mwynau a blwyddyn ychwanegol i gwblhau'r gwaith adfer

Lleoliad: Cefn Graianog, Llanllyfni, Caernarfon, LL54 6SY

Crynodeb o'r Argymhelliad: CANIATÁU GYDAG AMODAU.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

1. Disgrifiad:

- 1.1 Cais yw hwn i newid amod 1 ar ganiatâd cynllunio presennol, C16/0816/34/MW i ymestyn yr amserlen i godi a gweithio tywod a graean o'r ardal estynedig bresennol sydd â chaniatâd, am bedair blynedd arall.
- 1.2 Lleolir safle'r cais ar ystlys ddwyreiniol yr ardal echdynnu bresennol, tua 530m o AHNE Llŷn i'r gorllewin o Barc Cenedlaethol Eryri ac oddeutu 1,500m i'r de ddwyrain. Mae'r safle presennol, gan gynnwys y cyfleuster prosesu, lagwnau a'r gweithfeydd hanesyddol sydd wedi'u hadfer yn ymestyn i oddeutu 59 hectar, ond yn ei hanfod, mae'r gwaith presennol yn cynnwys dwy brif ardal wedi'u cysylltu gan gludydd a ffordd fewnol. Mae'r estyniad arfaethedig yn golygu 5.8ha ac yn cynnwys tir sydd wedi'i adfer a'r bwriad yw ail-ymweld â'r ardaloedd yma i ail-weithio'r mwyn a ystyriwyd yn flaenorol i fod yn aneconomaidd, gan hefyd alluogi'r cynllun echdynnu i gael mynediad i ddyddodion pellach gan ymestyn tua'r dwyrain. Mae ardal yr estyniad arfaethedig yn cynnwys glaswelltir wedi'i wella gyda therfynau caeau o waliau cerrig afreolaidd. Yn ffinio'r ardal, mae'r ardal waith bresennol i'r gorllewin, llwybr beicio Lôn Eifion i'r dwyrain ac ardal o laswelltir corsiog, garw i'r gogledd.
- 1.3 Bydd ardal yr estyniad arfaethedig yn cynnwys dau gyfnod echdynnu i ryddhau 380,000 tonnell ychwanegol o dywod a graean, ac ar sail yr allbwn presennol o 90,000 tonnell y flwyddyn, byddai'n cael ei echdynnu dros gyfnod o bedair blynedd. Mae cynlluniau'r cais yn ceisio rhesymoli y dilyniant graddol i echdynnu ac adfer y safle ar y cyd â'r tir gweithredol sy'n weddill sy'n amodol ar y cais cysylltiedig, C20/1065/22/AC.
- 1.4 Byddai'r dulliau gweithio yr un rhai ag a ddefnyddir yn bresennol yn y chwarel, gan ddefnyddio yr un beiriannu turio, cludyddion a pheiriannau symudol eraill fel y presennol. Bydd dilyniant y gwaith yn destun yr un amodau ag sydd eisoes yn bodoli gan ddelio gyda gofynion fel oriau gweithredu, sŵn, ecoleg, llwch, hwsmonaeth amaethyddol a chofnodi/dulliau lliniaru archeolegol cyn mynd ati i echdynnu. Mae'r cynllun adfer ac ôl-ofal arfaethedig i ddefnydd amaethyddol yn parhau fel ag y mae yn awr yn bennaf, wrth i ddilyniant y gweithrediadau fynd rhagddo tua'r dwyrain i ardal yr estyniad. Yn ychwanegol, mae'r bwriad yn cydnabod bod cyfle i wella cadwraeth natur a buddiannau bioamrywiaeth ac mae cynllun adfer wedi ei lunio yn unol â hyn.
- 1.5 Nid yw'r datblygiad arfaethedig felly yn unol â'r disgrifiad a'r meini prawf a nodir yn Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2017. Er hynny, mae'r datblygiad yn syrthio o fewn y disgrifiad o ddatblygiad sydd wedi'i nodi ym Mharagraff 2 i Atodlen 2 y Rheoliadau (*chwareli, mwyngloddio brig a chodi mawn*) a pharagraff 13 (*unrhyw newid i neu estyniad i'r datblygiad ble bo'r datblygiad hwnnw eisoes wedi ei awdurdodi, ei weithredu neu yn y broses o gael ei weithredu, a gall y newid neu'r estyniad gael effeithiau andwyol ar yr amgylchedd*). Wedi sgrinio ac asesu'r bwriad yn unol â'r meini prawf datblygu dan Atodlen 3, ystyrir nad yw effaith debygol y datblygiad ar yr amgylchedd yn ddigon i gyfiawnhau cyflwyno Asesiad Effaith Amgylcheddol gyda'r cais cynllunio.

2. Polisiâu Perthnasol:

- 2.1 Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae'r ystyriaethau polisi yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.
- 2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r "egwyddor datblygu cynaliadwy", fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni'r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

2.3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026

Polisi Strategol PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

Polisi Strategol PS 5: Datblygu Cynaliadwy

Polisi Strategol PS 13: Darparu Cyfleoedd ar gyfer Economi Ffyniannus

Polisi Strategol PS 19: Gwarchod a lle fo'n berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol

Polisi Strategol PS 22: Mwynau

POLISI AT 4 Diogelu Safleoedd Archeolegol nad ydynt wedi'u Dynodi a'u Gosodiad

POLISI AMG 1: Cynlluniau Rheolaeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

POLISI AMG 3: Gwarchod a Gwella Nodweddion a Rhinweddau sydd yn unigryw i Gymeriad y Dirwedd Leol

POLISI AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol

POLISI PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu

POLISI PCYFF 6: Cadwraeth Dŵr

POLISI MWYN 3: Datblygiadau Mwynau

POLISI MWYN 5: Cylchfeydd Rhagod o amgylch Safleoedd Mwynau

POLISI MWYN 9: Adfer ac Ôl-ofal

Canllaw Cynllunio Atodol - Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy 2019

Canllawiau Cynllunio Atodol - Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd 2009

2.4 Polisiâu Cenedlaethol:

- Polisiâu, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru, Rhifyn 11 (Chwefror 2021),
- Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040,
- Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017;
- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (Medi 2009) Llywodraeth Cymru
- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11: Sŵn (Hydref 1997), Llywodraeth Cymru
- Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Hydref 2017) Llywodraeth Cymru
- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 15: Datblygu a Risg Llifogydd
- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 23: Datblygiad Economaidd (Chwefror 2014), Llywodraeth Cymru
- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017), Llywodraeth Cymru

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

- Llywodraeth Cymru - Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: AGREGAU (Mawrth 2004) a Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru

3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

- 3.1 Mae gan y safle hanes hir o gloddio tywod a graean, hanes sy'n dyddio'n ôl i'r caniatâd cynllunio cynharaf a roddwyd ym mis Mai 1958, a cheir tystiolaeth bod y gwaith wedi cyflenwi deunyddiau ar gyfer nifer o gontractau peirianeg sifil ar raddfa fawr yn yr ardal, gan gynnwys Gorsaf Bŵer Dinorwig, Argae Stwlan a nifer o gontractau gwella ffyrdd lleol. Mae'r caniatadau isod yn benodol i ardal y cais.
- 3.2 Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r safle wedi bod yn weithredol dan ganiatâd cynllunio 2/14/16G a roddwyd ar 1 Mawrth 1996, oedd yn cynnwys ardal brosesu Cefn Graianog a'r gweithrediadau cloddol yn Fferm Graianog. Rhoddwyd caniatâd pellach, C00D/0005/34/MW, ym mis Mai 2000 i newid amodau 1 a 2 o'r caniatâd hwn i altro trefn y gweithrediadau cloddol. Roedd y newid yma'n galluogi i'r gweithrediad gyfuno amryfal fathau o fwynau ar wyneb y gwaith i gwrdd â gofynion cynhyrchu/gwerthiant ac i resymoli y drefn o adfer graddol.
- 3.3 **C10/0487/34/MW** - Cyflwynwyd y cais gydag Asesiad Effaith Amgylcheddol. Caniatawyd cais cynllunio yn ddarostyngedig i amodau ar 23 Awst 2011 i amrywio amodau ar ganiatâd cynllunio presennol i ymestyn oes y gwaith mwynloddio tan 31 Rhagfyr 2020 ac amrywio cynllun gwaith dan amodau 1 a 2 o ganiatâd cynllunio 2/14/12G a C00D/0487/34/MW.
- 3.4 **C15/0299/34/MW** Caniatawyd gydag amodau ar 22 Mehefin 2015 – Adeiladu 3 lagŵn siltio ategol a gwaith cysylltiedig i ddarparu'r capasiti angenrheidiol i alluogi gwaith mwynau sy'n parhau a darparu system gaeedig i reoli dŵr chwarel ar y safle.
- 3.5 **C16/0816/34/MW** - Caniatawyd yn ddarostyngedig i amodau ar 18 Tachwedd 2016 - Estyniad dwyreiniol arfaethedig i gloddio tywod a graean a gwaith adfer graddol.

4. Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned Clynnog: Dim gwrthwynebiad

Cyngor Cymuned Llanllyfni : Dim gwrthwynebiad

Uned Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru: Nid yw Llywodraeth Cymru, fel awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffordd yr A487, yn dymuno cyflwyno cyfarwyddyd mewn perthynas â'r cais hwn.

Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd: Dim Ymateb

Uned Priffyrdd a Thrafnidiaeth Gwynedd: Dim gwrthwynebiad i'r cais i ymestyn yr amser.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Rheolwr AHNE Cyngor Gwynedd: Mae safle gwaith Cefn Graianog ger Bryncir ac yn agos at ffin yr AHNE. Sefydlwyd y gwaith ddegawdau yn ôl i ddarparu tywod a graean yn lleol ac yn rhanbarthol. Bu gwaith adfer effeithiol ar y safle yn ystod y blynyddoedd diwethaf sy'n lleihau'r effaith ar y dirwedd. Oherwydd bod gan yr estyniad i'r dwyrain gyfyngiad amser, ac nad oes unrhyw gynigion i ymestyn ardal y safle, nid oes unrhyw bryderon am yr effaith ar yr AHNE.

Ymgynghorydd Iaith Cyngor Gwynedd: Dim gwrthwynebiad i'r cais i ymestyn yr amser o safbwynt ieithyddol. Ystyrir mai effaith niwtral fyddai o gymeradwyo'r cais.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd: Nid oes unrhyw bryderon archeolegol gyda'r cyfnod ymestyn a ofynnir.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus Gwynedd: Dim ymateb.

Uned Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Gwynedd: Dim sylwadau ar ddraenio tir na pheryglon posib llifogydd.

Dŵr Cymru: Yn cydnabod nad yw cais (Cyf:C20/1063/22/AC) yn golygu cynigion i gysylltu â'r garthffos gyhoeddus neu rhwydwaith y prif gyflenwad dŵr ac felly nid ydym yn cynnig unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i newid amod 2 i ganiatáu ymestyn yr amser, yn amodol i gydymffurfio gyda unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â draenio.

Parc Cenedlaethol Eryri: Dim Ymateb

Scottish Power: Dim Ymateb

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Uned Bioamrywiaeth
Gwynedd:

- Mae bob un o'r tri chaniatâd sy'n bodoli (C10/0487/34/MW, C15/0299/34/LL, C16/0818/34/MW) wedi cael eu hasesu ar gyfer effaith sylweddol debygol dan Reoliad 63 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 pan gawsant eu penderfynu. Ni ystyriwyd bod yr un o'r tri chaniatâd yma'n debygol o gael effaith sylweddol ar nodweddion cadwraeth ACA Corsydd Eifionydd ac roedd CCW/NRW yn cytuno gyda'r asesiadau hyn. Nid oes unrhyw newid i'r caniatadau presennol, ac felly mae'r asesiadau blaenorol ar gyfer effaith sylweddol tebygol yn aros yr un fath ac mae'r bwriad i ymestyn amser y caniatâd yma yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ACA Corsydd Eifionydd.
- I grynhoi, ni fydd parhad y gwaith presennol yng Nghefn Graianog yn effeithio ar ACA Corsydd Eifionydd am y rhesymau isod:
 - Nid yw'r chwarel a'r gwaith cysylltiedig yn yr ACA ac nid yw ychwaith mewn cynefin tebyg sy'n gyfagos at Gors Cyfelog. Felly, ni fydd unrhyw dir sydd yn yr ACA yn cael ei gymryd ac ni fydd unrhyw gynefin sy'n gysylltiedig â'r gors yn cael ei golli.
 - Ni fydd hydroleg y gors yn newid.
 - Adeiladwyd system lagŵn dolen gaeedig yn y chwarel i sicrhau nad oes unrhyw lygredd yn mynd i'r gors.
- Argymhellir bod y cynlluniau adfer i'r chwarel, lagwnau a'r ardaloedd prosesu yn ceisio creu cynefinoedd o werth bioamrywiaeth uchel fel porfa frwynog (brwyn blodeufain a glaswellt y gweunydd) a gweirglodd blodau gwyllt gyda phwll bach a phyllau bas. Mae cynefinoedd micro fel pyllau bas bach a phyllau bach ac ardaloedd o brysgwydd, o gymorth i greu mwy o amrywiaeth i fywyd gwyllt, yn arbennig infertebratau. Mae brwyn a gwair uchel yn darparu cysgod i famaliaid bach ac ymlusgiaid. Hoffem weld mwy o fanylion ar yr holl gynlluniau adfer, fel cynlluniau sy'n dangos nodweddion cynefinoedd micro (pyllau bas, pyllau, prysgwydd, waliau cerrig sych ac ati) gyda rhestrau o rywogaethau i blannu (llwyni a choed) a blodau gwyllt i gymysgedd hadau.
- Argymhellir y dylid creu nodwedd i wenoliaid y glennydd nythu, megis clawdd tywod neu bridd uchel.
- Rhestrir rhywogaethau o blanhigion anfroddol dan atodlen 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd), ac mae hi'n drosedd i achosi iddynt dyfu yn y gwyllt. Dylid monitro holl safle'r chwarel yn rheolaidd ar gyfer rhywogaethau o blanhigion anfroddol fel Llysiau'r Dial, Ffromlys Chwarennog a Choed Mêl. Dylid cynnal arolwg o safle'r chwarel ar gyfer y planhigion hyn bob blwyddyn ynghyd â map i ddangos eu lleoliad ac amcangyfrif o'u nifer gan eu darparu i'r ACLI. Dylid cael gwared o'r rhywogaethau hyn yn y ffordd briodol.

Yr Arolygiaeth Chwareli:

Dim sylwadau gwrthwynebus i'w gwneud ar y cais hwn am estyniad amser a ganiateir i echdynnu ac adfer y chwarel

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Cyfoeth Naturiol Cymru:

Ymgynghoriad Iaf

Dim gwrthwynebiadau i'r cais, ond gyda'r sylwadau isod;

- O'r wybodaeth a ddarparwyd, mae CNC yn ystyried y gall y bwriadau effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig Corsydd Eifionydd (ACA), Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cors Gyfelog (SSSI) a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Gyfelog (GNNR), gyda effaith bosib gan lwybrau llygredd ar nodweddion y safle. Efallai na fyddant yn golygu effaith andwyol os glywir at/gweithredir mesurau atal llygredd.
- Nid oes unrhyw asesiad o effaith sylweddol tebygol dan Reoliad 63 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, wedi'i gynnal gan eich awdurdod neu nid yw wedi ei anfon ymlaen i CNC i'w ystyried. Os dewch i'r casgliad bod y datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol ar y safle Ewropeaidd, edrychwn ymlaen i chi ail-ymgyngori gyda ni. Oherwydd absenoldeb yr asesiad yma, ni all CNC roi sicrwydd na fydd y cynigion yn golygu effaith andwyol ar ACA.
- Argymhellwn eich bod yn ymgynghori gyda'ch ecolegydd ar unrhyw gyfleoedd gwella posib a'r cynnig tirweddu,
- Cynghorwn yr ymgeisydd ei fod yn gyfrifol, yn ogystal â chael chaniatâd cynllunio, am sicrhau ei fod yn cael pob hawlen/caniatâd/trwydded sy'n berthnasol i'r datblygiad. Cyfeiriwch at ein gwefan i gael rhagor o fanylion.
- Rheoli Amgylcheddol; Cynghorir yr ymgeisydd i ddilyn y canllawiau sydd yn Canllawiau Atal Llygredd 5 "Works and Maintenance in or Near Water":

2il Ymgynghoriad (Asesiad HRA)

- Cytunwn gyda Gwynedd yn ei asesiad fel awdurdod cymwys dan Reoliad 63 o Reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, bod bwriad i ymestyn yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ACA Corsydd Eifionydd.

Polisi Priddoedd a Defnydd Tir Amaethyddol Llywodraeth Cymru: Dim Ymateb

Cefn Gwlad a Mynediad Gwynedd: Dim Ymateb

Sustrans: Dim Ymateb

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Gosodwyd hysbysiad mewn lleoliad gerllaw'r safle ar 7 Ionawr 2021, ac fe hysbyswyd cymdogion cyfagos drwy lythyr. Ymddangosodd hysbysiad yn y wasg leol ar 20 Ionawr 2021 ac nid oes unrhyw lythyr ar wedi eu derbyn mewn ymateb i'r cyhoeddusurwydd statudol ar y cais.

Asesu'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

5. Egwyddor y datblygiad

- 5.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Rhifyn 11, Chwefror 2021) yn amlinellu polisi cynllunio Llywodraeth y Cynulliad o ran cloddio mwynau. Dylai pob Awdurdod Cynllunio Mwynau sicrhau bod ei gynlluniau datblygu yn caniatáu cyfrannu at gyflenwad mwynau sy'n diwallu anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- 5.2 Mae Cyngor Gwynedd, ar y cyd â holl Awdurdodau Cymru wedi cadarnhau'r Datganiad Technegol Rhanbarthol a luniwyd gan Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru sydd ar hyn o bryd yn destun ail adolygiad. Paratowyd y datganiad yn unol â darpariaethau Polisi Cynllunio Mwynau (Cymru) a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 1: Agregau (NCTM1), i osod amcan cyffredinol i sicrhau cyflenwad o agregau y mae modd ei reoli'n gynaliadwy; "*... fel y gellir cael y cydbwysedd gorau rhwng ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, a sicrhau bod effeithiau ar yr amgylchedd ac ar fwynderau sy'n deillio o unrhyw waith cloddio angenrheidiol yn cael eu cadw ar lefel sy'n osgoi achosi niwed amlwg i fuddion o bwysigrwydd cydnabyddedig*". Prif ddiben y Datganiad Technegol Rhanbarthol yw amlinellu'r strategaeth ar gyfer darparu'r agregau yn rhanbarth gogledd Cymru.
- 5.3 Mae'n asesu gallu amgylcheddol pob awdurdod i gyfrannu at gyflenwad digonol o agregau crai. Mae'n ofynnol bod y Cyngor, fel Awdurdod Cynllunio Mwynau, yn cynnal banc tir o fwynau agregau wrth gefn yn unol â'r canllawiau cyfredol sy'n nodi lleiafswm o saith mlynedd ar gyfer tywod a graean. Ers cyhoeddi'r Adolygiad RTS cyntaf, mae lefel gyffredinol yr agregau wrth gefn a ganiatawyd yng ngogledd Cymru wedi gostwng.
- 5.4 Mae'r dyraniad ar gyfer tywod a graean yng Ngwynedd yn dilyn yr Ail Adolygiad RTS wedi ei gyfrif i fod yn 3,834 miliwn tunnell. Ar hyn o bryd, mae'r tywod a'r graean sydd wrth gefn yn 1.175 miliwn tunnell, yn cynnwys gwaith Llecheiddior Uchaf, Penygroes a'r estyniad presennol yng Ngraiianog. Nid yw'r cyflenwadau hyn sydd wrth gefn yn ddigonol i ddarparu banc tir o fwynau am saith mlynedd llawn ar ddiwedd cyfnod y cynllun. Mae'r RTS felly yn cydnabod bod diffyg tywod a graean ar gyfer dyraniadau yng Ngwynedd sy'n gyfanswm sy'n lleiafswm o 2.659 miliwn tunnell fydd angen ei adnabod yn yr adolygiad a ddaw o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'r ffigur yma'n ystyried y symiau o dywod a graean a ganiateir wrth gefn y gellid eu mantoli yn erbyn y gofynion dyraniad. Er mai ychydig iawn o effaith a gaiff 380,000 tunnell wrth gefn o ran cwrdd â gofynion dyraniad yr awdurdod, serch hynny mae'r bwriad yn ychwanegiad a groesawir i'r banc tir o dywod a graean yng ngogledd orllewin Cymru.
- 5.5 Ymysg amcanion eraill, mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod bod gweithio mwynau yn wahanol i ffurfiau eraill o ddatblygu gan fod yn rhaid darganfod bod mwynau'n bodoli ar safle cyn y caniateir cloddio amdanynt a defnydd tir dros dro yw cloddio am fwynau, ac ni ellir meddwl amdano fel defnydd parhaol o dir, er y gallai'r gwaith fynd yn ei flaen am amser hir. Caiff y deunydd a gloddir yn y chwarel ei ddefnyddio'n uniongyrchol mewn cynnyrch adeiladu, gwaith amddiffyn rhag y môr, a choblau addurniadol, ond yn bennaf i gyflenwi storffeydd manwerthu concred sydd wedi'i gymysgu'n barod, a hynny drwy ogledd-orllewin Cymru gan gynnwys y Parc Cenedlaethol, Ynys Môn a rhannau o Gonwy.
- 5.6 Bydd parhau i gloddio am dywod a graean yng Nghyfraianog yn sicrhau bod y Cyngor yn diwallu ei oblygiadau dyraniad yn yr RTS, i gyflenwi mwynau ar gyfer is-ranbarth Gogledd Cymru a chadw banc tir saith mlynedd o dywod a graean. Ychydig o gronfeydd tywod a graean a

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

ganiateir sydd ar gael yng Ngogledd Orllewin Cymru a bydd y cynnig hwn yn sicrhau cyflenwad hanfodol o dywod a graean i'r economi adeiladu leol. Bydd hyn yn lleihau'r angen i fewnforio deunyddiau o du allan i Wynedd, gan felly ostwng costau ac allyriadau carbon.

- 5.7 Er bod y safle wedi'i leoli rhwng dynodiadau AHNE a'r Parc Cenedlaethol, nid oes unrhyw ddynodiadau tirwedd neu amgylcheddol oddi fewn neu'n agos at ffin y cais. Yn amodol i ystyriaeth yr holl ystyriaethau cynllunio materol eraill, ystyrir bod y datblygiad yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi Mwynau Strategol PS22 a Pholisi MWYN 3 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026 gan roi ystyriaeth i bolisi cenedlaethol cyfredol ar gyfer cynnal banc tir o reserfau yn unol â'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn NCTM1 (Cymru) Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol.
- 5.8 Yn ogystal â'r egwyddor am yr angen am y datblygiad, mae'r materion cynllunio hanfodol yn yr achos hwn yn cael sylw isod;

Mwynderau Gweledol

- 5.9 Bydd safle'r cais yn ymestyn ôl troed y gwaith presennol o 5.8ha mewn dilyniant graddol o weithrediadau. Mae graddau'r tir gweithredol, gan gynnwys yr ardal gloddio, safle prosesu a'r lagwnau yn mesur dros 29 hectar ac mae'r datblygiad ynghyd â'r caniatâd sylfaenol i ennill a gweithio tywod a graean gyda'r posibilrwydd o gael effaith cronus ar olygfeydd i fewn ac allan o AHNE Llŷn, Parc Cenedlaethol Eryri yn ogystal ag ardal cymeriad y dirwedd ble lleolir y safle. Er hynny, mae effeithiau o'r fath yn rai dros dro a byddant yn cael eu lliniaru gan gynllun adfer i borfa gymysg a chadwraeth natur. Bydd y waliau cerrig ar y perimedr ac o flaen Lôn Eifion yn parhau ac yn cael llonydd fel rhan o'r cynigion, fydd yn cynnal rhagod o ddwy fetr o ochr yr ardal storio priddoedd, gan sgrinio golygfeydd o'r chwarel i ddefnyddwyr y lôn feicio.
- 5.10 Mae'r cynllun cyfnodol o weithio o'r gorllewin i'r dwyrain, yn sicrhau bod ardaloedd newydd yn cael eu stripio a'u gweithio ar yr un pryd pan fo ardaloedd gweithredol yn cael eu hadfer i un ai porfa wedi'i gwella neu gynefin bywyd gwyllt. Mae ail-adfer terfynau'r caeau gafodd eu had-ennill wrth dynnu'r waliau cerrig presennol yn elfen hanfodol o'r cynllun adfer sy'n nodwedd drawiadol o'r chwarel bresennol. Mae nodweddion o bwysigrwydd hanesyddol yn y dirwedd leol yn ogystal â safleoedd gaeafgysgu ymlusgiaid, safleoedd nythu adar bridio a chynefin cennau.
- 5.11 Mae gweithio tywod a graean yn gymharol ddeinamig o'i gymharu â chloddio am graig galed gan fod reserfau yn gyffredinol ar gael dan dir amaethyddol ac efallai y byddant yn cael eu gweithio yn gymharol sydyn gyda pheiriant turio. O ganlyniad, mae'r awdurdod cynllunio mwynau angen i waith adfer cynyddol fantoli yn erbyn colli mwynderau a thir cynhyrchiol i liniaru effeithiau gwaith o'r fath. Hyd yma, mae safleoedd sydd wedi eu gweithio wedi cael eu hadfer yn effeithiol i'w defnydd gwreiddiol, yn bennaf amaethyddiaeth, ac maent yn awr yn cyd-fynd â'r ardal oddi amgylch.
- 5.12 Mae'r asesiad tirwedd ac effaith gweledol a gyflwynwyd fel rhan o'r cynigion datblygu i'r rhiant-ganiatâd, C16/0816/34/MW, yn cynnwys gwerthusiad o'r datblygiad a detholiad o olygfannau a 'photomontages' a dynnwyd o olygbwyntiau yn ardaloedd cymeriad y dirwedd yn ac o amgylch y safle. Mae'r asesiad yn cynnwys gwerthusiad o'r dirwedd o amgylch yn nhermau'r AHNE, PCE, ynghyd â'r effaith leol.
- 5.13 Lleolir y chwarel i gyd yn ardal cymeriad y dirwedd Canol Llŷn ACD) sydd yn fras yn ymwneud â'r llwyfandir canolog uwchben y cyfuchlin 50m. Lleolir y dirwedd o ddi-ddordeb hanesyddol eithriadol Nantlle tua 1000m i'r gogledd ddwyrain o'r chwarel bresennol, ac ni ystyrir bydd y bwriad yn effeithio ar natur a ffabrig hanesyddol y dynodiad tirlun yma na phwysigrwydd diwylliannol yr ardaloedd chwareli llechi. Er hynny, mae mwyngloddio wedi ac yn parhau i effeithio ar y dirwedd leol ac mae hanes o ymelwa masnachol o adnoddau tywod a graean yn ACD Canol Llŷn am fwy na 60 mlynedd. Mae'r ardal cymeriad yn ffurfio rhagod rhwng AHNE Llŷn i'r gorllewin a Pharc Cenedlaethol Eryri i'r dwyrain ac mae ei nodweddion allweddol wedi eu diffinio yn CCA Gwynedd (Ardal Cymeriad y Dirwedd Tachwedd 2009) fel;

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

- Yn gyffredinol, mae'n ardal homogenaidd wedi'i gwahanu gan fryniau amlwg megis Mynydd Cennin a'r Foel a lle mae'r tiffurf wedi'i ddominyddu gan effaith dyddodion rhewlifol.
- Yn ei hanfod, mae'n ardal amaethyddol ei natur, gyda phlanhigfeydd coedwigaeth mawr megis Bwlch Derwin,
- Elfennau hanesyddol, gan gynnwys nodweddion cynhanes a chanoloesol, er eu bod yn aml wedi'u hynysu o fewn y llociau 19 Ganrif mwy.

- 5.14 Mae'r Asesiad Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Gweledol yn cadarnhau bod yr ardal oddi amgylch (ACD Canol Llŷn) o dueddiad canolig oherwydd y dirwedd wledig gymhleth gan gynnwys gweithrediadau mwngloddio hanesyddol a rhai sy'n bodoli, gyda pheilonau a chefnffordd yr A487 yn rhedeg drwy ganol trum a leolir rhwng dynodiadau tirlun sylweddol ond hefyd ACA Corsydd Eifionydd i'r de. Ystyrir y byddai'r estyniad arfaethedig yn cael effaith ar gymeriad y dirwedd leol ond byddai yn cael ei liniaru drwy weithrediad cynllun graddol o echdynnu ac adfer. O ystyried y dirwedd hynod o sensitif, mae'r estyniad arfaethedig wedi ei asesu fel un sydd ag effaith andwyol ganolig ar gymeriad y dirwedd leol oddi fewn i gyffiniau agos y safle er bod effeithiau o'r fath yn gostwng gyda phellter o'r safle.
- 5.15 Yn ystod y blynyddoedd diweddar, cafodd yr effeithiau gweledol a thirweddol ddylanwad mawr oherwydd cynnydd y gweithrediadau tua'r gogledd. Mae gwaith ar wyneb y chwarel wedi agor golygfannau i'r gogledd ac o ffordd Dosbarth 3 (Ffordd Cae Duon) i'r dwyrain o'r A487. Yn yr un modd, mae gostwng uchder wyneb y gwaith wedi lliniaru'r effaith weledol ar y dirwedd wrth edrych o'r AHNE, er bod y lagwnau sydd newydd eu hadeiladu, a'r ardal bentyrri yn parhau yn nodwedd amlwg. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cadarnhaodd y rheolwr AHNE: ystyrir na fydd y bwriad yn cael effaith negyddol ar yr AHNE a bydd gwelliant os yw'r safle yn cael ei adfer yn llawn erbyn 2019, yn unol â'r cynlluniau a gyflwynwyd.
- 5.16 Mae'r ymyrraeth weledol a gweithredol yn cynnwys symud a gweithredu peiriannau'r gwaith yn cynyddu'n sylweddol wrth wyllo o ardaloedd sy'n agos at y safle. Mae posibilrwydd bydd golygfeydd ysbeidiol o'r safle o'r golygfannau i'r de ac ymhellach i'r gogledd ar hyd y trac beicio er ei fod wedi ei sgrinio i ryw raddau gan lystyfiant a'i leoliad mewn trychiad.
- 5.17 Ystyrir bod unrhyw newid o'r golygfannau yn y Parc Cenedlaethol yn ymylol. Mae'r olygfa sydd i'w gweld o eiddo Cwmbran, a leolir tua 350m i fyny trac sy'n dringo tua'r dwyrain o fan gyferbyn â mynedfa y chwarel ar yr A487, yn dangos mai nodwedd weledol amlycaf y chwarel o hyd yw'r gwaith prosesu a'r ardal storio pentyrriau. Mae'r asesiad hwn yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod y sgrin o goed conwydd i'r dde o Bodychain wedi ei dorri a fyddai fel arall wedi sgrinio'r estyniad arfaethedig.
- 5.14 O fewn cyd-destun cyffredinol safle presennol y Chwarel, mae'r dirwedd a'r newidiadau i'r dirwedd sydd wedi'u hadnabod â lefel gyfyngedig o effaith ac ni fyddai ymestyn yr amserlen i estyniad arfaethedig y chwarel yn golygu unrhyw lefelau mawr o effaith weledol. Felly, ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol mewn egwyddor, o ran bod y datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi Strategol PS 19: Gwarchod a lle bo'n berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol a Pholisïau AMG 3, AT 1, MWYN 3 a MWYN 9 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

Bioamrywiaeth

- 5.19 Mae'r asesiad ecolegol a'r cynnigion lliniaru i'r rhiant-ganiatâd, C16/0816/34/MW yn cynnwys Adroddiad Cynefinoedd Cam 1 estynedig oedd yn nodi amrywiaeth o fflora a ffawna ar y safle ac yn yr ardal oddi amgylch. Ar y cyfan, mae'r safle'r cais yn cynnwys glaswelltir niwtral sydd wedi'i wella ai wella'n rhannol gydag ardaloedd gwlyb wedi eu dominyddu gan frwyn ond hefyd, nodweddion hanesyddol sy'n gallu cynnig cynefin megis, terfynau caeau ac ardaloedd clirio cerrig. Cynhaliwyd asesiad i ganfod presenoldeb amrediad o rywogaethau a warchodir ac mae tystiolaeth o Set Moch Daear segur yn ardal y cais. Yn ychwanegol, cynhaliwyd arolwg manwl o adar bridio ac adar gaeafu ar adegau penodol o'r flwyddyn ynghyd ag arolwg ymlusgiaid.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

- 5.20 Wrth benderfynu ar y cais, gosodwyd amod cyn cychwyn yn gofyn am gynllun mesurau osgoi rhesymol i sicrhau bod ymlusgiaid a moch daear yn cael eu gwarchod yn ystod y gwaith a cafodd hwn ei ryddhau yn ffurfiol dan gyfeirnod C19/1171/34/AC ar 7 Ionawr 2020. Cwblhawyd asesiad bioamrywiaeth wedi'i ddiweddarau er mwyn cefnogi'r cais i ymestyn amser. Mae'r adroddiad yn ystyried yr holl gynefinoedd sy'n bresennol ar y safle gan asesu os bu unrhyw newid i'r cynefinoedd hyn ers cynnal yr arolygon ecolegol blaenorol. Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod set y moch daear a ganfuwyd yn 2015, yn segur heb unrhyw dystiolaeth bellach o weithgaredd moch daear ar y safle. Mae'r camau lliniaru i ymlusgiaid yn cadarnhau bod ecolegydd cymwys yn bresennol wrth dynnu'r waliau cerrig cyn stripio unrhyw bridd a/neu echdynnu mwynau. Bydd unrhyw ymlusgiaid y daw'r ecolegydd o hyd iddynt yn cael eu dal a'u hadleoli ar unwaith i safleoedd derbyn addas y tu allan i'r ardal echdynnu a gynlluniwyd, ond yn yr ardal o dir sydd dan reolaeth yr ymgeisydd.
- 5.21 Saif ardal yr estyniad rhwng dau safle dynodedig sy'n ffurfio rhan o ACA Corsydd Eifionydd, Cors Gyfelog 935 metr i'r da a Chors Llanllyfni 1.5km i'r gogledd. Mewn ymateb i ymgynghoriad ar y profion effeithiau arwyddocaol tebygol ar y safle dynodedig Ewropeaidd, mae CNC yn cytuno ag asesiad Cyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Cymwys, dan Reoliad 63 y Rheoliadau Cynefinoedd 2017 nad oedd yr estyniad arfaethedig yn cael ei ystyried yn rhywbeth fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar nodweddion cadwraeth ACA Corsydd Eifionydd. Mae CNC yn argymhell ymhellach y dylid ymgynghori â swyddog bioamrywiaeth yr awdurdod ar unrhyw gyfleoedd a chynigion i wella'r dirwedd/tirwedd.
- 5.22 Fel y crybwyllwyd eisoes, mae ardal y cais yn cynnwys porfa wedi'i gwella o werth bioamrywiaeth isel ond gallai waliau cerrig sy'n ffurfio'r caeau ddarparu safleoedd gaeafgysgu i ymlusgiaid, safleoedd nythu i adar sy'n bridio a chynefin i gen ynghyd â bod nodweddion gydag arwyddocâd hanesyddol yn y dirwedd leol. Mae amod a osodwyd ar unrhyw ganiatâd yn gofyn bod yr holl ddeunyddiau sy'n deillio o ddymchwel y waliau cerrig presennol yn cael eu gosod i un ochr ar gyfer adfer yr un ardaloedd, sydd i'w cytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Mwynau.
- 5.23 Mewn ymateb i ymgynghoriad, cadarnhaodd Bioamrywiaeth Gwynedd y dymunai weld manylion adfer fyddai'n ffafrio cynefinoedd o fioamrywiaeth uchel fel porfa frwynog neu weirglodd i ffafrio pori gan dda byw, ail-adfer waliau cerrig, cynnal llain 4m ar hyd y terfyn gyda'r trac beicio i adfer gweirglodd. Mae gwerth bioamrywiaeth uchel i'r ardal i'r gogledd (glaswellt y gweunydd a thir pori brwynog gyda darnau bach o gors/ffen a digonedd o damaid y cythraul) a dylid sicrhau bod y cynigion adfer yn cynnwys lefelau daear tebyg i'r presennol i sicrhau lif dŵr tua'r gogledd i'r cynefin gwlyptir. Yn ychwanegol, dylid monitro safle'r chwarel yn rheolaidd ar gyfer rhywogaethau o blanhigion anfrodorol fel Llysiau'r Dial, Ffromlys Chwarennog a Choed Mêl.
- 5.24 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cytuno â Bioamrywiaeth Gwynedd o ran yr effeithiau posib ar fioamrywiaeth lleol, gellir casglu felly na fydd y datblygiad yn arwain at golli cynefin gwarchoddedig, rhywogaethau gwarchoddedig nac yn newid hydroleg yr ACA. Mae'r cynigion adfer yn cynnwys gwella bioamrywiaeth ac felly mae'r bwriad yn cydymffurfio â gofynion Polisi Strategol PS 19, Polisi AMG 3, AMG 5, MWYN 3 a MWYN 9 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

Hydroleg

- 5.22 Mae corff o ddŵr wedi bodoli ar wyneb gogleddol gweithfeydd y chwarel am sawl blwyddyn, sy'n cynnwys dŵr wyneb a gasglwyd o ardaloedd wedi'u hadfer ac sy'n weithredol ar hyn o bryd. Bydd y nodwedd yma'n cael ei chadw a'i hymestyn yn unol â'r cynigion adfer a ddangosir ar gynlluniau'r cais a byddant yn hunan-reoleiddio heb unrhyw allfa. Nid yw'n ymddangos bod y trefniadau presennol wedi effeithio ar y nodwedd gwlyptir i'r gogledd, ond gall gwyrto'r dŵr wyneb ffo o ardal yr estyniad arfaethedig olygu colli llif dŵr i nant a leolir i'r gogledd o'r ardal echdynnu arfaethedig. Mae cyfres o ffynhonnau i'r gogledd o ardal y cais, sy'n codi o'r dyddodion mawn arwynebol a gallai'r gwaith echdynnu mwynau yn y chwarel arfaethedig, efallai effeithio ar eu llif. Mewn ymateb i ymgynghoriad ar y rhiant-gais, C16/0816/34/MW, gofynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru am ragor o fanylion ar y mesurau lliniaru arfaethedig pe byddai unrhyw

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

ffynhonnau yn cael eu heffeithio gan y gweithgareddau cloddio. Yn yr un modd, mae pryderon bioamrywiaeth Gwynedd yn gofyn bod graddiant positif yn rhan o'r cyfuchlinau adfer i sicrhau lif dŵr tua'r gogledd i'r nodwedd gwlyptir ac ymhellach fe argymhellir amod i sefydlu gwaelodlin a chynllun i'w gytuno gyda'r awdurdod cynllunio mwynau i fonitro llif y ffynnon i'r gogledd.

5.26 Yn unol â gofynion yr amodau cynllunio, mae'r ymgeisydd wedi darparu mwy o eglurhad am y mesurau lliniaru sydd i'w defnyddio yn cynnwys monitro'r nant yn fisol i gofnodi'r amrywiaeth naturiol mewn llif a brofwyd ger y ffynhonnau, h.y. gwaelodlin, cyn echdynnu unrhyw fwynau yn ardal yr estyniad. Mae CNC wedi derbyn hyn fel mesurau lliniaru digonol yn ddarostyngedig i amod sy'n gofyn bod mesurau yn cael eu cymryd i warchod cyrsiau dŵr, ffynhonnau a gwlypdir sy'n codi'n uniongyrchol i'r gogledd o ardal y datblygiad rhag difrod posib yn sgil gweithrediad y chwarel, gyda mesurau pellach i gynnwys:

- i) Gwaelodlin ffotograffig cyn dechrau ar y datblygiad,
- ii) Micro-addasu lefelau adfer yn unol â chymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Mwynau i sicrhau llif dŵr wyneb tua'r gogledd,
- ii) Cynllun monitro fel a amlinellir yn Atodiad 1.

5.27 Cafodd Amod 36 ei ryddhau yn ffurfiol drwy lythyr ar 7 Ionawr 2020, oedd yn cynnwys cymeradwyaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, Uned Rheoli Perygl Llifogydd a'r Arfordir Cyngor Gwynedd a hefyd ymateb Uned Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd oedd yn argymhell bod yr Adroddiad Monitro Hydrolegol yn cynnwys mesurau dyfnder a lled y sianel gyda disgrifiad o'r sianel a mesur llif i sicrhau llif dŵr tua'r gogledd i'r cynefin gwlyptir.

5.28 Bydd y safle hefyd angen caniatâd gweithredu ar wahân gan Asiantaeth yr Amgylchedd dan y Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol ond yn ychwanegol, gellir cytuno ar ficro-addasiad o'r cyfuchlinau adfer terfynol ar ddyddiad hwyrach os y gellir cadarnhau bod dŵr annigonol yn llifo i ardal y gwlyptir i'r gogledd.

5.29 Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau na phryderon yn ymwneud â draenio neu risg llifogydd mewn ymateb i'r ymgynghoriad gyda Chyfoeth Naturiol Cymru neu Uned Risg Llifogydd a Draenio Tir Gwynedd ac felly, ystyrir na fydd gan y bwriad effaith andwyol ar yr amgylchedd dŵr lleol (POLISI PCYFF6). Mae materion a fyddai fel arall yn destun caniatâd gollwng ar wahân neu Drwydded Amgylcheddol wedi eu rhestru yn yr adroddiad hwn a byddant yn cael eu dwyn i sylw'r datblygwr drwy 'nodyn i'r ymgeisydd' a gyflwynir gyda'r caniatâd cynllunio, ond ni fyddant i'w gweld yn y rhestr o amodau cynllunio sy'n atodol i'r hysbysiad penderfyniad ei hun. Mae'r cynigion adfer yn cynnwys gwella bioamrywiaeth ac felly mae'r bwriad yn cydymffurfio â gofynion Polisi Strategol PS 19, Polisi AMG 3, AMG 5, MWYN 3 a MWYN 9 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

Treftadaeth Ddiwylliannol

5.30 Cyflwynwyd arolwg archeolegol ac asesiad fel rhan o'r cais gwreiddiol gan fod y dirwedd yn un y gwyddys sy'n gyfoethog o ran olion archeolegol, gyda nifer o safleoedd sydd wedi eu cloddio yn agos at yr ardal echdynnu. Mae'r rhaglen waith archeolegol yng Ngraiianog yn mynd rhagddi ac fe gafwyd rhai canlyniadau diddorol.

5.31 Mae ardal y cais yn cynnwys sawl safle archeolegol a gofnodwyd ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol ac wedi ei adnabod fel cloddwaith a nodweddion adeiladwyd o gerrig, efallai o ganlyniad i glirio clogfeini a gweddillion cytiau neu ddulliau cau gaeau. Er hynny, dengys y gwaith ffosydd prawf, a wnaed fel rhan o'r asesiad archeolegol, er bod tystiolaeth o weithgareddau dynol ar ffurf clirio caeau, na ddaethpwyd o hyd i ddim oedd yn awgrymu meddiannu neu weithgaredd diwydiannol ar y safle.

5.32 Gall terfynau caeau'r safle ddeillio o'r canol oesoedd a byddai estyniad arfaethedig y chwarel yn golygu colli y nodweddion gweledol yma, ynghyd ag unrhyw ddyddodion neu strwythurau archeolegol. Cynghorodd Cynllunio Archeolegol Gwynedd y dylai fod rhaglen briodol o gamau

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

lliniaru archeolegol, yn cynnwys unrhyw gofnodi angenrheidiol cyn y datblygiad a ddilynr gan archwiliad gofalus o nodweddion penodol ond hefyd stripio archeolegol o'r safle i adnabod a chofnodi dyddodion wedi eu claddu a gwaith ôl-gloddio fel bo'n briodol i'r canlyniadau. Felly, cafodd amod cyn dechrau oedd yn gofyn bod rhaglen o waith archeolegol yn cael ei chynnwys ar y caniatâd i ardaloedd heb eu tarfu sydd heb eisoes fod yn amodol i waith adfer a ecsbloetio mwynau.

- 5.33 Cadarnhaodd yr adroddiad, a'r gwerthusiad o'r safle a gyflwynwyd, er bod nodweddion o bwysigrwydd archeolegol, na wnaeth nodwedd a dybiwyd yn flaenorol i fod yn dyddyn canoloesol a system gaeau gysylltiedig ddangos unrhyw dystiolaeth o weithgareddau domestig. Mae'r safle yn debygol o fod yn ganlyniad i benodau dilynol o glirio caeau wrth gyffordd sawl terfyn. Gallai nodweddion eraill fod yn bresennol o dan yr ardal ble bu dympio diweddarach.
- 5.34 Cadarnhaodd ymateb yr Archeolegydd Rheolaeth Datblygu bod y fanyleb ar gyfer y gwaith archeolegol yn cwrdd â chymeradwyaeth y Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol (GAPS) ag Amod 37 cysylltiedig, ei ryddhau yn ffurfiol ar 19 Rhagfyr 2019. Er hynny, mae'r sylwadau ychwanegol a gyflwynwyd gan GAPS yn datgan o ran Amod 38, bod gofyniad yn parhau i gyflwyno adroddiad ar waith maes archeolegol ar gyfer y ddau gam perthnasol o'r datblygiad.
- 5.35 Ystyrir bod yr asesiad archeolegol yn darparu'r sgôp ar gyfer gwaith archeolegol pellach a champau lliniaru ar gyfer effeithiau archeolegol a threftadaeth ddiwylliannol posib y datblygiad ac yn cydymffurfio â gofynion Polisi AT 4 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026, (*diogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi a'u gosodiad*).

Mwynderau cyffredinol a phreswyl

- 5.36 Mae'r estyniad arfaethedig, yn ôl ei natur, yn debyg i'r dulliau echdynnu a symud peiriannau sydd wedi bod yn weithredol ar y safle am sawl blwyddyn ac sydd wedi bod yn destun rheoliadau amgylcheddol drwy amodau cynllunio, neu Drwyddedau Amgylcheddol.
- 5.37 Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru a NCTM1: Agregau wedi sefydlu'r egwyddor o gylchfeydd rhagod o amgylch safleoedd echdynnu mwynau, ble mai'r amcan yw amddiffyn defnyddiau tir sydd fwyaf sensitif i effaith gweithrediadau mwynau drwy sefydlu pellter gwahanu rhwng defnyddiau tir a allai fod yn gwrthdaro. Caiff datblygiad sensitif ei ddiffinio yn NCTM1 fel; "*unrhyw adeilad a ddefnyddir gan bobl yn rheolaidd ac sy'n cynnwys ardaloedd o dai, hostela, manau cyfarfod, ysgolion ac ysbytai, a lle y disgwylir mwynderau o safon dderbyniol*". Diffinnir cylchfa ragod o ymyl allanol yr ardal weithredol, gan gynnwys ffyrdd cludo safle a lagwnau. Mae NCTM1 yn argymhell pellter o 100 metr o leiaf ar gyfer gweithfeydd tywod a graean ac eraill lle na chaniateir ffrwydro. Nid oes eiddo sensitif wedi'i leoli o fewn cylchfeydd rhagod o 100m a weithredir yn ardal y trac mynediad arfaethedig dan bolisi MWYN 5 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.
- 5.38 Mae'r camau lliniaru arfaethedig yn y cais yn cadarnhau parhad y drefn bresennol sy'n golygu cynllun echdynnu ac adfer graddol i leihau faint o dir gaiff ei dynnu o ddefnydd amaethyddol ar unrhyw adeg benodol. Bydd trefn y gweithrediadau yn mynd rhagddo o'r gorllewin i'r dwyrain, i sicrhau y gall peiriannau'r gwaith weithredu tu ôl i wyneb y gwaith fel mae'n bwrw ymlaen tuag at y llwybr beicio cyfagos. Yn ychwanegol at y sgrin a ddarperir gan weithfeydd y chwarel, caiff bwnd pridd ei lunio ar hyd terfyn dwyreiniol y safle i weithredu fel rhagod rhwng y chwarel a defnyddwyr Lôn Eifion. Mae strategaeth debyg eisoes yn cael ei gweithredu ar ystlys gorllewinol y gweithfeydd ble mae gwregys o goed wedi ei sefydlu yn unol â'r amodau sy'n atodol i'r caniatâd blaenorol.
- 5.39 Mae'r cais yn cynnig yr un amodau gweithio â'r rhai presennol, gan gynnwys rheoli sŵn, llwch ac oriau gweithio ac mae rhai enghreifftiau lle mae'r awdurdod cynllunio wedi derbyn cwynion. Y dasg o lwytho'r hopran a'r cludwr yw'r ffynhonnell sŵn mwyaf ymwithiol ar y wyneb gweithio gan bod peiriannau'r gwaith yn gweithredu mewn safle ymgodol mewn perthynas â lefel y tir o

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

amgylch. Dylid gosod larymau sŵn gwyn i gerbydau a pheiriannau'r chwarel i leihau ar unrhyw darfu.

- 5.40 Ystyrir felly, yn ddarostyngedig i amodau priodol i reoli effeithiau sŵn a llwch ac oriau gweithio, ni fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r ardal ac felly mae'n cydymffurfio â pholisi PCYFF 2, MWYN 3 a MWYN 5 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

Materion traffig a mynediad

- 5.41 Mae manylion y cais yn cadarnhau bod y chwarel yn allforio cyfartaledd o 90,000 tunnell y flwyddyn a byddai'r estyniad arfaethedig yn sicrhau cyflenwad o ddeunydd hyd at fis Rhagfyr 2024. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cadarnhaodd Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth Cyngor Gwynedd nad oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad.
- 5.42 Mae'r fynedfa i Gefnffordd yr A487 o ansawdd derbynol a bydd traffig yn cael mynediad i'r safle ar hyd rhan fer o Ffordd Ddi-ddosbarth. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cadarnhaodd awdurdod priffyrdd Llywodraeth Cymru nad oedd yn bwriadu cyflwyno cyfarwyddyd mewn perthynas â'r cais hwn.
- 5.43 Felly, ystyrir bod y rhwydwaith ffyrdd presennol o ansawdd digonol i ymdrin â llif y traffig a ddisgwylir o ddatblygiad y safle, ac felly, mae'n cydymffurfio â Pholisi TRA 4 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

- 5.44 Nid oes unrhyw lwybrau cyhoeddus na hawliau tramwy yn cael eu heffeithio gan y bwriad ac felly nid oes gofyn gwneud unrhyw ddarpariaeth am orchmynion cau neu wyro penodol. Er hynny, lleolwyd y safle yn gyfagos i lwybr beicio Lôn Eifion.
- 5.45 Yn ddarostyngedig i amodau priodol i sicrhau bod pentyrrau storio pridd yn darparu rhagod digonol rhwng y gweithfeydd a'r wal derfyn sy'n wynebu lwybr beicio Lôn Eifion, mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion PCYFF 2 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

Materion cynaliadwyedd

- 5.46 Mae'r adroddiad hwn wedi asesu materion cynaliadwyedd y cais yn unol â'r nod o ddatblygu cynaliadwy ac yn unol â saith nod llesiant 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' i helpu i sicrhau bod cyrff cyhoeddus i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth o Gymru gynaliadwy.
- 5.47 Fel Awdurdod Cynllunio Mwynau, mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod adnoddau mwynau'n cael eu gweithio mewn modd cynaliadwy, fel y gallant gyfrannu'n briodol at ofynion deunyddiau adeiladu'r ardal. Mae gan Wynedd hanes hir o gloddio mwynau, ac mae'n parhau i fod yn rhan bwysig o'i gwead economaidd a chymdeithasol. Yng ngogledd Cymru ceir tomenni helaeth o amrywiaeth o ddeunyddiau sy'n addas i'w defnyddio: creigiau igneaid, tywod a graean a chalchfaen yn benodol. Mae'r cais hwn yn ceisio sicrhau parhad gweithrediad y cyfleuster i gefnogi echdyniad cronfa fwynau a ganiateir lle mae dyddodion hysbys o dywod a graen i'w cael.

Yr Economi

- 5.48 Mae Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd, yn datgan: wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gadw mewn cof bod defnydd busnes traddodiadol, dosbarthiadau B1–B8 ond yn cyfrif am ran o'r gweithgaredd yn yr economi. Mae'n bwysig bod y system gynllunio yn cydnabod agwedd economaidd pob datblygiad ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio mewn modd cynaliadwy sy'n cadw cydbwysedd rhwng

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'n datgan ymhellach; Dylai awdurdodau cynllunio lleol gydnabod arwyddion y farchnad a rhoi sylw i'r angen i dywys datblygiad economaidd i'r lleoliadau mwyaf addas yn hytrach na rhwystro neu atal y fath ddatblygiad.

- 5.49 Mae'r datblygiad yn cynnig ymestyn yr amser i ennill a gweithio tywod a graean a bydd felly yn helpu i gynnal swyddi llawn amser i staff y safle a gyflogir yn uniongyrchol ac anuniongyrchol o ganlyniad i weithrediadau y chwarel. Yn ogystal, mae tywod a graean yn hanfodol ar gyfer yr economi adeiladu leol ac mae cael ffynhonnell leol yn cadw costau ynghyd ag allyriadau carbon i lawr.
- 5.50 Bydd y cynnig yn cynorthwyo i gynnal 13 o swyddi llawn-amser i staff y safle, wedi'u cyflogi'n uniongyrchol ac anuniongyrchol o ganlyniad i'r gweithrediadau presennol yng Ngriaianog, Porth Penrhyn a Stad Ddiwydiannol Llandygai. Yn fwy na hyn, mae cadw gweithwyr lleol yn cael effeithiau positif ar ddiwylliant, ac yn fwy penodol, ar statws y Gymraeg yn yr ardal.
- 5.51 Felly, mae'n debygol y bydd y bwriad yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i economi'r ardal yn unol â Pholisi Strategol PS 13 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn i ddarparu cyfleoedd am economi ffyniannus, ynghyd â Chanllaw Cynllunio Atodol Gwynedd, Cynllunio a'r Iaith Gymraeg, Tachwedd 2009.

Yr Iaith Gymraeg

- 5.52 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ymdrin â phwysigrwydd y Gymraeg wrth gyflawni ei amcanion cynaliadwyedd i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
- 5.53 Cyflwynwyd Datganiad Iaith gyda'r cais yn unol â Pholisi PS1 o'r Cynllun Datblygu Lleol a'r canllawiau Cynllunio perthnasol; 'Cynnal a Chreu Cymunedau Unigryw a Chynaliadwy 2019'. Mae Polisi PS 1 (Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig) a Pholisi PS 5 (Datblygiad Cynaliadwy) yn ceisio hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ardal y Cynllun a helpu i gefnogi a gwella'r amodau sy'n sicrhau cymunedau cynaliadwy a ffyniannus.
- 5.54 Mae'r datganiad iaith yn asesu effaith y datblygiad arfaethedig ar gymunedau ac yn adnabod mesurau fydd un ai yn lliniaru'r effeithiau negyddol neu'n gwarchod/gwella/ lledaenu effeithiau cadarnhaol. Mae Gwynedd yn cynnwys y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (65.4% o bobl dros 3 oed yn medru siarad Cymraeg; y ffigwr cenedlaethol ar draws Cymru gyfan yw 19%). O gymharu â Chyfrifiad 2001, mae hyn wedi cwmpo rhywfaint (5.2%) o 69%. Yn ward Llanllyfni, gall 75.5% o'r boblogaeth 3 oed a throsodd siarad Cymraeg, sydd fel y Sir wedi cwmpo rhywfaint ers Cyfrifiad 2001 (cwmpo o 2.1% o 79.9%). Fel y cyfryw, gellir gweld bod y gyfran o'r boblogaeth a all siarad Cymraeg yn y ward yn uwch na'r ffigwr ar gyfer y sir yn ei chyfanrwydd. Yn ogystal â hyn, nid yw'r dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ward mor fawr â'r sir gyfan.
- 5.55 Bydd y cais hwn yn sicrhau parhad gwaith presennol lle mae'r gweithlu presennol eisoes yn dod o'r ardal leol. Gall y gweithlu cyfan siarad Cymraeg ac felly mae'r datblygiad yn debygol o gynnal siaradwyr Cymraeg yn y gymuned leol, fydd yn defnyddio'r iaith yn y gweithle.
- 5.56 Nid oes gan yr ymgynghorydd iaith unrhyw wrthwynebiad i'r cais i ymestyn yr amser o safbwynt ieithyddol. Ystyrir mai effaith niwtral fyddai o gymeradwyo'r cais ac felly mae'r datblygiad yn cydymffurfio â pholisi PS1 a PS5 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

6. Casgliadau:

- 6.1 Mae angen asesu'r cynnig am 4 blynedd ychwanegol i gwblhau'r gwaith echdynnu ac adfer estyniad y chwarel yn raddol yn erbyn meini prawf polisi cynllunio ac mae'r awdurdod wedi ymgynghori ar y cais hwn i ganfod effeithiau posib y datblygiad. Mae'r cyflwyniad yn ymdrin â'r ystyriaethau cynllunio materol wrth asesu effaith y datblygiad arfaethedig.
- 6.2 Mae'n annhebygol y bydd unrhyw newid amlwg yn amodau gweithio'r safle na newid i effaith weledol y gwaith ac ni fydd y datblygiad yn tynnu oddi wrth nodweddion cadarnhaol y dirwedd na'r elfennau hynny sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw y Parc Cenedlaethol, neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn. Bydd parhau â'r cynllun echdynnu ac adfer graddol yn lliniaru yn erbyn effaith y gweithfeydd mwynau ar osodiad y Parc Cenedlaethol, AHNE Llŷn, ynghyd ag Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd lleol yn unol â pholisi PS 19, AMG 3, AT 1, MWYN 3 a MWYN 9 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.
- 6.3 Nid oes unrhyw faterion polisi cynllunio sy'n ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, ac mae'r materion sy'n ymwneud â rheolaethau sŵn, llwch ac amgylchedd bellach yn hen faterion ar y safle hwn a nifer fechan iawn o gwynion a anfonwyd i sylw'r awdurdod cynllunio mwynau. Ystyrir felly, yn ddarostyngedig i amodau priodol i reoli effeithiau sŵn a llwch ac oriau gweithio, ni fydd y bwriad yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r ardal ac felly mae'n cydymffurfio â pholisi PCYFF 2, MWYN 3 a MWYN 5 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.
- 6.4 Mae'r datblygiad yn dderbyniol mewn egwyddor a byddai'n cyfrannu at seilwaith y prif gronfeydd tywod a graean yng Ngwynedd ac mae'n cydymffurfio â gofynion polisi cynllunio mwynau rhanbarthol a lleol. Mae'n cydymffurfio â gofynion polisi cynllunio mwynau rhanbarthol a lleol ac yn cydymffurfio â meini prawf cynaliadwyedd Polisi PS 22 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026, o ystyried polisi cenedlaethol cyfredol ar gyfer cynnal banc tir o reserfau mwynau yn unol â'r canllawiau yn NCTM1 (Cymru) Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol. Yn ogystal, mae'n debygol y bydd y bwriad yn gwneud cyfraniad positif i economi'r ardal yn unol â Pholisi Strategol PS 13 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.
- 6.5 Saif ardal yr estyniad rhwng dau safle dynodedig sy'n ffurfio rhan o ACA Corsydd Eifionydd, Cors Gyfelog 935 metr i'r de a Chors Llanllyfni 1.5km i'r gogledd. Mewn ymateb i ymgynghoriad ar y profion effeithiau arwyddocaol tebygol ar y safle dynodedig Ewropeaidd, mae CNC yn cytuno ag asesiad Cyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Cymwys, dan Reoliad 63 y Rheoliadau Cynefinoedd 2017 nad oedd yr estyniad arfaethedig yn cael ei ystyried yn rhywbeth fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar nodweddion cadwraeth ACA Corsydd Eifionydd. Mae'r bwriad felly'n cydymffurfio gyda gofynion Polisi Strategol PS 19 a Polisi AMG 3, AMG 5, PCYFF 6, a MWYN 3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.
- 6.6 Ni chafwyd unrhyw sylwadau na phryderon yn ymwneud â draenio neu risg llifogydd mewn ymateb i'r ymgynghoriad gyda Chyfoeth Naturiol Cymru neu Uned Risg Llifogydd a Draenio Tir Gwynedd ac felly ystyrir na fydd gan y bwriad effaith andwyol ar yr amgylchedd dŵr lleol (POLISI PCYFF6). Gollyngwyd amod ar y cais cynllunio gwreiddiol a ganiatwyd oedd yn gofyn am fesurau i gael eu cymryd i warchod cyrsiau dŵr, ffynhonnau a gwlyptir sy'n codi'n uniongyrchol i'r gogledd o ardal y datblygiad rhag difrod posib yn sgil gweithrediadau'r chwarel.
- 6.7 Mae cynllun adfer amaethyddol llwyddiannus sydd wedi'i brofi yn Fferm Graianog. Yn ychwanegol, mae CNC a Bioamrywiaeth Gwynedd yn gefnogol i'r gynigion am dir pori garw a gwella bioamrywiaeth fydd yn cynnwys porfa frwynog neu weirglodd i ffafrio da byw sy'n pori, ailsefydlu waliau cerrig a sicrhau llif dŵr tua'r gogledd i'r cynefin gwlyptir. Mae'r cynnig felly'n cydymffurfio gyda gofynion Polisi Strategol PS 19 a Pholisi AMG 3, AMG 5, MWYN 3 a MWYN 9 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026. Felly, bydd amcanion

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

allweddol y cynllun yn integreiddio/cydweddu'r safle yn ei amgylchedd; gwella bioamrywiaeth ac atgyfnerthu patrwm y dirwedd. Mae cynllun lliniaru ar gyfer ymlusgiaid wrth gael gwared ar derfynau'r caeau, dim gwaith clirio safle yn ystod y tymor bridio adar a mesurau i ganfod presenoldeb Moch Daear cyn i'r gwaith fynd rhagddo, wedi ei ollwng yn ffurfiol fel amod ar y caniatâd gwreiddiol.

6.8 Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd yn cadarnhau nad oes unrhyw bryderon archeolegol gyda'r cyfnod ymestyn a ofynnir. Mae'r amodau ar y caniatâd gwreiddiol o ran mesurau lliniaru a chofnodi archeolegol i ardaloedd na tharfwyd arnynt yn flaenorol wedi eu gollwng yn ffurfiol. Felly, mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda Pholisi AT 4 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2016.

6.9 Ni fydd gan y datblygiad effaith andwyol ar unrhyw briffordd na phriffordd arfaethedig. Mae gan y chwarel fynediad uniongyrchol i Gefnffordd yr A487 ac mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cadarnhaodd awdurdod priffyrdd Llywodraeth Cymru nad oedd yn bwriadu cyflwyno cyfarwyddyd mewn perthynas â'r cais hwn. Felly, mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda Pholisi TRA 4 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

6.10 Bydd gan y datblygiad effaith niwtral ar y Gymraeg ac fe ystyrir felly bod y datblygiad yn cydymffurfio â chanllawiau pholisïau PS 1 a PS 5 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

6.11 Mae'r bwriad yn bodloni anghenion cynaliadwyedd Polisi Cynllunio Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

7. Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Cynorthwyol yr Adran i gymeradwyo'r cais, yn ddarostyngedig i'r newid isod i Amod 1 ar ganiatâd cynllunio C16/0816/34/MW i ymestyn oes y gweithrediadau mwynau sy'n ymwneud â gweithrediad tair lagŵn dyddodion ategol a'r gwaith cysylltiedig am gyfnod o 4 blynedd ychwanegol:

Daw'r gwaith o echdynnu mwynau i ben erbyn 31 Rhagfyr 2024 ac erbyn hynny bydd yr holl weithfeydd a pheiriannau wedi'u gwaredu o'r safle; bydd y gwaith adfer wedi'i gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2025.

7.1 Ymateb ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru i'w atodi i'r daflen penderfyniad, yn cynghori y dylid cysylltu â hwy yn uniongyrchol mewn perthynas â'r rheolaethau amgylcheddol a gweithredol penodol a'r ddarpariaeth o wasanaeth o fewn eu cylch gwaith.

7.2 Amodau cynllunio fel y presennol mewn perthynas â'r rheolaethau rheoli a ganlyn;

- Hyd y cyfnod gweithio,
- Cyfyngu ar yr Hawliau Datblygu a Ganiateir, adeiladau, strwythurau, rhai a godir, ffyrdd preifat, llifoleuadau a ffensys,
- Mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau posib ar ffynhonnau i'r gogledd o'r ardal echdynnu,
- Mesurau lliniaru ar gyfer bioamrywiaeth leol, Moch Daear, adar bridio ac ymlusgiaid,
- Gweithgareddau a ganiateir a Chydymffurfiaeth â'r Manylion/Cynlluniau a Gyflwynwyd,
- Oriau Gweithio,
- Diogelu hawliau tramwy cyhoeddus,
- Ymdrin â phridd a hwsmonaeth
- Draenio, mesurau i atal llygru cyrsiau dŵr lleol,
- Adfer i ddefnydd amaethyddol cymysg a chadwraeth natur,
- Ail-adfer terfynau caeau,


PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	


- Micro-addasu lefelau adfer i sicrhau llif dŵr wyneb i'r gwlyptir tua'r gogledd o ardal y cais,
- Lliniaru a chofnodi archeolegol,
- Mesurau ôl-ofal ar gyfer defnyddiau amaethyddol a rheoli bioamrywiaeth,
- Rheolaethau llwch a chyfyngu ar sŵn yn yr un modd ag y gwneir eisoes, ond hefyd, gosod larymau sŵn gwyn ar beiriannau'r gwaith yn yr wyneb gweithio.


C20/1063/22/AC

Cais o dan Adran 73 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i amrywio amod 1 ar ganiatad cynllunio C16/0816/34/MW (estyniad dwyreiniol arfaethedig ar gyfer echdynnu tywod a graean a gwaith adfer graddol) i ganiatau estyniad pedair-mlynedd ar gyfer cwblhau'r gwaith mwynau gyda blwyddyn ychwanegol ar gyfer cwblhau adfer/Application under Section 73 of the Town and Country Planning Act to vary condition 1 on planning permission C16/0816/34/MW (proposed eastern extension for the extraction of sand and gravel and progressive restoration) to allow a four-year extension for the completion of minerals operations and a further year for the completion of restoration

Cefn Graianog, Llanllyfni, Caernarfon, LL54 6SY










PROJECT: Cefn Graianog
TITLE: Phase 4 Working & Restoration
REF NO: KD.CFN.1.D.005
DATE: November 2020 **SCALE:** 1:5,000 @ A3
STATUS: FINAL

This drawing may not be used without the consent of Kead Development Limited
 For Studio, Much Wenlock, Shropshire TF13 9SL
 © Crown copyright and database right (2021) Ordnance Survey 1000201979



Tud. 56



Tud. 57



Tud. 58



Tud. 59



Tud. 60



Eitem 5.3

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Rhif: 3

Rhif y Cais: C20/1064/22/AC

Dyddiad 22/12/20
Cofrestru:

Math y Cais: Adnewyddu a Newid Amod(au)

Cymuned: Clynnog

Ward: Clynnog

Bwriad: Cais o dan Adran 73 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i amrywio amod 1 ar ganiatâd cynllunio C15/0299/34/MW (adeiladu 3 lagŵn siltio ategol a gwaith cysylltiedig i ddarparu'r capasiti angenrheidiol i alluogi gwaith mwynau sy'n parhau a darparu system gaeedig ar gyfer rheoli dŵr o'r chwarel ar y safle) i ganiatáu estyniad pedair blynedd mewn cysylltiad â'r gwaith mwynau a blwyddyn ychwanegol i gwblhau'r gwaith adfer.

Lleoliad:

Cefn Graianog, Llanllyfni, Caernarfon, LL54 6SY

**Crynodeb o'r
Argymhelliad:**

CANIATÁU GYDAG AMODAU.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

1. Disgrifiad:

- 1.1 Mae lagwnau siltio yn rhan hanfodol o'r gwaith prosesu tywod a graean, ble caiff y mwyn ei olchi a'i brosesu i ddiolli tywod a graean o ansawdd amrywiol yn ôl maint. Cais yw hwn i newid amod 2 ar ganiatâd cynllunio presennol, sef C15/0299/34/MW, er mwyn ymestyn bywyd y tri lagwn siltio atodol a'r gwaith cysylltiol am bedair blynedd ychwanegol, er mwyn darparu 26,145m³ ychwanegol o gapasiti setlo i silt a geir fel is-gynnyrch y gwaith o brosesu tywod a graean.
- 1.2 Adolygwyd isadeiledd rheoli dŵr y safle yn 2015, gan fod angen cloddio silt allan o'r lagwnau yn rheolaidd er mwyn sicrhau'r capasiti setlo gofynnol. Mae tueddiad gan y system i orlwytho yn ystod cyfnodau o lawiad parhaus a chyson gyda'r posibilrwydd y gall llifogydd cyflym ddioglydd ble mae dŵr wyneb a dŵr ffo o'r tir gerllaw yn ymuno â dŵr o'r lagwn siltio presennol, gan arwain at y posibilrwydd o ddŵr ffo llygredig yn effeithio ar SoDdGA ac ACA Cors Gyfelog. Prif bwrpas y datblygiad arfaethedig i'r lagwnau yw ategu'r isadeiledd rheoli dŵr presennol trwy system gaeedig, er mwyn atal hyn rhag digwydd. Bydd capasiti uwch yn y lagwnau yn lliniaru effeithiau posib ar yr amgylchedd dŵr lleol, ac yn darparu system reoli dŵr hunangynhwysol ar y cyd â'r isadeiledd presennol.
- 1.3 Lleolir y safle ar ochr orllewinol yr ardal brosesu a phentyrru stoc sy'n gyfagos i'r lagwnau gwreiddiol ac oddeutu 530m i'r de ddwyrain o AHNE Llŷn. Mae'r ardal yn cynnwys tir yr arferid ei ddefnyddio i echdynnu mwynau rhwng y 1960au a'r 1980au trwy ganiatâd penodol gyda chyfyngiadau amser a hysbysiadau GDO.
- 1.4 Mae'r lagwnau wedi eu hadeiladu trwy gloddio deunydd o'r tir a adferwyd i ffurfio'r llethrau goleddf, gydag unrhyw orlwythau a phriddoedd yn cael eu storio i adfer y tir neu godi bwndiau fel rhwystrau diogelwch. Mae'r lagwnau yn mesur rhwng 140m a 160m o ran eu hyd a 4-5m o ran eu dyfnder, gan gynnwys lleiniau mynediad 10m o led er mwyn hwyluso gwaith cynnal a chadw. Mae'r dyluniad hefyd yn ystyried topograffeg y tir, sydd goleddfu ar raddiant esmwyth i ochr ogleddol safle'r gwaith. Mae lagwnau 1 a 2, yn gyffredinol, yn cydreddeg â chyfuchlinau'r trydydd lagwn, sef y mwyaf deheuol ohonynt, ac mae angen bwndiau allanol i gefnogi dŵr digonol at bwrpasau siltio.
- 1.5 Mae cynigion adfer a gyflwynwyd â'r cais yn gobeithio sefydlu gwerth bioamrywiaeth y safle ymhellach, trwy droi'r tir yn ôl yn borfa fras gyda chynefinoedd gwell i fywyd gwylt, gan gynnwys pyllau dŵr bas, walïau cerrig a rheolaeth briodol i sicrhau fod cynefinoedd o'r fath yn cael y cyfle i ddatblygu.
- 1.6 Nid yw'r datblygiad arfaethedig felly yn unol â'r disgrifiad a'r meini prawf a nodir yn Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2017. Er hynny, mae'r datblygiad yn syrthio o fewn y disgrifiad o ddatblygiad sydd wedi'i nodi ym Mharagraff 2, Atodlen 2 y Rheoliadau (chwareli, mwyngloddio brig a chodi mawn) a pharagraff 13 (unrhyw newid i neu estyniad datblygiad ble fo'r datblygiad hwnnw eisoes wedi ei awdurdodi, ei weithredu neu yn y broses o gael ei weithredu, a gall y newid neu'r estyniad gael effeithiau andwyol ar yr amgylchedd). Wedi sgrinio ac asesu'r bwriad yn unol â'r meini prawf datblygu dan Atodlen 3, ystyrir nad yw effaith debygol y datblygiad ar yr amgylchedd yn ddigon i gyfiawnhau cyflwyno Asesiad Effaith Amgylcheddol gyda'r cais cynllunio.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

2. Polisiâu Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae'r ystyriaethau polisi yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r "egwyddor datblygu cynaliadwy", fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni'r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

2.3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026

Polisi Strategol PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

Polisi Strategol PS 5: Datblygu Cynaliadwy

Polisi Strategol PS 13: Darparu Cyfleoedd ar gyfer Economi Ffyniannus

Polisi Strategol PS 19: Gwarchod a lle fo'n berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol

Polisi Strategol PS 20: Cadw a ble fo'n briodol Gwella Asedau Treftadaeth

Polisi Strategol PS 22: Mwynau

POLISI AMG 1: Cynlluniau Rheolaeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

POLISI AMG 3: Gwarchod a Gwella Nodweddion a Rhinweddau sydd yn unigryw i Gymeriad y Dirwedd Leol

POLISI AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol

POLISI PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu

POLISI PCYFF 6: Cadwraeth Dŵr

POLISI MWYN 3: Datblygiadau Mwynau

POLISI MWYN 5: Cylchfeydd Rhagod o amgylch Safleoedd Mwynau

POLISI MWYN 9: Adfer ac Ôl-ofal

POLISI GWA 1: Darparu Isadeiledd Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu

Canllaw Cynllunio Atodol - Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy 2019

Canllawiau Cynllunio Atodol - Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd 2009

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

2.4 Polisiâu Cenedlaethol:

- Polisiâu, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru, Rhifyn 11 (Chwefror 2021),
- Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040,
- Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017;
- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (Medi 2009) Llywodraeth Cymru
- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11: Sŵn (Hydref 1997), Llywodraeth Cymru
- Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Hydref 2017) Llywodraeth Cymru
- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 15: Datblygu a Risg Llifogydd
- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 23: Datblygiad Economaidd (Chwefror 2014), Llywodraeth Cymru
- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017), Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth Cymru - Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: AGREGAU (Mawrth 2004) a Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru.

3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

- 3.1 Mae hanes hir o gloddio tywod a graean i'r safle hwn, hanes sy'n dyddio'n ôl i'r caniatâd cynllunio cynharaf a roddwyd ym mis Mai 1958, a cheir tystiolaeth bod y gwaith wedi cyflenwi deunyddiau ar gyfer nifer o gontractau peirianeg sifil ar raddfa fawr yn yr ardal, gan gynnwys Gorsaf Bŵer Dinorwig, Argae Stwlan a nifer o gontractau gwella ffyrdd lleol. Mae'r caniatadau isod yn benodol i ardal y cais;
- 3.2 Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r safle wedi bod yn weithredol dan ganiatâd cynllunio 2/14/16G a roddwyd ar 1af o Fawrth 1996, oedd yn cynnwys ardal brosesu Cefn Graianog a'r gwaith mwyngloddio yn Fferm Graianog. Rhoddwyd caniatâd pellach, C00D/0005/34/MW, ym mis Mai 2000 i wro amodau 1 a 2 y caniatâd hwn i altro cyfres y gweithgareddau cloddio. Roedd y newid yma'n galluogi i'r gweithrediad gyfuno amryfal fathau o fwynau ar wyneb y gwaith i gwrdd â gofynion cynhyrchu/gwerthiant ac i resymoli y gyfres o adfer graddol.
- 3.3 **C10/0487/34/MW** - Cyflwynwyd y cais gydag Asesiad Effaith Amgylcheddol. Caniatwyd cais cynllunio yn ddarostyngedig i amodau ar 23 Awst 2011 - I amrywio amodau ar ganiatâd cynllunio presennol i ymestyn oes y gwaith mwyngloddio tan 31 Rhagfyr 2020 ac amrywio cynllun gwaith dan amodau 1 a 2 o ganiatâd cynllunio 2/14/12G a C00D/0487/34/MW.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

3.4 **C15/0299/34/MW** Caniatwyd gydag amodau ar 22 Mehefin 2015 – Adeiladu 3 lagŵn siltio ategol a gwaith cysylltiedig i ddarparu'r capasiti angenrheidiol i alluogi gwaith mwynau sy'n parhau a darparu system gaeedig ar gyfer rheoli dŵr o'r chwarel ar y safle.

3.5 **C16/0816/34/MW** - Caniatwyd yn ddarostyngedig i amodau ar 18 Tachwedd 2016 - Estyniad dwyreiniol arfaethedig i echdynnu tywod a graean a gwaith adfer graddol.

4. Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned Clynnog: Dim gwrthwynebiad

Cyngor Cymuned Llanllyfni : Dim gwrthwynebiad

Uned Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru: Fel yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol am Gefnffordd yr A487, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfarwyddyd mewn perthynas â'r cais hwn.

Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd: Dim Ymateb

Uned Priffyrdd a Thrafnidiaeth Gwynedd: Dim gwrthwynebiad i'r cais i ymestyn yr amser i gadw'r lagwnau.

Rheolwr AHNE Cyngor Gwynedd: Mae safle waith Cefn Graianog gerllaw Brynceir ac yn agos at ffin yr AHNE. Sefydlwyd y gwaith ddegawdau yn ôl i ddarparu tywod a graean yn lleol ac yn rhanbarthol. Bu gwaith adfer effeithiol ar y safle yn ystod y blynyddoedd diwethaf sy'n lleihau yr effaith ar y dirwedd. O ystyried mai dim ond estyniad amser cyfyngedig sy'n gysylltiedig â'r lagwnau setlo, nid oes unrhyw bryderon ynghylch yr effaith ar yr AHNE.

Ymgynghorydd Iaith Cyngor Gwynedd: Dim gwrthwynebiad i'r cais i ymestyn yr amser o safbwynt ieithyddol. Ystyrir mai effaith niwtral fyddai o gymeradwyo'r cais.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd: Nid oes unrhyw bryderon archeolegol gyda cyfnod ymestyn a ofynnir.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

CADW: Dim gwrthwynebiad

Mae effaith y lagwnau siltio ar osodiad henebion cofrestredig wedi cael ei ystyried yn flaenorol ac ni fydd ymestyn y cyfnod hwn o amser ar gyfer eu defnyddio ac adfer y tir yn addasu'r effaith.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus
Gwynedd:

Ni chafwyd ymateb ar y cais hwn, ond roedd sylwadau a gyflwynwyd ar y chwaer-gais yn gofyn am ofalu am lwybrau 42 a 42A yn ystod y datblygiad hwn ac wedi hynny.

Uned Rheoli Perygl Llifogydd
ac Erydu Arfordirol Gwynedd:

Dim sylwadau ar ddraenio tir na pheryglon posib llifogydd.

Dŵr Cymru:

Yn cydnabod nad yw cais (Cyf:C20/1064/22/AC) yn golygu cynigion i gysylltu â'r garthffos gyhoeddus neu rhwydwaith y prif gyflenwad dŵr ac felly nid ydym yn cynnig unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i newid amod 2 i ganiatáu estyn amser, yn amodol i gydymffurfio gydag unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â draenio.

Parc Cenedlaethol Eryri:

Dim Ymateb

Scottish Power:

Dim Ymateb

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Uned Bioamrywiaeth
Gwneidd:

- Mae bob un o'r tri chaniatâd sy'n dal i fodoli (C10/0487/34/MW, C15/0299/34/LL, C16/0818/34/MW) wedi cael eu hasesu ar gyfer effaith sylweddol debygol dan Reoliad 63 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 pan gawsant eu penderfynu. Ni ystyriwyd bod yr un o'r tri chaniatâd yma yn debygol o gael effaith sylweddol ar nodweddion cadwraeth ACA Corsydd Eifionydd ac roedd CCW/NRW yn cytuno gyda'r asesiadau hyn. Nid oes unrhyw newid i'r caniatadau presennol, ac felly mae'r asesiadau blaenorol ar gyfer effaith sylweddol tebyg yn aros yr un fath ac mae'r bwriad i ymestyn amser y caniatâd yma yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ACA Corsydd Eifionydd.
- I grynhoi, ni fydd parhad y gwaith presennol yng Nghefn Graianog yn effeithio ar ACA Corsydd Eifionydd am y rhesymau isod:
 - Nid yw'r chwarel a'r gwaith cysylltiedig yn yr ACA ac nid yw ychwaith mewn cynefin tebyg sydd yn gyfagos at Gors Cyfelog. Felly, ni fydd unrhyw dir yn cael ei ddefnyddio yn yr ACA ac ni fydd unrhyw gynefin sy'n gysylltiedig â'r gors yn cael ei golli.
 - Ni fydd hydroleg y gors yn newid.
 - Adeiladwyd system lagŵn dolen gaeedig yn y chwarel i sicrhau na fydd unrhyw lygredd yn mynd i'r gors.
- Argymhellir bod y cynlluniau adfer i'r chwarel, lagwnau ac ardaloedd prosesu yn ceisio creu cynefinoedd o werth bioamrywiaeth uchel fel porfa frwyn (porfa frwyn blodeufain a glaswellt y gweunydd) a gweirglodd blodau gwyllt a phwll bach a phyllau bas Mae cynefinoedd micro fel pyllau bas a phyllau bach ac ardaloedd o brysgwydd, o gymorth i greu mwy o amrywiaeth i fywyd gwyllt yn arbennig infertebratau. Mae brwyn a gwair uchel yn darparu cysgod i famaliaid bach ac ymlusgiaid. Hoffem weld mwy o fanylion ar yr holl gynlluniau adfer, fel cynlluniau sy'n dangos nodweddion cynefinoedd micro (pyllau bas, pyllau, prysgwydd, waliau cerrig sych ac ati) gyda rhestrau o rywogaethau i blannu (llwyni a choed) a blodau gwyllt i gymysgfa hadau.
- Argymhellir fel nodwedd i wenoliaid y glennydd nythu yma y dylid creu clawdd tywod neu bridd.
- Mae rhywogaethau o blanhigion anffrodorol wedi eu rhestru dan atodlen 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd), ac mae hi'n drosedd i achosi iddynt dyfu yn y gwyllt. Dylid monitro holl safle'r chwarel yn rheolaidd ar gyfer rhywogaethau o blanhigion anffrodorol fel Llysiâu'r Dial, Ffromlys Chwarennog a Choed Mêl. Dylid cynnal arolwg o safle'r chwarel ar gyfer y planhigion hyn a map yn dangos eu lleoliad ac amcangyfrif o faint ohonynt sydd yno gan ei ddarparu i'r ACLI. Dylai'r rhywogaethau hyn gael eu gwaredu yn y ffordd briodol.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Yr Arolygiaeth Chwareli: Dim sylwadau gwrthwynebus i'w gwneud ar y cais hwn

Cyfoeth Naturiol Cymru: Ymgynghoriad 1af

Dim gwrthwynebiadau i'r cais, ond gyda'r sylwadau isod;

- O'r wybodaeth a ddarparwyd, mae CNC yn ystyried y gall y cynigion effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig Corsydd Eifionydd (ACA), Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cors Gyfelog (SSSI) a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Gyfelog (GNNR), gyda effaith bosib ar lwybrau llygredd i nodweddion y safle yma. Efallai na fydd llwybrau yn golygu effaith andwyol os glynir at/gweithredir mesurau atal llygredd.
- Nid oes unrhyw asesiad o effaith sylweddol tebyg dan Reoliad 63 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 wedi ei gynnal gan eich awdurdod neu nid yw wedi ei anfon ymlaen i CNC i'w ystyried. Os ydych yn dod i'r casgliad bod y datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol ar y safle Ewropeaidd, rydym yn edrych ymlaen i chi ail-ymgynghori gyda ni. Oherwydd absenoldeb yr asesiad yma, ni all CNC roi sicrwydd na fydd y cynigion yn golygu effaith andwyol ar yr ACA.
- Argymhellwn eich bod yn ymgynghori gyda'ch ecolegydd ar unrhyw gyfleoedd gwella posib a'r cynnig tirwedd,.
- Rydym yn cynghori'r ymgeisydd ei fod yn gyfrifol, yn ogystal â chael chaniatâd cynllunio, am sicrhau ei fod yn cael pob hawlen/caniatâd/trwydded sy'n berthnasol i'r datblygiad. Cyfeiriwch at ein gwefan i gael rhagor o fanylion:
- Rheoli Amgylcheddol; Cynghorir yr ymgeisydd i ddilyn y canllawiau o fewn Canllawiau Atal Llygredd 5 "Works and Maintenance in or Near Water":

2il Ymgynghoriad (Asesiad HRA)

- Cytunwn gyda Gwynedd yn ei asesiad fel awdurdod cymwys dan Reoliad 63 o Reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 bod bwriad i ymestyn yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ACA Corsydd Eifionydd.

Llywodraeth Cymru - Polisi
Priddoedd a Defnydd Tir
Amaethyddol:

Dim Ymateb

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Cefn Gwlad a Mynediad
Gwynedd: Dim Ymateb

Sustrans: Dim Ymateb

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Gosodwyd hysbysiad mewn lleoliad gerllaw'r safle ar y 7 Ionawr 2021, ac fe hysbyswyd cymdogion cyfagos drwy lythyr. Ymddangosodd hysbysiad yn y wasg leol ar 20 Ionawr 2021.

Er na dderbyniwyd unrhyw lythyrau'n gwrthwynebu mewn ymateb i gyhoeddusrwydd statudol ar y cais, mae sylwadau a gyflwynwyd gan dirfeddianwr cyfagos i ogledd orllewin y chwarel yn amlygu pryderon ynglŷn â thraeniad tir lle mae mwy o ddŵr ffo wyneb yn cael mynediad i'w eiddo o'r briffordd gyfagos, gan sgwrio ei lain mynediad.

Asesu'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

5. Egwyddor y datblygiad

- 5.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Rhifyn 11, Chwefror 2021) yn amlinellu polisi cynllunio Llywodraeth y Cynulliad o ran cloddio mwynau. Dylai pob Awdurdod Cynllunio Mwynau sicrhau bod ei gynlluniau datblygu yn caniatáu cyfrannu at gyflenwad mwynau sy'n diwallu anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- 5.2 Mae Cyngor Gwynedd, ar y cyd â holl Awdurdodau Cymru wedi cadarnhau'r Datganiad Technegol Rhanbarthol a luniwyd gan Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru sydd ar hyn o bryd yn destun ail adolygiad. Paratowyd y datganiad yn unol â darpariaethau Polisi Cynllunio Mwynau (Cymru) a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 1: Agregau (NCTM1), i osod amcan cyffredinol i sicrhau cyflenwad o agregau y mae modd eu rheoli'n gynaliadwy. Prif ddiben y datganiad yw nodi'r strategaeth ar gyfer darparu'r agregau yn rhanbarth gogledd Cymru.
- 5.3 Bydd y bwriad yn ategu'r isadeiledd gofynnol ar gyfer parhau â'r gwaith o echdynnu tywod a graean yng Nghefn Graianog, fydd yn sicrhau bod y Cyngor yn medru cyflawni ei rwymedigaethau dosrannu o ran cyflenwi mwynau ar gyfer is-ranbarth Gogledd Cymru. Ychydig o gronfeydd tywod a graean a ganiateir sydd ar gael yng Ngogledd Orllewin Cymru a bydd y cynnig hwn yn sicrhau fod isadeiledd digonol yn ei le i sicrhau'r cyflenwad hanfodol o dywod a graean i'r economi adeiladu leol. Bydd hyn yn lleihau'r angen i fewnforio deunyddiau o du allan i Wynedd, gan felly ostwng costau ac allyriadau carbon.
- 5.4 O ran yr angen am y datblygiad, nid yw'r bwriad felly'n gyfystyr ag estyniad i fanc tir cronfeydd tywod a graean yr awdurdod yn ôl y polisi ac arweiniad cenedlaethol cyfredol a geir yn NCTM1 (Cymru) Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol. Diben y cais yw gwella isadeiledd presennol y chwarel a darparu cyfleuster fydd yn ategu'r gwaith mwyngloddio. Mae'r datblygiad eisoes yn destun cynigion adfer llawn ac mae amodau'n gysylltiedig â'r caniatâd sylfaenol; yn y

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

cyd-destun hwn, mae'r datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi Strategol PS 22 a Pholisi MWYN 3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. Ymhellach, ni ystyrir y bydd y cynnig i barhau â'r gweithrediadau mwynau yng Nghefn Graianog yn cynnwys y goblygiadau diogelu ar gyfer safleoedd gwastraff posib dan bolisi GWA 1.

- 5.5 Yn ogystal â'r egwyddor o ran yr angen am y datblygiad, mae'r materion cynllunio hanfodol yn yr achos hwn yn cael sylw isod:

Mwynderau Gweledol

- 5.6 Mae'r datblygiad wedi ymestyn ôl troed y gwaith presennol trwy ddarparu capasiti ychwanegol i ddelio â 26,000m³ o ddeilliannau silt o'r prosesau golchi mwynau. Mae safle gweithredol presennol, gan gynnwys y safle prosesu, y lagwnau, hynny sy'n weddill o wyneb y gwaith a'r coridor cludo, yn mesur dros 29 hectar ac mae'r datblygiad ynghyd â'r caniatâd sylfaenol i ennill a gweithio tywod a graean gyda'r posibilrwydd o gael effaith cronrus ar olygfeydd i fewn ac allan o AHNE Llŷn. Fodd bynnag, ni ystyrir fod maint y newid yn arwyddocaol yng nghyd-destun effaith rhan helaeth gweithfeydd Graianog, ac fe ellir lliniaru effeithiau o'r fath i raddau gan gyfnod gwaith cyfyngedig (4 blwyddyn ychwanegol) a'r cynllun graddol o echdynnu ac adfer wrth wyneb y gwaith sy'n tynnu at ei derfyn. Yn ogystal, cynigir adfer y tir i borfa gymysg a chadwraeth natur yn y caniatâd sylfaenol, C15/0299/34/MW, yn ogystal â'r cysyniad adfer ar gyfer y lagwnau presennol a'r safle prosesu dan C10/0487/34/MW.
- 5.7 Mae gweithio tywod a graean yn gymharol ddeinamig o'i gymharu â chloddio am graig galed gan fod reserfau yn gyffredinol ar gael dan dir amaethyddol ac mae modd eu gweithio yn gymharol sydyn gyda pheiriant turio. O ganlyniad, mae'r awdurdod cynllunio mwynau angen i waith adfer cynyddol i fantoli yn erbyn colli mwynderau a thir cynhyrchiol i liniaru effeithiau gwaith o'r fath. Hyd yma, mae safleoedd sydd wedi eu gweithio wedi cael eu hadfer yn effeithiol i'w defnydd gwreiddiol, yn bennaf amaethyddiaeth, ac maent yn awr yn cyd-fynd â'r ardal oddi amgylch.
- 5.8 Cydnabyddir y gellir ceisio amrywiol dechnegau a dulliau adfer a phlannu ac mae'n bwysig, er mwyn llwyddiant y cynllun, bod yr amcanion adfer yn cael eu teilwra'n benodol ar gyfer defnydd amaethyddol a gwella cynefinoedd bywyd gwyllt fel ei gilydd. Mae'r manylion a gymeradwywyd yn nodi rhaglen o fesurau a chynllun ôl-ofal ar gyfer y gwaith adfer ar gyfer defnydd amaethyddol yn rhannol, gan gynnwys trin a gosod pridd, rhwygo, a gofynion o ran maetholion. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r cais gwreiddiol yn dangos fod deunydd digonol ar gael i gyflawni amcanion yr adferiad. Fodd bynnag, yn ogystal ag adfer amaethyddol, mae'r cynllun yn cynnwys gwaith i drin unrhyw ddeunydd gweddilliol (silt), a chreu tirlffurf all ddarparu'r amgylchiadau gorau i gynefinoedd bywyd gwyllt.
- 5.9 Mae arolygon cynefinoedd a rhywogaethau a gynhaliwyd ar y safle yn y gorffennol wedi bwydo i mewn i'r cysyniad adfer er budd cadw a gwella adnodd cadwraeth natur yr ardal. Mae CNC a Bioamrywiaeth Gwynedd yn gefnogol o'r cysyniad adfer o gadw'r lagwnau fel cyrff dŵr croyw agored, yn ogystal â phorfa arw a chynefinoedd bywyd gwyllt.
- 5.10 Mae ardal y cais yn goleddfu oddi wrth ardal y gwaith prosesu i gyfeiriad y gogledd, a chaiff ei sgrinio ar y cyfan rhag unrhyw olygfannau o fewn y Parc Cenedlaethol gan isadeiledd presennol y chwarel. Yn yr un modd, mae golygfeydd dros ardal y cais o olygfannau o fewn yr AHNE wedi eu cuddio'n rhannol gan goed a thopograffeg y tir; mewn ymateb i ymgynghoriad, cadarnhaodd rheolwr yr AHNE fod gwaith adfer effeithiol wedi digwydd ar y safle mewn blynyddoedd

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

diweddar, sy'n lleihau'r effaith ar y tirlun. O ystyried mai dim ond estyniad amser cyfyngedig sy'n gysylltiedig â'r lagwnau setlo, nid oes unrhyw bryderon ynghylch yr effaith ar yr AHNE.

- 5.11 O fewn cyd-destun cyffredinol safle presennol y Chwarel, mae'r dirwedd a'r newidiadau gweledol sydd wedi'u hadnabod â lefel gyfyngedig o effaith ac ni fyddai ymestyn yr amserlen ar gyfer gweithredu'r system rheoli dŵr yn golygu unrhyw lefelau mawr o effaith weledol. Felly, ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol mewn egwyddor, o ran bod y datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi Strategol PS 19: Gwarchod a lle bo'n berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol a Pholisiau AMG 3, AT 1, MWYN 3 a MWYN 9 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

Bioamrywiaeth a Hydroleg

- 5.12 Roedd y system rheoli dŵr gwreiddiol yn cynnwys llyn a swmp cydbwysu dŵr, lagŵn i ddal dŵr croyw a dŵr wyneb, cyfres o lagwnau setlo silt, gwaith pibellau, draeniau agored a phwmpiau. Fodd bynnag, cofnodwyd yn flaenorol y gallai llifogydd cyflym ddigwydd yn ystod cyfnodau o law trwm, lle byddai gorlif o'r lagwnau presennol yn cymysgu â dŵr wyneb a dŵr ffo o'r tir cyfagos, gyda'r potensial felly o lygru ac effeithio ar gynefinoedd pwysig.
- 5.13 Prif bwrpas y system gaeedig o lagwnau yw ategu'r isadeiledd rheoli dŵr presennol er mwyn atal hyn rhag digwydd. Mae'r safle rheoli dŵr wedi ei ddylunio yn benodol er mwyn sicrhau capasiti digonol i reoli'r holl ddŵr chwarel ar y safle, h.y. fel system hunangynhaliol.
- 5.14 Mae'r safle wedi'i leoli 224m i'r dwyrain o afon Desach, gyda SoDdGA a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Gyfelog ac ACA Corsydd Eifionydd 87m i'r de. Mae'r safle yn gweithredu dan ganiatâd ar wahân gan CNC dan y Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol o ran rheoli llif dŵr wyneb a mesurau atal llygredd. Mewn ymateb i ymgynghoriad ar y profion effeithiau arwyddocaol tebygol ar y safle dynodedig Ewropeaidd, mae CNC yn cytuno ag asesiad Cyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Cymwys, dan Reoliad 63 Rheoliadau Cynefinoedd 2017 nad oedd estyniad i weithrediad y system lagwnau yn cael ei ystyried yn rhywbeth fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar nodweddion cadwraeth ACA Corsydd Eifionydd. Mae CNC yn argymhell ymhellach y dylid ymgynghori â swyddog bioamrywiaeth yr awdurdod ar unrhyw gyfleoedd a chynigion i wella'r tirlunio.
- 5.15 Mewn ymateb, cadarnhaodd Bioamrywiaeth Gwynedd y dymunai weld mwy o fanylder ar gynigion adfer, megis cynlluniau sy'n dangos nodweddion microgynefinoedd (pyllau bas, pyllau, prysgwydd, waliau cerrig sych), i gynorthwyo i greu mwy o amrywiaeth i fywyd gwyllt, yn benodol infertebratau gyda rhestrau rhywogaethau ar gyfer plannu (llwyni a choed) a blodau gwyllt ar gyfer cymysgedd hadau, brwyn a glaswellt tal i roi lloches i famaliaid ac ymlusgiaid bychan. Yn ychwanegol, dylid monitro safle'r chwarel yn rheolaidd ar gyfer rhywogaethau o blanhigion anffrodorol fel Llysiau'r Dial, Ffromlys Chwarennog a Choed Mêl. Yn ychwanegol at y sylwadau a gyflwynwyd gan Bioamrywiaeth Gwynedd, gellid cyfeirio, dan amod, at y rhestr rhywogaethau a'r cynigion adfer manwl a gyflwynwyd â'r chwaer-gais, C20/1065/22/AC, yn ogystal â'r gofyniad am gyfarfodydd ôl-ofal blynyddol i fonitro ac asesu'r cynnydd gyda gwaith adfer.
- 5.16 Ni fu unrhyw wrthwynebiadau neu bryderon ynghlân â draenio neu risg llifogydd mewn ymateb i'r ymgynghoriadau â Cyfoeth Naturiol Cymru ac Uned Risg Llifogydd a Draenio Tir Gwynedd. Ar ben hynny, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno â Bioamrywiaeth Gwynedd o ran yr effeithiau posib ar fioamrywiaeth lleol; gellir casglu felly na fydd y datblygiad yn arwain at golli cynefin gwarchoddedig, rhywogaethau gwarchoddedig nac yn newid hydroleg yr ACA. Mae'r cynigion adfer yn cynnwys gwella bioamrywiaeth ac felly mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Strategol PS 19 a Polisi AMG 3, AMG 5, PCYFF 6, MWYN 3 a MWYN 9 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

- 5.17 O ran sylwadau a gyflwynwyd gan dirfeddiannwr cyfagos ynglŷn a draenio tir sy'n effeithio ar ei eiddo, darganfuwyd ers hynny nad yw'r problemau sy'n codi yn ymwneud ag unrhyw ran o waith y chwarel, gan gynnwys y system rheoli dŵr dolen gaeedig. Mae'r materion a godwyd wedi eu cyfeirio at Trafnidiaeth Gwynedd, er mwyn iddynt adolygu eu hisadeiledd draenio priffyrdd lleol.

Treftadaeth Ddiwylliannol

- 5.18 Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd yn cadarnhau nad oes unrhyw bryderon archeolegol gyda'r cyfnod ymestyn a ofynnir. Tra bod ardal y lagwnau yn disgyn o fewn rhagod 500m heneb CN098 'Maen Hir a Charneddi Crynion Graianog', mae CADW yn cadarnhau nad oes ganddynt wrthwynebiad, gan fod effaith y lagwnau siltio ar osodiad henebion cofrestredig wedi cael ei ystyried yn flaenorol ac na fydd ymestyn y cyfnod hwn o amser ar gyfer eu defnyddio ac adfer y tir yn newid yr effaith hwn. Mae'r bwriad felly'n cydymffurfio gyda Pholisïau AMG 3 a PS 20 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2016.

Mwynderau cyffredinol a phreswyl

- 5.19 Mae natur y cais am gapasiti ychwanegol i'r lagwnau yn debyg i'r math o isadeiledd sydd wedi bod yn weithredol ar y safle am sawl blwyddyn ac sydd wedi bod yn destun rheolaethau amgylcheddol drwy amodau cynllunio neu hawlenni amgylcheddol.
- 5.20 Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru a NCTM1: Agregau wedi sefydlu'r egwyddor o gylchfeydd rhagod o amgylch safleoedd echdynnu mwynau, ble mai'r amcan yw amddiffyn defnyddiau tir sydd fwyaf sensitif i effaith gweithrediadau mwynau drwy sefydlu pellter gwahanu rhwng defnyddiau tir a allai fod yn gwrthdaro. Caiff datblygiad sensitif ei ddiffinio yn NCTM1 fel; "*unrhyw adeilad a ddefnyddir gan bobl yn rheolaidd ac sy'n cynnwys ardaloedd o dai, hostelau, manau cyfarfod, ysgolion ac ysbytai, a lle y disgwylir mwynderau o safon dderbyniol*". Diffinnir cylchfa ragod o ymyl allanol yr ardal weithredol, gan gynnwys ffyrdd cludo safle a lagwnau. Mae NCTM1 yn argymhell pellter o 100 metr o leiaf ar gyfer gweithfeydd tywod a graean ac eraill lle na chaniateir ffrwydro. Nid oes eiddo sensitif wedi'i leoli o fewn cylch rhagod o 100m fel y gweithredir dan bolisi MWYN 5 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.
- 5.21 Ystyrir felly, yn ddarostyngedig i amodau priodol i reoli effeithiau sŵn a llwch ac oriau gweithio, ni fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r ardal ac felly mae'n cydymffurfio â pholisi PCYFF 2, MWYN 3 a MWYN 5 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

Materion traffig a mynediad

- 5.22 Mae hwn yn gais i ymestyn yr amser ar gyfer parhau i weithredu tri lagŵn siltio ychwanegol, ac er y gall effeithio ar effeithlonrwydd y cynhyrchiant, nid oes cyswllt uniongyrchol ag allbwn y chwarel na chyflenwad a galw. Ystyrir felly na fydd y bwriad yn cael effaith andwyol ar unrhyw briffordd neu briffordd arfaethedig, ac nad yw'n sbarduno unrhyw feini prawf o dan Bolisi TRA 4 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

- 5.23 Mae dau lwybr cyhoeddus yn agos at y safle ac nid oes gofyn i wneud unrhyw ddarpariaeth am orchymnion cau neu wyro penodol. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, nododd swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd y dylid gwarchod y llwybrau hyn yn ystod y datblygiad ac wedi hynny.
- 5.24 Mae'r cynigion datblygu wedi eu lleoli ymhell o'r ddau hawl tramwy cyhoeddus ble mae darpariaeth i'w gwarchod eisoes yn rhan o amod cynllunio.

Materion cynaliadwyedd

- 5.25 Mae'r adroddiad hwn wedi asesu materion cynaliadwyedd y cais yn unol â'r nod o ddatblygu cynaliadwy ac yn unol â saith nod llesiant 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' i helpu i sicrhau bod cyrff cyhoeddus i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth o Gymru gynaliadwy.
- 5.26 Fel Awdurdod Cynllunio Mwynau, mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod adnoddau mwynau'n cael eu gweithio mewn modd cynaliadwy, fel y gallant gyfrannu'n briodol at ofynion deunyddiau adeiladu'r ardal. Mae gan Wunedd hanes hir o gloddio mwynau, ac mae'n parhau i fod yn rhan bwysig o'i gwead economaidd a chymdeithasol. Yng ngogledd Cymru ceir tomenni helaeth o amrywiaeth o ddeunyddiau sy'n addas i'w defnyddio: creigiau igneaidd, tywod a graean a chalchfaen yn benodol. Mae'r cais hwn yn ceisio sicrhau parhad gweithrediad y cyfleuster i gefnogi echdyniad cronfa fwynau a ganiateir lle mae dyddodion hysbys o dywod a graen i'w cael.

Yr Economi

- 5.27 Mae Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd, yn datgan: wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gadw mewn cof bod defnydd busnes traddodiadol, dosbarthiadau B1–B8 ond yn cyfrif am ran o'r gweithgaredd yn yr economi. Mae'n bwysig bod y system gynllunio yn cydnabod agwedd economaidd pob datblygiad ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio mewn modd cynaliadwy sy'n cadw cydbwysedd rhwng ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'n datgan ymhellach; Dylai awdurdodau cynllunio lleol gydnabod arwyddion y farchnad a rhoi sylw i'r angen i dywys datblygiad economaidd i'r lleoliadau mwyaf addas yn hytrach na rhwystro neu atal y fath ddatblygiad.
- 5.28 Mae'r datblygiad yn cynnig isadeiledd chwarel ychwanegol i ategu'r systemau rheoli dŵr presennol ac felly bydd yn cynorthwyo i gynnal swyddi llawn-amser i staff y safle sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol ac anuniongyrchol o ganlyniad i weithrediad y chwarel. Yn ogystal, mae tywod a graean yn hanfodol ar gyfer yr economi adeiladu leol ac mae cael ffynhonnell leol yn cadw costau ynghyd ag allyriadau carbon i lawr.
- 5.29 Bydd y cynnig yn cynorthwyo i gynnal 13 o swyddi llawn-amser i staff y safle, wedi'i gyflogi'n uniongyrchol ac anuniongyrchol o ganlyniad i'r gweithrediadau presennol yng Ngraiianog, Porth Penrhyn a Stad Ddiwydiannol Llandygái. Yn fwy na hyn, mae cadw gweithwyr lleol yn cael effeithiau positif ar ddiwylliant, ac yn fwy penodol, ar statws y Gymraeg yn yr ardal.
- 5.30 Felly, mae'n debygol y bydd y bwriad yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i economi'r ardal yn unol â Pholisi Strategol PS 13 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn i ddarparu cyfleoedd

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

am economi ffyniannus, ynghyd â Chanllaw Cynllunio Atodol Gwynedd, Cynllunio a'r Iaith Gymraeg, Tachwedd 2009.

Yr Iaith Gymraeg

- 5.31 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ymdrin â phwysigrwydd y Gymraeg wrth gyflawni ei amcanion cynaliadwyedd i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
- 5.32 Cyflwynwyd Datganiad Iaith gyda'r cais yn unol â Pholisi PS1 o'r Cynllun Datblygu Lleol a'r canllawiau Cynllunio perthnasol; 'Cynnal a Chreu Cymunedau Unigryw a Chynaliadwy 2019'. Mae Polisi PS 1 (Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig) a Pholisi PS 5 (Datblygiad Cynaliadwy) yn ceisio hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ardal y Cynllun a helpu i gefnogi a gwella'r amodau sy'n sicrhau cymunedau cynaliadwy a ffyniannus.
- 5.33 Mae'r datganiad iaith yn asesu effaith y datblygiad arfaethedig ar gymunedau ac yn adnabod mesurau fydd un ai yn lliniaru'r effeithiau negyddol neu'n gwarchod/gwella/ lledaenu effeithiau cadarnhaol. Mae Gwynedd yn cynnwys y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (65.4% o bobl dros 3 oed yn medru siarad Cymraeg; y ffigwr cenedlaethol ar draws Cymru gyfan yw 19%). O gymharu â Chyfrifiad 2001, mae hyn wedi cwmpo rhywfaint (5.2%) o 69%. Yn ward Llanllyfni, gall 75.5% o'r boblogaeth 3 oed a throsodd siarad Cymraeg, sydd fel y Sir wedi cwmpo rhywfaint ers Cyfrifiad 2001 (cwmp o 2.1% o 79.9%). Fel y cyfryw, gellir gweld bod y gyfran o'r boblogaeth a all siarad Cymraeg yn y ward yn uwch na'r ffigwr ar gyfer y sir yn ei chyfanrwydd. Yn ogystal â hyn, nid yw'r dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ward mor fawr â'r sir gyfan.
- 5.34 Bydd y cais hwn yn sicrhau parhad gwaith presennol lle mae'r gweithlu presennol eisoes yn dod o'r ardal leol. Gall y gweithlu cyfan siarad Cymraeg ac felly mae'r datblygiad yn debygol o gynnal siaradwyr Cymraeg yn y gymuned leol, fydd yn defnyddio'r iaith yn y gweithle.
- 5.35 Nid oes gan yr ymgynghorydd iaith unrhyw wrthwynebiad i'r cais i ymestyn yr amser o safbwynt ieithyddol. Ystyrir mai effaith niwtral fyddai o gymeradwyo'r cais ac felly mae'r datblygiad yn cydymffurfio â pholisi PS1 a PS5 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

6. Casgliadau:

- 6.1 Mae angen asesu'r cynnig ar gyfer datblygiad mwynau ategol sy'n cynnwys parhau i weithredu tri lagŵn siltio ychwanegol yn erbyn meini prawf polisi cynllunio ac mae'r awdurdod wedi ymgynghori ar y cais hwn i ganfod effeithiau posib y datblygiad. Mae'r cyflwyniad yn ymdrin â'r ystyriaethau cynllunio materol wrth asesu effaith y datblygiad arfaethedig. Nid yw'r cais yn cynnwys cynigion i ymestyn gweithfeydd y chwarel na chynyddu'r allbwn; yn hytrach mae'n cynnwys darparu isadeiledd gweithredol penodol i ategu systemau rheoli dŵr y chwarel a lliniaru effeithiau posib ar yr amgylchedd dŵr lleol.
- 6.2 Mae'n annhebygol y bydd unrhyw newid amlwg yn amodau gweithio'r safle na newid i effaith weledol y gwaith ac ni fydd y datblygiad yn tynnu oddi wrth nodweddion cadarnhaol y dirwedd na'r elfennau hynny sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw y Parc Cenedlaethol, neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn. Nid oes unrhyw faterion polisi cynllunio sy'n ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, ac mae'r materion sy'n ymwneud â rheolaethau sŵn, llwch ac amgylcheddol bellach wedi hen sefydlu ar y safle gyda nifer gymharol fach o gwynion

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

wedi eu hanfon er sylw'r awdurdod cynllunio mwynau. Felly, ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol mewn egwyddor, o ran bod y datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi Strategol PS 19: Gwarchod a lle bo'n berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol a Pholisïau AMG 3, AT 1, MWYN 3 a MWYN 9 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

- 6.3 Mae'r datblygiad yn dderbyniol mewn egwyddor a bydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi, gan gyfrannu at isadeiledd y prif gronfeydd tywod a graean yng Ngwynedd. Mae'n cydymffurfio â gofynion polisi cynllunio mwynau rhanbarthol a lleol ac yn cydymffurfio â meini prawf cynaliadwyedd Polisi PS 22 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026, o ystyried polisi cenedlaethol cyfredol ar gyfer cynnal banc tir o reserfau mwynau yn unol â'r canllawiau yn NCTM1 (Cymru) Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol. Yn ogystal, mae'n debygol y bydd y bwriad yn gwneud cyfraniad positif i economi'r ardal yn unol â Pholisi Strategol PS 13 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.
- 6.4 Mae'r safle wedi'i leoli 224m i'r dwyrain o afon Desach, gyda SoDdGA a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Gyfelog ac ACA Corsydd Eifionydd 87m i'r de, yn ogystal. Mewn ymateb i ymgynghoriad ar y profion effeithiau arwyddocaol tebygol ar y safle dynodedig Ewropeaidd, mae CNC yn cytuno ag asesiad Cyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Cymwys, dan Reoliad 63 Rheoliadau Cynefinoedd 2017 nad oedd estyniad i weithrediad y system lagwnau yn cael ei ystyried yn rhywbeth fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar nodweddion cadwraeth ACA Corsydd Eifionydd. Mae'r cynigion felly'n cydymffurfio gyda gofynion Polisi Strategol PS 19, Polisi AMG 3, AMG 5, PCYFF 6, a MWYN 3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.
- 6.5 Ni chafwyd unrhyw sylwadau na phryderon yn ymwneud â draenio neu risg llifogydd mewn ymateb i'r ymgynghoriad gyda Chyfoeth Naturiol Cymru neu Uned Risg Llifogydd a Draenio Tir Gwynedd ac felly ystyrir na fydd gan y bwriad effaith andwyol ar yr amgylchedd dŵr lleol (POLISI PCYFF6). Mae materion a fyddai fel arall yn destun caniatâd gollwng ar wahân neu Drwydded Amgylcheddol wedi eu rhestru yn yr adroddiad hwn a byddant yn cael eu dwyn i sylw'r datblygwr drwy 'nodyn i'r ymgeisydd' a gyflwynir gyda'r caniatâd cynllunio, ond ni fyddant i'w gweld yn y rhestr o amodau cynllunio sy'n atodol i'r hysbysiad penderfyniad ei hun.
- 6.6 Mae CNC a Bioamrywiaeth Gwynedd yn gefnogol o gynigion am borfa arw a gwella bioamrywiaeth, sy'n seiliedig ar ganfyddiadau arolwg cynefinoedd a rhywogaethau a gynhaliwyd o fewn ac o amgylch y safle. Mae'r cynnig felly'n cydymffurfio gyda gofynion Polisi Strategol PS 19, Polisi AMG 3, AMG 5, PCYFF 6, MWYN 3 a MWYN 9 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026. Felly, bydd amcanion allweddol y cynllun yn integreiddio/cyfweddu'r safle yn ei amgylchedd; gwella bioamrywiaeth ac atgyfnerthu patrwm y dirwedd.
- 6.7 Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd yn cadarnhau nad oes unrhyw bryderon archeolegol gyda'r cyfnod ymestyn a ofynnir. Tra bod ardal y lagwnau yn disgyn o fewn rhagod 500m heneb CN098 'Maen Hir a Charneddi Crynion Graianog', mae CADW yn cadarnhau nad oes ganddynt wrthwynebiad, gan fod effaith y lagwnau siltio ar osodiad henebion cofrestredig wedi cael ei ystyried yn flaenorol. Mae'r bwriad felly'n cydymffurfio gyda Pholisïau AMG 3, PS 20, AT 1 ac AT 3 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2016.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	


- 6.8 Ni fydd gan y datblygiad effaith andwyol ar unrhyw briffordd, na phriffordd arfaethedig. Felly, mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda Pholisi TRA 4 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.
- 6.9 Bydd gan y datblygiad effaith niwtral ar y Gymraeg ac fe ystyrir felly bod y datblygiad yn cydymffurfio â chanllawiau pholisïau PS 1 a PS 5 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.
- 6.10 Mae'r cynnig yn bodloni anghenion cynaliadwyedd Polisi Cynllunio Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
7. **Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Cynorthwyol yr Adran i gymeradwyo'r cais, yn ddarostyngedig i'r newid isod i Amod 2 ar ganiatâd cynllunio C15/0299/34/MW i ymestyn oes y gweithrediadau mwynau sy'n ymwneud â gweithrediad tair lagŵn dyddodion ategol a'r gwaith cysylltiedig am gyfnod o 4 blynedd ychwanegol:**
- Daw'r defnydd a ganiateir o'r safle fel lagŵn siltio ategol i ben erbyn 31 Rhagfyr 2024; cwblheir y gwaith adfer wedyn erbyn 30 Mehefin 2025 neu pan fydd y gwaith yn dod i ben, pa bynnag un ddaw gyntaf.*
- 7.1 Ymateb ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru i'w atodi i'r daflen penderfyniad, yn cynghori y dylid cysylltu â hwy yn uniongyrchol mewn perthynas â'r rheolaethau amgylcheddol a gweithredol penodol a'r ddarpariaeth o wasanaeth o fewn eu cylch gwaith.
- 7.2 Amodau cynllunio fel y presennol mewn perthynas â'r rheolaethau rheoli a ganlyn;
- Hyd y cyfnod gweithio,
 - Cyfyngu ar yr Hawliau Datblygu a Ganiateir, adeiladau, strwythurau, rhai a godir, ffyrdd preifat, llifoleuadau a ffensys,
 - Gweithgareddau a ganiateir a Chydymffurfiaeth â'r Manylion/Cynlluniau a Gyflwynwyd,
 - Oriau Gweithio,
 - Diogelu hawliau tramwy cyhoeddus,
 - Ymdrin â phridd a hwsmonaeth
 - Draenio, mesurau i atal llygru cyrsiau dŵr lleol,
 - Adfer i ddefnydd amaethyddol cymysg a chadwraeth natur,
 - Mesurau ôl-ofal ar gyfer defnyddiau amaethyddol a rheoli bioamrywiaeth,
 - Rheolaethau llwch a chyfyngu ar sŵn yn yr un modd ag y gwneir yn barod.

C20/1064/22/AC

Cais o dan Adran 73 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i amrywio amod 2 ar ganiatad cynllunio C15/0299/34/MW (adeiladu 3 lagwn gwaddodi ategol a gwaith cysylltiedig i ddarparu'r gallu angenrheidiol i barhau gweithio am fwynau a darparu sustem gaeedig ar gyfer rheoli dwr chwarel ar y safle) i ganiatau estyniad pedair-mlynedd ar gyfer defnyddio'r lagwnau mewn cysylltiad â'r gwaith mwynau gyda blwyddyn ychwanegol ar gyfer cwblhau adfer/Application under Section 73 of the Town and Country Planning Act to vary condition 2 on planning permission C15/0299/34/MW (construction of 3 ancillary silting lagoons and sociated works to provide the necessary capacity to enable the ongoing working of mineral and the provision of a closed system for the control of quarry water on site) to allow a four-year extension for the use of the lagoons in connection with the minerals operations and a further year for the completion of restoration.

Tud. 77

Cefn Graianog, Llanllyfni, Caernarfon, LL54 6SY



Legend

- Application Site
- Existing Lagoons
- Proposed Lagoons
- Proposed Minor Burds for Safety/Containment/Soil Storage to be needed and maintained
- Existing Vegetation
- Section Positions (please refer to Dwg No. 98126(q).D.007)

REV AMPD NOTES DATE

DRAWING STATUS
FINAL

PROJECT
CEFN GRAIANOG QUARRY
WATER MANAGEMENT
LAGOONS APPLICATION

CLIENT
 Blawie Sand & Gravel Co Ltd

TITLE
 Lagoon Proposals Plan

DATE
 Feb 2013

SCALE
 1:1000 @A3


DRAWN
 LMS


CHECKED
 RJS

DRAWING NO.
 98126(q).D.007

PleydellSmithyman

THIS DRAWING MAY NOT BE USED WITHOUT CONSENT OF:
 PLEYDELL SMITHYMAN LIMITED
 20A THE WHARFAGE, BOWEN BRIDGE
 SHROPSHIRE TF9 7JH
 T. 01952 483211 F. 01952 483225
 E. info@pleydellsmithyman.co.uk
 www.pleydellsmithyman.co.uk











Eitem 5.4

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Rhif: 4

Rhif y Cais: C20/1065/22/AC

Dyddiad 22/12/20
Cofrestru:

Math y Cais: Adnewyddu a Newid Amod(au)

Cymuned: Clynnog

Ward: Clynnog

Bwriad: Cais o dan Adran 73 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i amrywio amod 1 ar ganiatâd cynllunio C10D/0487/34/MW i ymestyn oes y gweithrediadau chwarelydda a phrosesu cysylltiedig i ganiatáu estyniad pedair blynedd i gwblhau gwaith mwynau a blwyddyn ychwanegol i gwblhau'r gwaith adfer

Lleoliad: Cefn Graianog, Llanllyfni, Caernarfon, LL54 6SY

Crynodeb o'r Argymhelliad: CANIATÁU GYDAG AMODAU.

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

1. Disgrifiad:

- 1.1 Mae'r cynnig hwn yn gofyn am ymestyn y cyfnod o amser hyd 31 Rhagfyr 2024 i barhau gyda'r gweithrediadau mwynau yn Fferm Graianog. Bydd hyn yn sicrhau dad-sterileiddiad y gronfa fwynau ond hefyd, cwblhau'r gwaith o adfer y safle yn unol â'r cynllun gwaith cymeradwy a darparu seilwaith ategol i gefnogi'r cynigion i gaffael a gweithio mwynau o'r estyniad i'r chwarel. Nid yw'r cynnig yn cynnwys ymestyn ôl-troed y gweithrediad mwynau ei hun, ond yn hytrach, ymestyn y cyfnod o amser am 4 blynedd arall. Bydd gweithgareddau peiriannau ar y safle, prosesu, cludiant a'r gwaith o gloddio'r mwyn wedi'i gynnwys yn llwyr oddi mewn i ffiniau'r safle presennol ac yn unol â thelerau ac amodau'r cais cynllunio cyfredol.
- 1.2 Lleolir safle'r cais i'r de o Lanllyfni, gyda Pharc Cenedlaethol Eryri 1,100m i'r dwyrain ac AHNE Llŷn yn rhedeg ar hyd ffin gorllewinol y gweithfeydd sydd wedi'u hadfer. Mae'r safle presennol, gan gynnwys y cyfleuster prosesu, lagwnau a'r gweithfeydd hanesyddol sydd wedi'u hadfer yn ymestyn i oddeutu 59 hectar, ond yn ei hanfod, mae'r gwaith presennol yn cynnwys dwy brif ardal wedi'u cysylltu gan gludydd a ffordd fewnol. Mae lôn feicio Lôn Eifion i'r dwyrain, ACA a SoDdGA Cors Gyfelog i'r de ac ardal fawr o laswelltir garw, corsiog, i'r gogledd.
- 1.3 Mae cynllun adfer ac ôl-ofal i ddefnydd amaethyddol eisoes wedi'i weithredu ar gyfer y rhan fwyaf o'r safle a bydd yn parhau fel ag y mae nawr wrth i'r gyfres o weithrediadau symud tua'r gogledd. Mae'r ddau gynllun ar y safle hwn, sef y cofnodi archeolegol a'r adfer amaethyddol, wedi'u cofnodi'n dda, ond yn ychwanegol i hyn, mae'r bwriad yn cydnabod bod cyfle yma i wella cadwraeth natur a buddiannau bioamrywiaeth ar gyfer safle a lagwnau'r gwaith, ynghyd â llunio llyn yn ran mwyaf gogleddol yr hen wyneb gweithio. Mae cynlluniau'r cais yn ceisio rhesymoli y dilyniant graddol i echdynnu ac adfer y safle wrth i'r gyfres o weithrediadau symud tua'r dwyrain at ardal yr ymestyniad a ganiatwyd yn 2016 ac sy'n destun cais C20/1063/22/AC.
- 1.4 Mae ffin llinell goch y cais yr un â'r hyn a benderfynwyd yn 1996 ar gyfer y datblygiad, gan gynnwys; '*parhau â'r gweithrediadau a ganiateir, rhesymoli'r cyfleusterau'r gwaith a gwaredu dyddodion, adfer yng Nghefn Graianog ac 'ymestyn i'r ardal gwaith, ail-gyflwyno ac adfer' yn Fferm Graianog*'. Er bod hwn yn ymestyn i ryw 59 hectar, dim ond 21ha o dir gweithredol (*safle prosesu, lagwnau a wyneb dwyreiniol y gweithfeydd presennol*) sy'n parhau ar hyn o bryd o fewn ffin llinell goch y caniatâd gwreiddiol, o ystyried bod oddeutu 38ha o dir wedi'i adfer ac wedi'i dynnu allan o ôl-ofal.
- 1.5 Nid yw'r datblygiad arfaethedig felly yn unol â'r disgrifiad a'r meini prawf a nodir yn Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2017. Er hynny, mae'r datblygiad yn syrthio o fewn y disgrifiad o ddatblygiad sydd wedi'i nodi ym Mharagraff 2, Atodlen 2 y Rheoliadau (*chwareli, mwyngloddio brig a chodi mawn*) a pharagraff 13 (*unrhyw newid i neu estyniad datblygiad ble fo'r datblygiad hwnnw eisoes wedi ei awdurdodi, ei weithredu neu yn y broseso o gael ei weithredu, a gall y newid neu'r estyniad gael effeithiau andwyol ar yr amgylchedd*). Wedi sgrinio ac asesu'r bwriad yn unol â'r meini prawf datblygu dan Atodlen 3, ystyrir nad yw effaith debygol y datblygiad ar yr amgylchedd yn ddigon i gyfiawnhau cyflwyno Asesiad Effaith Amgylcheddol gyda'r cais cynllunio.

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

2. Polisiâu Perthnasol:

- 2.1 Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae'r ystyriaethau polisi yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.
- 2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r "egwyddor datblygu cynaliadwy", fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni'r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

2.3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026

Polisi Strategol PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

Polisi Strategol PS 5: Datblygu Cynaliadwy

Polisi Strategol PS 13: Darparu Cyfleoedd ar gyfer Economi Ffyniannus

Polisi Strategol PS 19: Gwarchod a lle fo'n berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol

Polisi Strategol PS 20: Cadw a ble fo'n briodol Gwella Asedau Treftadaeth

Polisi Strategol PS 22: Mwynau

POLISI AT 4 Diogelu Safleoedd Archeolegol nad ydynt wedi'u Dynodi a'u Gosodiad

POLISI AMG 1: Cynlluniau Rheolaeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

POLISI AMG 3: Gwarchod a Gwella Nodweddion a Rhinweddau sydd yn unigryw i Gymeriad y Dirwedd Leol

POLISI AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol

POLISI PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu

POLISI PCYFF 6: Cadwraeth Dŵr

POLISI MWYN 3: Datblygiadau Mwynau

POLISI MWYN 5: Cylchfeydd Rhagod o amgylch Safleoedd Mwynau

POLISI MWYN 9: Adfer ac Ôl-ofal

POLISI GWA 1: Darparu Isadeiledd Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu

Canllaw Cynllunio Atodol - Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy 2019

Canllawiau Cynllunio Atodol - Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd 2009

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

2.4 Polisiâu Cenedlaethol:

- Polisiâu, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru, Rhifyn 11 (Chwefror 2021),
- Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040,
- Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017;
- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (Medi 2009) Llywodraeth Cymru
- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11: Sŵn (Hydref 1997), Llywodraeth Cymru
- Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Hydref 2017) Llywodraeth Cymru
- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 15: Datblygu a Risg Llifogydd
- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 23: Datblygiad Economaidd (Chwefror 2014), Llywodraeth Cymru
- Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017), Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth Cymru - Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: AGREGAU (Mawrth 2004) a Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru

3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

- 3.1 Mae hanes hir o gloddio tywod a graean i'r safle hwn, hanes sy'n dyddio'n ôl i'r caniatâd cynllunio cynharaf a roddwyd ym mis Mai 1958, a cheir tystiolaeth mewn dogfennau bod y gwaith wedi cyflenwi deunyddiau ar gyfer nifer o gontractau peirianeg sifil ar raddfa fawr yn yr ardal, gan gynnwys Gorsaf Bŵer Dinorwig, Argae Stwlan a nifer o gontractau gwella ffyrdd lleol. Mae'r caniatadau isod yn benodol i ardal y cais:
- 3.2 Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r safle wedi bod yn weithredol dan ganiatâd cynllunio 2/14/16G a roddwyd ar 1af o Fawrth 1996, sydd yn cynnwys ardal brosesu Cefn Graianog a'r gwaith mwyngloddio yn Fferm Graianog. Rhoddwyd caniatâd pellach, C00D/0005/34/MW, ym mis Mai 2000 i wyro amodau 1 a 2 y caniatâd hwn i altro cyfres y gweithgareddau cloddio. Roedd y newid yma'n galluogi i'r gweithrediad gyfuno amryfal fathau o fwynau ar wyneb y gwaith i gwrdd â gofynion cynhyrchu/gwerthiant ac i resymoli y gyfres o adfer graddol.
- 3.3 **C10/0487/34/MW** - Cyflwynwyd y cais gydag Asesiad Effaith Amgylcheddol. Caniatwyd cais cynllunio yn ddarostyngedig i amodau ar 23 Awst 2011 - I amrywio amodau ar ganiatâd cynllunio presennol i ymestyn oes y gwaith mwyngloddio tan 31 Rhagfyr 2020 ac amrywio cynllun gwaith dan amodau 1 a 2 o ganiatâd cynllunio 2/14/12G a C00D/0487/34/MW.
- 3.4 **C15/0299/34/MW** Caniatwyd gydag amodau ar 22 Mehefin 2015 – Adeiladu 3 lagŵn siltio ategol a gwaith cysylltiedig i ddarparu'r capasiti angenrheidiol i alluogi gwaith mwynau sy'n parhau a darparu system gaeedig ar gyfer rheoli dŵr o'r chwarel ar y safle.
- 3.5 **C16/0816/34/MW** - Caniatwyd yn ddarostyngedig i amodau ar 18 Tachwedd 2016 - Estyniad dwyreiniol arfaethedig i echdynnu tywod a graean a gwaith adfer graddol.

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

4. Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned Clynnog: Dim gwrthwynebiad

Cyngor Cymuned Llanllyfni : Dim gwrthwynebiad

Uned Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru: Fel yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol am Gefnffordd yr A487, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfarwyddyd mewn perthynas â'r cais hwn.

Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd: Dim Ymateb

Uned Priffyrdd a Thrafnidiaeth Gwynedd: Dim gwrthwynebiad i'r cais i ymestyn yr amser.

Rheolwr AHNE Cyngor Gwynedd: Mae safle gwaith Cefn Graianog ger Bryncir ac yn agos at ffin yr AHNE. Sefydlwyd y gwaith ddegawdau yn ôl i ddarparu tywod a graean yn lleol ac yn rhanbarthol. Bu gwaith adfer effeithiol ar y safle yn ystod y blynyddoedd diwethaf sy'n lleihau yr effaith ar y dirwedd. O ystyried mai dim ond estyniad amser cyfyngedig sy'n cael ei ystyried ac nad oes unrhyw gynigion i ymestyn ardal y cais, nid oes unrhyw bryderon ynghylch yr effaith ar yr AHNE.

Ymgynghorydd Iaith Cyngor Gwynedd: Dim gwrthwynebiad i'r cais i ymestyn yr amser o safbwynt ieithyddol. Ystyrir mai effaith niwtral fyddai o gymeradwyo'r cais.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd: Nid oes unrhyw bryderon archeolegol gyda cyfnod ymestyn a ofynnir.

CADW: Dim gwrthwynebiad

Mae effaith y gweithrediad chwarelydda ar osodiad henebion cofrestredig wedi cael ei ystyried yn flaenorol ac ni fydd ymestyn y cyfnod hwn o amser ar gyfer echdynnu mwynau ac adfer y tir yn newid yr effaith.

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Hawliau Tramwy Cyhoeddus Gwynedd: Rhaid sicrhau y gofalir am lwybrau cyhoeddus rhif 42 a 42A (Clynnog) ar ôl ac yn ystod y datblygiad hwn.

Uned Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Gwynedd: Dim sylwadau ar ddraenio tir na pheryglon posib llifogydd.

Dŵr Cymru: Cydnabod bod y gwaith arfaethedig yn cael ei leoli ar ochr arall y ffordd i'n prif bibell ddŵr fyw 200mm ac felly, nid oes gwrthwynebiad mewn egwyddor i'r cais hwn. Fodd bynnag, yn unol â'r cynllun dŵr a anfonwyd eisoes, mae prif bibell ddŵr segur o fewn safle'r cais yn cael yr un parth amddiffyn â'r brif bibell ddŵr fyw. Felly, oni bai y gellir addasu ffin y cais y tu allan i lwybr y brif bibell ddŵr hon, rydym yn gofyn i'r datblygwyr gysylltu â ni gan y byddai angen gadael y brif bibell hon yn ffurfiol drwy weithred ryddhau, a'i gapio i waredu'r risg o ddŵr daear.

Parc Cenedlaethol Eryri: Dim Ymateb

Scottish Power: Dim Ymateb

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Uned Bioamrywiaeth Gwynedd: Ymgynghoriad 1af

- Mae bob un o'r tri caniatâd sy'n dal i fodoli (C10/0487/34/MW, C15/0299/34/LL, C16/0818/34/MW) wedi cael eu hasesu ar gyfer effaith sylweddol debygol dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau pan gawsant eu penderfynu. Ni ystyriwyd bod yr un o'r tri caniatâd yma yn debygol o gael effaith sylweddol ar nodweddion cadwraeth ACA Corsydd Eifionydd ac roedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno gyda'r asesiadau hyn. Nid oes unrhyw newid i'r caniatadau presennol, ac felly mae'r asesiadau blaenorol ar gyfer effaith sylweddol tebyg yn aros yr un fath ac mae'r bwriad i ymestyn amser y caniatâd yma yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ACA Corsydd Eifionydd.
- I grynhoi, ni fydd parhad y gwaith presennol yng Nghefn Graianog yn effeithio ar ACA Corsydd Eifionydd am y rhesymau isod:
 - Nid yw'r chwarel a'r gwaith cysylltiedig yn yr ACA ac nid yw ychwaith mewn cynefin tebyg sydd yn gyfagos at Gors Cyfelog. Felly, ni fydd unrhyw dir yn cael ei ddefnyddio yn yr ACA ac ni fydd unrhyw gynefin sy'n gysylltiedig â'r gors yn cael ei gollu.
 - Ni fydd hydroleg y gors yn newid.
 - Adeiladwyd system lagŵn dolen gaeedig yn y chwarel i sicrhau na fydd unrhyw lygredd yn mynd i'r gors.
- Argymhellir bod y cynlluniau adfer i'r chwarel, lagwnau ac ardaloedd prosesu yn ceisio creu cynefinoedd o werth bioamrywiaeth uchel fel porfa frwyn (brwyn blodeufain a glaswellt y gweunydd) a gweirglodd blodau gwyllt a phwll bach a chrafiadau. Mae cynefinoedd micro – fel crafiadau bach a phyllau bach ac ardaloedd o brysgwydd – o gymorth i greu mwy o amrywiaeth i fywyd gwyllt, yn arbennig infertebratau. Mae brwyn a gwair uchel yn darparu cysgod i famaliaid bach ac ymlusgiaid. Hoffem weld mwy o fanylion ar yr holl gynlluniau adfer, fel cynlluniau sy'n dangos nodweddion cynefinoedd micro (crafiadau, pyllau, prysgwydd, waliau cerrig sych ac ati) gyda rhestrau o rywogaethau i blannu (llwyni a choed) a pha hadau blodau gwyllt i'w cymysgu.
- Argymhellir y dylid creu clawdd tywod neu bridd fel nodwedd i wenoliaid y glennydd nythu..
- Mae rhywogaethau o blanhigion anffrodorol wedi eu rhestru dan atodlen 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd), ac mae hi'n drosedd i achosi iddynt dyfu yn y gwyllt. Dylid monitro holl safle'r chwarel yn rheolaidd ar gyfer rhywogaethau o blanhigion anffrodorol fel Llysiâu'r Dial, Ffromlys Chwarennog a Choed Mêl. Dylid cynnal arolwg o safle'r chwarel ar gyfer y planhigion hyn a darparu map i'r ACLI yn dangos eu lleoliad ac amcangyfrif o faint ohonynt sydd

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

yno.. Dylai'r rhywogaethau hyn gael eu tynnu yn y ffordd briodol.

2il Ymgynghoriad (Cynllun Adfer ar gyfer Safle'r Gwaith)

- Ymddengys bod y cynllun plannu yn ddigonol ar gyfer yr ardaloedd amaethyddol a'r ardaloedd creu cynefinoedd bywyd gwyllt, ond dylent hefyd geisio creu cynefinoedd o werth bioamrywiaeth uchel fel yr argymhellwyd uchod, gan gynnwys ardaloedd o borfa frwynog, pyllau bychan a chrafiadau a chreu clawdd pridd i ddarparu nodwedd nythu i wenoliaid y glennydd.

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

- Cynghori yn erbyn defnyddio chwynladdwr cemegol a dewis dull mwy naturiol o reoli chwyn,
- Rhaglen ôl-ofal ar gyfer ardaloedd creu cynefinoedd bywyd gwyllt: torri ar ôl oddeutu chwech i wyth wythnos o dwf, ac ailadrodd bob deufis drwy gydol yr haf cyntaf,
- Mae angen i'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth gynnwys targedau penodol er mwyn canfod p'un a yw'r gwaith adfer wedi llwyddo i gynnwys map cynefinoedd Cam 1 ac arolygon rhywogaethau blynyddol ar gyfer y safle cyfan.

Yr Arolygiaeth Chwareli:

Dim sylwadau gwrthwynebus i'w gwneud ar y cais hwn am estyniad amser a ganiateir i dynnu ac adfer y chwarel

Cyfoeth Naturiol Cymru:

Ymgynghoriad Iaf

Dim gwrthwynebiadau i'r cais, ond gyda'r sylwadau isod;

- O'r wybodaeth a ddarparwyd, mae CNC yn ystyried y gall y cynigion effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig Corsydd Eifionydd (ACA), Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cors Gyfelog (SSSI) a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Gyfelog (GNNR), gyda effaith bosib ar lwybrau llygredd i nodweddion y safle yma. Efallai na fydd yn golygu effaith andwyol os glywir at/gweithredir mesurau atal llygredd.
- Nid oes unrhyw asesiad o effaith sylweddol tebygol dan Reoliad 63 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 wedi ei gynnal gan eich awdurdod; neu nid yw wedi ei anfon ymlaen i CNC i'w ystyried. Os ydych yn dod i'r casgliad bod y datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol ar y safle Ewropeaidd, rydym yn edrych ymlaen i chi ail-ymgynghori gyda ni. Oherwydd absenoldeb yr asesiad yma, ni all CNC roi sicrwydd na fydd y cynigion yn golygu effaith andwyol ar ACA.
- Argymhellwn eich bod yn ymgynghori gyda eich ecolegydd ar unrhyw gyfleoedd gwella posib a'r cynnig tirwedd, rydym yn cynghori'r ymgeisydd eu bod yn gyfrifol, yn ogystal â chael chaniatâd cynllunio, am sicrhau eu bod yn cael pob hawlen/caniatâd/trwydded sy'n berthnasol i'w datblygiad. Cyfeiriwch at ein gwefan i gael rhagor o fanylion.
- Rheoli Amgylcheddol: Cynghorir yr ymgeisydd i ddilyn y canllawiau o fewn Canllawiau Atal Llygredd 5 "Works and Maintenance in or Near Water":

2il Ymgynghoriad (Asesiad HRA)

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

- Cytunwn gyda Gwynedd yn ei asesiad fel awdurdod cymwys dan Reoliad 63 o Reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 bod bwriad i ymestyn yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ACA Corsydd Eifionydd.

Llywodraeth Cymru - Polisi Priddoedd a Defnydd Tir Amaethyddol: Dim Ymateb

Cefn Gwlad a Mynediad Gwynedd: Dim Ymateb

Sustrans: Dim Ymateb

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Gosodwyd hysbysiad mewn lleoliad gerllaw'r safle ar y 7 Ionawr 2021, ac fe hysbyswyd cymdogion cyfagos drwy lythyr. Ymddangosodd hysbysiad yn y wasg leol ar 20 Ionawr 2021 ac nid oes unrhyw lythyrau yn gwrthwynebu wedi'u derbyn mewn ymateb i'r cyhoeddusrwydd statudol ar y cais.

Asesu'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

5. Egwyddor y datblygiad

- 5.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Rhifyn 11, Chwefror 2021) yn amlinellu polisi cynllunio Llywodraeth y Cynulliad o ran cloddio mwynau. Dylai pob Awdurdod Cynllunio Mwynau sicrhau bod ei gynlluniau datblygu yn caniatáu cyfrannu at gyflenwad mwynau sy'n diwallu anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- 5.2 Mae Cyngor Gwynedd, ar y cyd â holl Awdurdodau Cymru wedi cadarnhau'r Datganiad Technegol Rhanbarthol a luniwyd gan Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru sydd ar hyn o bryd yn destun ail adolygiad. Paratowyd y datganiad yn unol â darpariaethau Polisi Cynllunio Mwynau (Cymru) a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 1: Agregau (NCTM1), i osod amcan cyffredinol i sicrhau cyflenwad o agregau y mae modd ei reoli'n gynaliadwy; "*... fel y gellir cael y cydbwysedd gorau rhwng ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, a sicrhau bod effeithiau ar yr amgylchedd ac ar fwynderau sy'n deillio o unrhyw waith cloddio angenrheidiol yn cael eu cadw ar lefel sy'n osgoi achosi niwed amlwg i fuddion o bwysigrwydd cydnabyddedig*". Prif ddiben y Datganiad Technegol Rhanbarthol yw amlinellu'r strategaeth ar gyfer darparu'r agregau yn rhanbarth gogledd Cymru.
- 5.3 Mae'n asesu gallu amgylcheddol pob awdurdod i gyfrannu at gyflenwad digonol o agregau crai. Mae'n ofynnol bod y Cyngor, fel Awdurdod Cynllunio Mwynau, yn cynnal banc tir o fwynau agregau wrth gefn a ganiatawyd yn unol â'r canllawiau cyfredol sy'n nodi lleiafswm o saith mlynedd ar gyfer tywod a graean. Ers cyhoeddi'r Adolygiad RTS cyntaf, mae lefel gyffredinol yr agregau wrth gefn a ganiatawyd yng ngogledd Cymru wedi gostwng.

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

- 5.4 Mae'r dyraniad ar gyfer tywod a graean yng Ngwynedd yn dilyn yr Ail Adolygiad RTS wedi ei gyfrif i fod yn 3,834 miliwn tunnell. Ar hyn o bryd mae'r tywod a'r graean sydd wrth gefn yn 1.175 miliwn tunnell, yn cynnwys gwaith Llecheiddor Uchaf, Penygroes a'r estyniad presennol yng Ngraianog ac yn annigonol i ddarparu'r banc tir 7 mlynedd llawn ar ddiwedd cyfnod y cynllun. Mae'r RTS felly yn cydnabod bod diffyg tywod a graean ar gyfer dyraniadau yng Ngwynedd sydd yn gyfanswm sy'n lleiafswm o **2.659** miliwn tunnell angen ei adnabod yn yr adolygiad arfaethedig o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'r ffigwr yma yn ystyried y symiau o dywod a graean a ganiateir wrth gefn y gellid eu mantoli yn erbyn y gofynion dyraniad.
- 5.5 Ymysg amcanion eraill, mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod bod gweithio mwynau yn wahanol i ffurfiau eraill o ddatblygu gan mai dim ond mewn manau lle canfyddir y mwyn y gellir ei gloddio ac mae'r datblygiad yn drosiannol ac ni ellir ei ystyried fel defnydd tir parhaol er y gall y gwaith ddigwydd dros gyfnod hir o amser. Caiff y deunydd a gloddir yn y chwarel ei ddefnyddio'n uniongyrchol mewn cynnyrch adeiladu, gwaith amddiffyn rhag y môr, a choblau addurniadol, ond yn bennaf i gyflenwi storfeydd manwerthu concriid sydd wedi'i gymysgu'n barod, a hynny drwy ogledd-orllewin Cymru gan gynnwys y Parc Cenedlaethol, Ynys Môn a rhannau o Gonwy.
- 5.6 Bydd parhau i gloddio am dywod a graean yng Nghefn Graianog yn sicrhau bod y Cyngor yn diwallu ei oblygiadau dyraniad yn yr RTS, i gyflenwi mwynau ar gyfer is-ranbarth Gogledd Cymru a chadw banc tir saith mlynedd o dywod a graean. Ychydig o gronfeydd tywod a graean a ganiateir sydd ar gael yng Ngogledd Orllewin Cymru a bydd y cynnig hwn yn sicrhau cyflenwad hanfodol o dywod a graean i'r economi adeiladu leol. Bydd hyn yn lleihau'r angen i fewnforio deunyddiau o'r tu allan i Wynedd, gan felly gadw costau ac allyriadau carbon ar eu hisaf.
- 5.7 Er bod y safle wedi'i leoli oddeutu rhwng dynodiadau AHNE a'r Parc Cenedlaethol, nid oes unrhyw ddynodiadau tirwedd neu amgylcheddol oddi fewn neu yn agos at ffin y cais. Yn amodol i ystyriaeth yr holl ystyriaethau cynllunio materol eraill, ystyrir bod y datblygiad yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi Mwynau Strategol PS22 a Pholisi MWYN 3 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026 gan roi ystyriaeth i bolisi cenedlaethol cyfredol ar gyfer cynnal banc tir o fwynau wrth gefn yn unol â'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn NCTM1 (Cymru) Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol. Ymhellach, ni ystyrir y bydd y cynnig i barhau â'r gweithrediadau mwynau yng Nghefn Graianog yn peryglu'r goblygiadau diogelu ar gyfer safleoedd gwastraff posib dan bolisi GWA 1.
- 5.8 Yn ogystal â'r egwyddor am yr angen am y datblygiad, mae'r materion cynllunio hanfodol yn yr achos hwn yn cael sylw isod:
- Mwynderau Gweledol**
- 5.9 Nid yw'r safle ei hun yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau tirwedd cenedlaethol neu leol megis Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol neu Ardaloedd Tirwedd Arbennig fel y diffinnir yn y cynllun datblygu lleol. Fodd bynnag, mae'r safle wedi'i leoli'n gyfagos i AHNE Llŷn gyda Pharc Cenedlaethol Eryri wedi'i leoli oddeutu 1,100m i'r dwyrain o safle'r gwaith yn ei bwynt agosaf.
- 5.10 Lleolir y chwarel i gyd yn Ardal Cymeriad y Dirwedd (ACD) Canol Llŷn sydd yn fras yn ymwneud â'r llwyfandir canolog uwchben y gyfuchlin 50m. Mae tirlun o ddiddordeb hanesyddol eithriadol Nantlle wedi ei leoli tua 1000m i'r gogledd ddwyrain o'r chwarel bresennol ac ni ystyrir y bydd y bwriad yn effeithio ar natur a ffabrig hanesyddol y dynodiad tirlun yma na phwysigrwydd

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

diwylliannol yr ardaloedd chwareli llechi. Er hynny, mae mwyngloddio wedi ac yn parhau i effeithio ar y dirwedd leol ac mae hanes o ymelwa masnachol o adnoddau tywod a graean yn ACD Canol Llŷn am fwy na 60 mlynedd. Mae'r ardal cymeriad yn ffurfio rhagod rhwng AHNE Llŷn i'r gorllewin a Pharc Cenedlaethol Eryri i'r dwyrain ac mae ei nodweddion allweddol wedi eu diffinio yn CCA Gwynedd (Ardal Cymeriad y Dirwedd Tachwedd 2009) fel;

- Yn gyffredinol, mae'n ardal homogenaidd wedi'i gwahanu gan fryniau amlwg megis Mynydd Cennin a'r Foel a lle mae'r tirffurf wedi'i ddominyddu gan effaith dyddodion rhewlifol.
- Yn ei hanfod, mae'n ardal amaethyddol ei natur, gyda phlanhigfeydd coedwigaeth mawr megis Bwlch Derwin,
- Elfennau hanesyddol, gan gynnwys nodweddion cyn-hanesyddol a chanoloesol, er eu bod yn aml wedi'u hynysu o fewn y llociau mwy sy'n dyddio i'r 19 Ganrif.

5.11 Mae'r ardal weithredol bresennol gan gynnwys y safle prosesu, lagwnau, y wyneb gweithio a'r coridor trafndiaeth yn mesur oddeutu 21 hectar. Mae'r datblygiad ar y cyd gyda'r ardal estynedig ar gyfer ennill a gweithio tywod a graean a'r system rheoli dŵr yn mesur oddeutu 29ha ac mae ganddo'r potensial am effeithiau cronus arwyddocaol ar olygfeydd i mewn ac allan o AHNE Llŷn a'r Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, y nodwedd gweledol mwyaf amlwg yw safle'r gwaith fel y'i gwelir oddi ar Gefnffordd gyfagos yr A487, er bod effeithiau o'r fath yn cael eu lliniaru i raddau gan gyfnod gwaith cyfyngedig (4 blwyddyn ychwanegol) ar cynllun graddol o echdynnu ac adfer sy'n tynnu at ei derfyn.

5.12 Mae gweithio tywod a graean yn gymharol ddeinamig o'i gymharu â chloddio am graig galed gan fod cronfeydd yn gyffredinol ar gael dan dir amaethyddol ac efallai y byddant yn cael eu gweithio yn gymharol sydyn gyda pheiriant turio. O ganlyniad, mae'r awdurdod cynllunio mwynau angen gwaith adfer cynyddol i fantoli yn erbyn colli mwynderau a thir cynhyrchiol i liniaru effaith gwaith o'r fath. Hyd yma mae safleoedd sydd wedi eu gweithio wedi eu hadfer yn effeithiol i'w defnydd gwreiddiol, yn bennaf amaethyddiaeth, ac maent yn awr yn cyd-fynd â'r ardal oddi amgylch. Mae oddeutu 38ha o dir o fewn ffin y llinell goch wedi'i adfer a'i dynnu allan o ôl-ofal ers i'r caniatâd gael ei roi yn 1996. Pan ymwelwyd ag ardal yr hen lagŵn deheuol yn ddiweddar, canfuwyd bod y cysyniad o adfer y safle i dir pori garw wedi cyflawni'r amcan i raddau helaeth, ond hefyd, mae safle'r offer wedi'i leoli mewn lleoliad amlwg ger SoDdGA ac ACA, a bydd y math o adfer a wneir, a'i ansawdd, yn chwarae rhan bwysig yn edrychiad hirdymor yr ardal i'r dyfodol. Mae'r cynigion adfer ar gyfer y gwaith yn cynnwys cynefin bywyd gwyllt a phorfa wyllt i ategu'r ardaloedd sydd eisoes wedi'u hadfer.

5.13 Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cadarnhaodd rheolwr yr AHNE; bu gwaith adfer effeithiol ar y safle yn ystod y blynyddoedd diwethaf sy'n lleihau yr effaith ar y dirwedd. O ystyried mai dim ond estyniad amser cyfyngedig sy'n cael ei ystyried ac nad oes unrhyw gynigion i ymestyn ardal y cais, nid oes unrhyw bryderon ynghylch yr effaith ar yr AHNE.

5.14 O fewn cyd-destun cyffredinol safle presennol y Chwarel, mae'r dirwedd a'r newidiadau i'r dirwedd sydd wedi'u hadnabod yn cael lefel gyfyngedig o effaith ac ni fyddai ymestyn yr amserlen ar gyfer parhau gyda gweithrediadau'r chwarel am 4 blwyddyn ychwanegol yn arwain at unrhyw lefelau mawr o effaith weledol. Felly, ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol mewn egwyddor, o ran bod y datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi Strategol PS 19: Gwarchod a lle bo'n berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol a Pholisïau AMG 3, AT 1, MWYN 3 a MWYN 9 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Bioamrywiaeth

- 5.15 Saif y chwarel rhwng dau safle dynodedig sy'n ffurfio rhan o ACA Corsydd Eifionydd; Cors Gyfelog i'r de o'r lagwnau deheuol blaenorol a Chors Llanllyfni 1.5km i'r gogledd. Y prif faterion a godwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y cais EIA blaenorol C10D/0487/34/MW, oedd y risg bosib o lygredd silt yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd Cors Gyfelog. Wrth wneud penderfyniad ar y cais, cyflwynwyd gwybodaeth a chynigion pellach i ymdrin â phryderon Cyngor Cefn Gwlad Cymru gynt ynghylch y posibilrwydd o lygredd silt. Roedd CCGC yn fodlon bod modd i'r rhaglen o fesurau lliniaru arfaethedig gael eu gweithredu i osgoi effeithiau andwyol ar yr ACA, y Warchodfa Natur Genedlaethol a'r SoDdGA. Yn ogystal, byddai adeiladu system rheoli dŵr 'lŵp caeedig' dan ganiatâd cynllunio C15/0299/34/MW, yn atal y system rhag gorlwytho yn ystod cyfnodau o lawiad parhaus a chyson ac yn gostwng ymhellach y risg y bydd llifogydd cyflym yn digwydd, gan arwain at y posibilrwydd o ddŵr ffo llygredig yn effeithio ar SoDdGA ac ACA Cors Gyfelog.
- 5.16 Mewn ymateb i ymgynghoriad ar y profion effeithiau arwyddocaol tebygol ar y safle dynodedig Ewropeaidd, mae CNC yn cytuno ag asesiad yr awdurdod cynllunio lleol dan Reoliad 63 y Rheoliadau Cynefinoedd 2017 nad oedd parhau â'r gweithrediadau chwarelydda yng Ngraianog yn cael ei ystyried yn rhywbeth fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar nodweddion cadwraeth ACA Corsydd Eifionydd. Mae CNC yn argymhell ymhellach y dylid ymgynghori â swyddog bioamrywiaeth yr awdurdod ar unrhyw gyfleoedd a chynigion i wella'r dirwedd/tirlunio.
- 5.17 Y prif bryder yw triniaeth derfynol yr ardal brosesu a'r lagwnau gweithredol gan ei bod yn debygol mai'r rhain yw'r mwyaf amlwg o'r nodweddion gweddilliol ar adeg pan fydd y gweithrediadau a ganiateir yn dod i ben. Dylai'r gwaith o drin unrhyw ddeunydd gweddilliol (silt) wedi i'r gweithgareddau ddod i ben yn derfynol fod wedi'i gysylltu'n agos â'r amcanion adfer ac i greu ffurf tir all ddarparu'r amgylchiadau gorau i gynefinoedd bywyd gwyllt. Yn ogystal, mae adfer terfynau'r caeau gafodd eu had-ennill wrth dynnu'r waliau carreg presennol yn elfen hanfodol o'r cynllun adfer sydd yn nodwedd drawiadol o'r chwarel bresennol. Mae nodweddion o bwysigrwydd hanesyddol yn y dirwedd leol yn ogystal â safleoedd gaeafgysgu ymlusgiaid, safleoedd nythu adar magu a chynefin cennau.
- 5.18 Mewn ymateb, cadarnhaodd Bioamrywiaeth Gwynedd y dymunai weld mwy o fanylder ar gynigion adfer, megis cynlluniau sy'n dangos nodweddion microgynefinoedd (crafiadau, pyllau, sgrwb, waliau cerrig sych), i gynorthwyo i greu mwy o amrywiaeth i fywyd gwyllt, yn benodol infertebratau gyda rhestrau rhywogaethau ar gyfer plannu (llwyni a choed) a blodau gwyllt ar gyfer cymysgedd hadau, brwyn a glaswellt tal i roi lloches i famaliaid ac ymlusgiaid bychan. Dylid monitro safle'r chwarel yn rheolaidd ar gyfer rhywogaethau o blanhigion anffrodorol fel Llysiau'r Dial, Ffromlys Chwarennog a Choed Mêl.
- 5.19 Cyflwynwyd manylion diwygiedig i gefnogi'r cynigion adfer ar gyfer safle'r gwaith a'r lagwnau ac mewn ymateb i ymgynghoriad, mae Bioamrywiaeth Gwynedd yn cadarnhau bod y cynllun plannu yn ymddangos i fod yn ddigonol ar gyfer yr ardaloedd amaethyddol a'r ardaloedd creu cynefinoedd bywyd gwyllt. Fodd bynnag, maent yn gofyn i'r cynllun hefyd fynd ati i geisio creu cynefinoedd o werth bioamrywiaeth uchel fel yr argymhellir uchod, gan gynnwys ardaloedd o borfa frwynog, pyllau bychan a chrafiadau a chreu clawdd pridd i ddarparu nodwedd nythu i wenoliaid y glennydd. Mae Bioamrywiaeth Gwynedd hefyd yn cynghori yn erbyn defnyddio chwynladdwr cemegol, ynghyd â chynigion ar gyfer torri a rheoli ardaloedd cynefinoedd bywyd gwyllt a monitro, rheoli a gwaredu planhigion anffrodorol.

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

- 5.20 Gellid amodi gofynion o'r fath yn y cynllun ôl-ofal i gynnwys cyfarfodydd blynyddol i asesu'r cynnydd gydag adfer. Mae'r awdurdod cynllunio mwynau eisoes yn cynnal cyfarfodydd ôl-ofal blynyddol gydag Adran Tir, Natur a Choedwigaeth Llywodraeth Cymru ar y cynllun adfer amaethyddol ac fe ellir trefnu'r un peth â Bioamrywiaeth Gwynedd i adfer cynefinoedd o werth bioamrywiaeth uchel. Byddai hyn yn agwedd mwy pragmatig tuag at ôl-ofal, yn hytrach na chyflwyno arolygon rhywogaethau blynyddol gan y gellir asesu ardaloedd penodol i ganfod p'un a yw'r gwaith adfer wedi bod yn llwyddiannus a p'un a oes angen unrhyw waith neu driniaeth bellach yn ystod y cyfnod ôl-ofal. Gellid cynhyrchu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, map Cynefinoedd Cam 1 ac arolwg rhywogaethau ar ddiwedd y cyfnod ôl-ofal i ddarparu strategaeth rheoli amlinellol hirdymor ar gyfer y safle.
- 5.21 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cytuno â Bioamrywiaeth Gwynedd o ran yr effeithiau posib ar fioamrywiaeth lleol, a gellir casglu felly na fydd y datblygiad yn arwain at golli cynefin gwarchoddedig, rhywogaethau gwarchoddedig nac yn addasu hydroleg yr ACA. Mae'r cynigion adfer yn cynnwys gwella bioamrywiaeth ac felly mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi Strategol PS 19, Polisi AMG 3, AMG 5, PCYFF 6, MWYN 3 a MWYN 9 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

Hydroleg

- 5.22 Mae corff dŵr wedi bodoli yn wyneb gogleddol gweithfeydd y chwarel am sawl blwyddyn, sy'n cynnwys dŵr wyneb a gasglwyd o ardaloedd wedi'u hadfer ac sy'n weithredol ar hyn o bryd. Bydd y corff dŵr hwn yn hunan-reoleiddio heb unrhyw allfa a bydd yn cael ei gadw a'i ymestyn yn unol a'r cynigion adfer a nodir ar gynlluniau'r cais. Nid yw'n ymddangos bod y trefniadau presennol i ddarparu ardal weithredol ategol i gael mynediad at y gronfa fwynau wedi effeithio ar y nodwedd gwlypdir i'r gogledd ond mae gwyrō'r dŵr wyneb ffo o'r estyniad arfaethedig a'i effeithiau ar nant ac ardal o wlypdir i'r gogledd, wedi cael ei asesu eisoes fel rhan o gais 2016. Rhyddhawyd y cynllun Monitro Hydrolegol yn ffurfiol dan amod 36 y caniatâd hwnnw ar 7 Ionawr 2020, gyda chymeradwyaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ac Uned Draenio Tir Gwynedd.
- 5.23 Bydd yr ardal weithio, yr ardal bentyrro a'r lagwnau yn parhau i weithredu yn unol â Chaniatâd Amgylcheddol ac yn defnyddio'r system rheoli dŵr 'lŵp caeedig' fel y cymeradwywyd dan ganiatâd cynllunio C15/0299/34/MW, ac sy'n destun cais cysylltiedig am amserlen wedi'i hymestyn am 4 blynedd.
- 5.24 Ni chafwyd unrhyw sylwadau na phryderon yn ymwneud â draenio neu risg llifogydd mewn ymateb i'r ymgynghoriad gyda Chyfoeth Naturiol Cymru neu Uned Risg Llifogydd a Draenio Tir Gwynedd ac felly ystyrir na fydd gan y bwriad effaith andwyol ar yr amgylchedd dŵr lleol (POLISI PCYFF6). Mae materion a fyddai fel arall yn destun caniatâd gollwng ar wahân neu Drwydded Amgylcheddol wedi eu rhestru yn yr adroddiad hwn a byddant yn cael eu dwyn i sylw'r datblygwr drwy 'nodyn i'r ymgeisydd' a gyflwynir gyda'r caniatâd cynllunio, ond ni fyddant i'w gweld yn y rhestr o amodau cynllunio sy'n atodol i'r hysbysiad penderfyniad ei hun. Mae'r cynigion adfer yn cynnwys gwella bioamrywiaeth ac felly mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi Strategol PS 19, Polisi AMG 3, AMG 5, a MWYN 3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

- 5.25 O ran asedau Dŵr Cymru, mae ymateb yr ymgynghoriad yn cydnabod bod y gwaith arfaethedig wedi'i leoli ar yr ochr arall i'r ffordd i'w prif bibell ddŵr fyw 200mm ac felly nid oes gan Ddŵr Cymru unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i'r cais hwn. Fodd bynnag, mae prif bibell ddŵr segur o fewn safle'r cais yn cael yr un parth amddiffyn â'r brif bibell ddŵr fyw. O ystyried bod chwarelydda yn y rhan hon o'r chwarel wedi dod i ben a'r tir wedi cael ei adfer ers hynny, bydd copi o'r ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei atodi i'r hysbysiad penderfyniad drwy gynghori'r datblygwyr i gysylltu â Dŵr Cymru, gan y byddai angen gadael y brif bibell yn segur yn ffurfiol drwy weithred ryddhau, a'i gapio i waredu'r risg o ddŵr daear.

Treftadaeth Ddiwylliannol

- 5.26 Mae'r ardal yn un sy'n adnabyddus fel un sy'n gyfoethog o olion archeolegol, gyda nifer o safleoedd wedi'u cloddio ger yr ardal echdynnu. Mae'r rhaglen waith archeolegol yng Ngraiianog wedi'i datblygu mewn ymgynghoriad â Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd ac mae wedi'i gweithredu gyda llawer o lwyddiant, gan arwain at rai canlyniadau diddorol ac mae wedi addasu'r dehongliad a'r dealltwriaeth o'r dirwedd leol.
- 5.27 Mae'r rhaglen hon yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer gwaith archeolegol ac mae wedi derbyn sylw yn yr atodlen o amodau cynllunio sy'n cynnwys cofnod cynhwysfawr o adroddiadau ôl-echdynnu ers i'r caniatâd cynllunio fod yn weithredol. Nid oes gan CADW unrhyw wrthwynebiad o ystyried bod effaith y gweithrediad chwarelydda ar osodiad henebion cofrestredig wedi cael ei ystyried yn flaenorol ac ni fydd ymestyn y cyfnod hwn o amser ar gyfer echdynnu mwynau ac adfer y tir yn addasu'r effaith.
- 5.28 Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd yn cadarnhau nad oes unrhyw bryderon archeolegol gyda'r estyniad gofynnol ac felly, mae'r datblygiad yn cydymffurfio â gofynion Polisi AT 4 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026, (*diogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi a'u gosodiad*).

Mwynderau cyffredinol a phreswyl

- 5.29 Mae parhad arfaethedig y gweithrediadau am 4 blynedd ychwanegol, yn ôl ei natur, yn debyg i'r dulliau echdynnu a symud peiriannau sydd wedi bod yn weithredol ar y safle am sawl blwyddyn ac sydd wedi bod yn destun rheoliadau amgylcheddol drwy amodau cynllunio, neu hawlenni wedi'u cyflwyno dan gylch gorchwyl arbenigol Asiantaeth yr Amgylchedd.
- 5.30 Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru a NCTM1: Agregau wedi sefydlu'r egwyddor o gylchfeydd rhagod o amgylch safleoedd echdynnu mwynau, ble mai'r amcan yw amddiffyn defnyddiau tir sydd fwyaf sensitif i effaith gweithrediadau mwynau drwy sefydlu pellter gwahanu rhwng defnyddiau tir a allai fod yn gwrthdaro. Caiff datblygiad sensitif ei ddiffinio yn NCTM1 fel; "*any building occupied by people on a regular basis and includes housing areas, hostels, meeting places, schools and hospitals where an acceptable standard of amenity is expected*". Diffinnir cylchfa ragod o ymyl allanol yr ardal weithredol, gan gynnwys ffyrdd cludo safle a lagwnau. Mae NCTM1 yn argymhell pellter o 100 metr o leiaf ar gyfer gweithfeydd tywod a graean ac eraill lle na chaniateir ffrwydro. Mae un eiddo wedi'i leoli o fewn cylchfeydd rhagod o 100m a weithredir dan bolisi MWYN 5 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. Er hynny, nid oes llawer o enghreifftiau o gwynion yn ymwneud ag effeithiau sŵn, llwch neu oriau gweithio gan yr awdurdod cynllunio mwynau.

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

- 5.31 Mae'r cais yn cynnig yr un amodau gweithio â'r rhai presennol, gan gynnwys rheoli sŵn, llwch ac oriau gweithio ac ychydig o enghreifftiau sydd lle mae'r awdurdod cynllunio wedi derbyn cwynion. Y dasg o lwytho'r hopran a'r cludwr yw'r ffynhonnell sŵn mwyaf ymwithiol yn y wyneb gweithio gan bod peiriannau'r gwaith yn gweithredu mewn safle uwch mewn perthynas â lefel y tir o amgylch. Dylid gosod larymau sŵn gwyn i gerbydau a pheiriannau'r chwarel i leihau ar unrhyw darfu.
- 5.32 Ystyrir felly, yn ddarostyngedig i amodau priodol i reoli effeithiau sŵn a llwch ac oriau gweithio, na fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r ardal ac felly mae'n cydymffurfio â pholisi PCYFF 2, MWYN 3 a MWYN 5 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

Materion traffig a mynediad

- 5.33 Mae manylion y cais yn cadarnhau bod y chwarel yn allforio cyfartaledd o 90,000 tonnall y flwyddyn a byddai'r estyniad arfaethedig yn sicrhau cyflenwad o ddeunydd hyd at fis Rhagfyr 2024. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cadarnhaodd Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth Cyngor Gwynedd nad oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad.
- 5.34 Mae'r fynedfa i Gefnffordd yr A487 o ansawdd derbynol a bydd traffig yn cael mynediad i'r safle ar hyd rhan fer o Ffordd Ddi-ddosbarth. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cadarnhaodd awdurdod priffyrdd Llywodraeth Cymru nad oedd yn bwriadu cyflwyno cyfarwyddyd mewn perthynas â'r cais hwn.
- 5.35 Felly, ystyrir bod y rhwydwaith ffyrdd presennol o ansawdd digonol i ymdrin â llif y traffig a ddisgwylir o ddatblygiad y safle, ac felly, mae'n cydymffurfio â Pholisi TRA 4 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

- 5.36 Nid oes unrhyw lwybrau cyhoeddus na hawliau tramwy yn cael eu heffeithio gan y cynnig ac felly nid oes gofyn gwneud unrhyw ddarpariaeth am orchmynion cau neu wyro penodol. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, nododd swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd y dylid gofalu am lwybrau 42 a 42A yn ystod y datblygiad hwn ac wedi hynny.

Materion cynaliadwyedd

- 5.37 Mae'r adroddiad hwn wedi asesu materion cynaliadwyedd y cais yn unol â'r nod o ddatblygu cynaliadwy yn unol â saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i sicrhau bod cyrff cyhoeddus i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth o Gymru gynaliadwy.
- 5.38 Fel Awdurdod Cynllunio Mwynau, mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod adnoddau mwynau'n cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy, fel y gallant gyfrannu'n briodol at ofynion deunyddiau adeiladu'r ardal. Mae gan Wunedd hanes hir o gloddio mwynau, ac mae'n parhau i fod yn rhan bwysig o'i gwead economaidd a chymdeithasol. Yng ngogledd Cymru ceir tomennydd helaeth o amrywiaeth o ddeunyddiau sy'n addas i'w defnyddio: creigiau igneidd, tywod a graean a cherrig calch yn benodol. Mae'r cais hwn yn ceisio sicrhau parhad gweithrediad y cyfleuster i gefnogi echdyniad cronfa fwynau a ganiateir lle mae dyddodion hysbys o dywod a graen i'w cael.

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Yr Economi

- 5.39 Mae Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd, yn datgan: wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gadw mewn cof bod defnydd busnes traddodiadol, dosbarthiadau B1–B8 ond yn cyfrif am ran o'r gweithgaredd yn yr economi. Mae'n bwysig bod y system gynllunio yn cydnabod agwedd economaidd pob datblygiad ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio mewn modd cynaliadwy sy'n cadw cydbwysedd rhwng ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'n datgan ymhellach; Dylai awdurdodau cynllunio lleol gydnabod arwyddion y farchnad a rhoi sylw i'r angen i dywys datblygiad economaidd i'r lleoliadau mwyaf addas yn hytrach na rhwystro neu atal y fath ddatblygiad.
- 5.40 Mae'r datblygiad yn cynnig isadeiledd chwarel ychwanegol i ategu'r systemau rheoli dŵr presennol ac felly bydd yn cynorthwyo i gynnal swyddi llawn-amser i staff y safle sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol ac anuniongyrchol o ganlyniad i weithrediadau y chwarel. Yn ogystal, mae tywod a graean yn hanfodol ar gyfer yr economi adeiladu leol ac mae cael ffynhonnell leol yn cadw costau ynghyd ag allyriadau carbon i lawr.
- 5.41 Bydd y cynnig yn cynorthwyo i gynnal 13 o swyddi llawn-amser i staff y safle, wedi'i gyflogi'n uniongyrchol ac anuniongyrchol o ganlyniad i'r gweithrediadau presennol yng Ngraiianog, Porth Penrhyn a Stad Ddiwydiannol Llandygai. Yn fwy na hyn, mae cadw gweithwyr lleol yn cael effeithiau positif ar ddiwylliant, ac yn fwy penodol, ar statws y Gymraeg yn yr ardal.
- 5.42 Felly, mae'n debygol y bydd y bwriad yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i economi'r ardal yn unol â Pholisi Strategol PS 13 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn i ddarparu cyfleoedd am economi ffyniannus, ynghyd â Chanllaw Cynllunio Atodol Gwynedd, Cynllunio a'r Iaith Gymraeg, Tachwedd 2009.

Yr Iaith Gymraeg

- 5.43 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ymdrin â phwysigrwydd y Gymraeg wrth gyflawni ei amcanion cynaliadwyedd i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
- 5.44 Cyflwynwyd Datganiad Iaith gyda'r cais yn unol â Pholisi PS1 o'r Cynllun Datblygu Lleol a'r canllawiau Cynllunio perthnasol; 'Cynnal a Chreu Cymunedau Unigryw a Chynaliadwy 2019'. Mae Polisi PS 1 (Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig) a Pholisi PS 5 (Datblygiad Cynaliadwy) yn ceisio hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ardal y Cynllun a helpu i gefnogi a gwella'r amodau sy'n sicrhau cymunedau cynaliadwy a ffyniannus.
- 5.45 Mae'r datganiad iaith yn asesu effaith y datblygiad arfaethedig ar gymunedau ac yn adnabod mesurau fydd yn ai yn lliniaru'r effeithiau negyddol neu'n gwarchod / gwella / lledaenu effeithiau cadarnhaol. Mae Gwynedd yn cynnwys y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (65.4% o bobl dros 3 oed yn medru siarad Cymraeg; y ffigwr cenedlaethol ar draws Cymru gyfan yw 19%). O gymharu â Chyfrifiad 2001, mae hyn wedi cwmpo rhywfaint (5.2%) o 69%. Yn ward Llanllyfni, gall 75.5% o'r boblogaeth 3 oed a throsodd siarad Cymraeg, sydd fel y Sir wedi cwmpo rhywfaint ers Cyfrifiad 2001 (cwmp o 2.1% o 79.9%). Fel y cyfryw, gellir gweld bod y gyfran o'r boblogaeth a all siarad Cymraeg yn y ward yn uwch na'r ffigwr ar gyfer y sir yn ei chyfanrwydd. Yn ogystal â hyn, nid yw'r dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ward mor fawr â'r sir gyfan.

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

- 5.46 Bydd y cais hwn yn sicrhau parhad gwaith presennol lle mae'r gweithlu presennol eisoes yn dod o'r ardal leol. Gall y gweithlu cyfan siarad Cymraeg ac felly mae'r datblygiad yn debygol o gynnal siaradwyr Cymraeg yn y gymuned leol, fydd yn defnyddio'r iaith yn y gweithle.
- 5.47 Bydd y bwriad yn cynnal cyfleoedd cyflogaeth lleol ac fe ragwelir bydd ganddo effaith bositif fach ar y Gymraeg yn y gymuned. Hefyd, ni fyddai unrhyw bwysau yn cael ei roi ar wasanaethau lleol. Yn gyffredinol felly, mae datganiad yr iaith Gymraeg yn dod i'r casgliad, o ran parhad busnes sefydledig, na ystyrir bod camau lliniaru pellach yn angenrheidiol i hyrwyddo neu wella defnydd o'r iaith Gymraeg.
- 5.48 Nid oes gan yr ymgynghorydd iaith unrhyw wrthwynebiad i'r cais i ymestyn y cyfnod amser o safbwynt ieithyddol. Ystyrir mai effaith niwtral fyddai o gymeradwyo'r cais. Ystyrir bod y datblygiad yn cydymffurfio â pholisi PS 1 a PS 5 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

6. Casgliadau:

- 6.1 Mae angen asesu cynnig am 4 blynedd ychwanegol i gwblhau'r gwaith echdynnu ac adfer y chwarel yn raddol i barhau i brosesu a dosbarthu cynnyrch chwarel, yn erbyn meini prawf polisi cynllunio ac mae'r awdurdod wedi ymgynghori ar y cais hwn i ganfod effeithiau posib y datblygiad. Mae'r cyflwyniad yn ymdrin â'r ystyriaethau cynllunio materol wrth asesu effaith y datblygiad arfaethedig.
- 6.2 Mae'n annhebygol y bydd unrhyw newid amlwg yn amodau gweithio'r safle na newid i effaith weledol y gwaith ac ni fydd y datblygiad yn tynnu oddi wrth nodweddion cadarnhaol y dirwedd na'r elfennau hynny sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw y Parc Cenedlaethol, neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn. Bydd parhau â'r cynllun echdynnu ac adfer graddol yn lliniaru yn erbyn effaith y gweithfeydd mwynau ar osodiad y Parc Cenedlaethol, AHNE Llŷn, ynghyd ag Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd lleol yn unol â pholisi PS 19, AMG 3, AT 1, MWYN 3 a MWYN 9 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.
- 6.3 Nid oes unrhyw faterion polisi cynllunio sy'n ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, ac mae'r materion sy'n ymwneud â rheolaethau sŵn, llwch ac amgylcheddol bellach yn hen faterion ar y safle hwn a nifer fechan iawn o gwynion a anfonwyd i sylw'r awdurdod cynllunio mwynau. Ystyrir felly, yn ddarostyngedig i amodau priodol i reoli effeithiau sŵn a llwch ac oriau gweithio, na fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r ardal ac felly mae'n cydymffurfio â pholisi PCYFF 2, MWYN 3 a MWYN 5 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.
- 6.4 Mae'r datblygiad yn dderbyniol mewn egwyddor a byddai'n cyfrannu at seilwaith y prif gronfeydd tywod a graean yng Ngwynedd ac mae'n cydymffurfio â gofynion polisi cynllunio mwynau rhanbarthol a lleol. Mae'n cydymffurfio â gofynion polisi cynllunio mwynau rhanbarthol a lleol ac yn cydymffurfio â meini prawf cynaliadwyedd Polisi PS 22 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026, o ystyried polisi cenedlaethol cyfredol ar gyfer cynnal banc tir o gronfeydd mwynau yn unol â'r canllawiau yn NCTM1 (Cymru) Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol. Yn ogystal, mae'n debygol y bydd y bwriad yn gwneud cyfraniad positif i economi'r

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

ardal yn unol â Pholisi Strategol PS 13 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026.

- 6.5 Mae'r safle wedi'i leoli yn gyfagos i ACA Corsydd Eifionydd, SoDdGA Cors Gyfelog a'r Warchodfa Natur Genedlaethol. Mewn ymateb i ymgynghoriad ar y profion effeithiau arwyddocaol tebygol ar y safle dynodedig Ewropeaidd, mae CNC yn cytuno ag asesiad yr awdurdod cynllunio lleol dan Reoliad 63 y Rheoliadau Cynefinoedd 2017 nad oedd parhau â'r gweithrediadau chwarelydda yng Ngraianog yn cael ei ystyried yn rhywbeth fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar nodweddion cadwraeth ACA Corsydd Eifionydd. Mae'r cynigion felly'n cydymffurfio gyda gofynion Polisi Strategol PS 19, Polisi AMG 3, AMG 5, PCYFF 6, a MWYN 3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.
- 6.6 Ni chafwyd unrhyw sylwadau na phryderon yn ymwneud â draenio neu risg llifogydd mewn ymateb i'r ymgynghoriad gyda Chyfoeth Naturiol Cymru neu Uned Risg Llifogydd a Draenio Tir Gwynedd ac felly ystyrir na fydd gan y bwriad effaith andwyol ar yr amgylchedd dŵr lleol (POLISI PCYFF6). Mae amod ar y cais cynllunio gwreiddiol a ganiatawyd oedd yn gofyn am fesurau i gael eu cymryd i warchod cyrsiau dŵr, nentydd a gwlypdiroedd sy'n codi'n uniongyrchol i'r gogledd o ardal y datblygiad rhag difrod posib yn sgil gweithrediad y chwarel, wedi'i rhyddhau'n ffurfiol.
- 6.7 Mae cynllun adfer amaethyddol llwyddiannus ac sydd wedi'i brofi yn Fferm Graianog. Yn ogystal, mae CNC a Bioamrywiaeth Gwynedd yn gefnogol o gynigion am borfa arw a gwella bioamrywiaeth ar gyfer y gweithfeydd prosesu a'r lagwnau. Mae'r cynnig felly'n cydymffurfio gyda gofynion Polisi Strategol PS 19, Polisi AMG 3, AMG 5, PCYFF 6, MWYN 3 a MWYN 9 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026. Felly, amcanion allweddol y cynllun fydd integreiddio/cydweddu'r safle yn ei amgylchedd; gwella bioamrywiaeth ac atgyfnerthu patrwm y dirwedd.
- 6.8 Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd yn cadarnhau nad oes unrhyw bryderon archeolegol ynghylch y cyfnod ymestyn a geisir ac nid oes gan CADW unrhyw wrthwynebiad o ystyried effaith y gweithrediadau chwarel ar osodiad yr henebion cofrestredig sydd wedi'u hystyried eisoes. Bydd yr amodau ar y ganiatâd gwreiddiol o ran mesurau lliniaru a chofnodi archeolegol yn parhau. Mae'r bwriad felly'n cydymffurfio gyda Pholisiau AMG 3, PS 20, AT 1 ac AT 3 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2016.
- 6.9 Ni fydd gan y datblygiad effaith andwyol ar unrhyw briffordd, na phriffordd arfaethedig. Mae gan y chwarel fynediad uniongyrchol i Gefnffordd yr A487 ac mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cadarnhaodd awdurdod priffyrdd Llywodraeth Cymru nad oedd yn bwriadu cyflwyno cyfarwyddyd mewn perthynas â'r cais hwn. Felly, mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda Pholisi TRA 4 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2016.
- 6.10 Bydd gan y datblygiad effaith niwtral ar y Gymraeg ac fe ystyrir felly bod y datblygiad yn cydymffurfio â chanllawiau pholisiau PS 1 a PS 5 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.
- 6.11 Mae'r cynnig yn bodloni anghenion cynaliadwyedd Polisi Cynllunio Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

PWLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

7. **Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Cynorthwyol yr Adran i gymeradwyo'r cais, yn ddarostyngedig i'r newid isod i Amod 1 ar ganiatâd cynllunio C10D/0487/34/MW i ymestyn oes y gweithrediadau mwynau sy'n ymwneud â gweithrediad tair lagŵn dyddodion ategol a'r gwaith cysylltiedig am gyfnod o 4 blynedd ychwanegol:**

Bydd y gwaith o echdynnu, prosesu a dosbarthu mwynau yn dod i ben erbyn 31 Rhagfyr 2024 ac erbyn hynny bydd yr holl weithfeydd a pheiriannau wedi'u gwaredu o'r safle; bydd y gwaith adfer wedi'i gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2025.

- 7.1 Ymateb ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i'w atodi i'r daflen penderfyniad, yn cynghori y dylid cysylltu â hwy yn uniongyrchol mewn perthynas â'r rheolaethau amgylcheddol a gweithredol penodol o fewn eu cylch gwaith.

- 7.2 Amodau cynllunio fel y presennol mewn perthynas â'r rheolaethau rheoli a ganlyn;


- Hyd y cyfnod gweithio,
- Cyfyngu ar yr hawliau datblygu a ganiateir, adeiladau, strwythurau, ffyrdd preifat, llifoleuadau a ffensys,
- Gweithgareddau a ganiateir a Chydymffurfiaeth â'r Manylion/Cynlluniau a Gyflwynwyd;
- Oriau Gweithio,
- Diogelu hawliau tramwy cyhoeddus,
- Ymdrin â phridd a hwsmonaeth,
- Draenio, mesurau i atal llygru cyrsiau dŵr lleol,
- Adfer i ddefnydd cymysg amaethyddol a chadwraeth natur,
- Ail-adfer ffiniau caeau,
- Lliniaru a chofnodi archeolegol,
- Mesurau ôl-ofal a chyfarfodydd blynyddol ar gyfer defnyddiau amaethyddol, rheoli bioamrywiaeth a rheoli rhywogaethau planhigion anfrodorol,
- Rheolaethau llwch a chyfyngu ar sŵn yn yr un modd ag y gwneir eisoes, ond hefyd, gosod larymau sŵn gwyn i'w gosod ar beiriannau'r gwaith yn y wyneb gweithio.

C20/1065/22/AC


Tud. 105


Cais o dan Adran 73 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i amrywio amod 1 ar ganiatad cynllunio C10D/0487/34/MW i ymestyn hyd oes chwarela a gweithrediadau prosesu cysylltiol am bedair mlynedd ychwanegol i ganiatau cwblhau'r gwaith mwynau gyda blwyddyn ychwanegol ar gyfer cwblhau adfer/Application under Section 73 of the Town and Country Planning Act to vary condition 1 on planning permission C10D/0487/34/MW to extend the life of quarrying and associated processing operations for a further four years to allow for the completion of mineral working with a further year for the completion of restoration

Cefn Graianog, Llanllyfni, Caernarfon, LL54 6SY










PREPARED BY: KEDD
TITLE: Cefn Graianog
DATE: November 2020
SCALE: 1:5,000 @ A3
STATUS: FINAL

This drawing may not be used without the consent of KEDD Engineering Limited
 For Studio, March Warwick, Shropshire TF13 9SL
 © Crown copyright and database right 2017. Ordnance Survey 1000291079



Tud. 111



Tud. 112



Tud. 113



Tud. 114



Tud. 115



Tud. 116



Tud. 117



Tud. 118



Tud. 119



Eitem 5.5

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Rhif: 5

Cais Rhif: C19/0746/46/LL

Dyddiad 27/08/2019

Cofrestru:

Math y Cais: Llawn

Cymuned: Tudweiliog

Ward: Tudweiliog

Bwriad: Gosod 8 carafan symudol

Lleoliad: Trefgraig Isaf, Rhydlios, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8LR

**Crynodeb o'r
Argymhelliad: CANIATAU GYDA AMODAU**

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

1. Disgrifiad:

- 1.1 Cyflwynwyd y cais yma'n wreiddiol i osod 10 carafán teithiol tymhorol a phedair pabell ar safle lle gweithredir safle gwersylla teithiol presennol ar gyfer y Clwb Carafanau a Gwersylla (mae'r dystysgrif ar gyfer 5 carafán neu gerbyd "motorhome" a hyd at 10 pabell). Derbyniwyd cynllun diwygiedig a chadarnhad cyn y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar y 1.3.21 fod y bwriad i'w ddiwygio trwy dynnu'r elfen gwersylla yn gyfan gwbl o'r bwriad a lleihau nifer y carafanau o 10 i 8. Felly i gadarnhau, mae'r bwriad hwn ar gyfer lleoli 8 carafán symudol ar y safle. Ni fwriedir creu llecynnau caled ynghlwm a'r datblygiad ac mi fyddai'r adnoddau presennol yn ddigonol ar gyfer y bwriad trwy ddefnyddio mynedfa bresennol ynghyd a bloc toiledau a storfa biniau sydd eisoes ar ran o'r safle.
- 1.2 Mae'r safle wedi ei leoli yng nghefn gwlad agored ag o fewn dynodiadau Ardal Tirwedd Arbennig Gorllewin Llŷn a Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Enlli. Nid yw'r safle yn yr AHNE. Mae mynediad at y safle ar hyd ffordd di-ddosbarth gymharol gul a throellog gyda'r lleoliad oddeutu milltir o'r gyffordd agosaf gyda priffordd y B4413 tra fod pellter o oddeutu 4.7 milltir tuag at bentref Aberdaron i gyfeiriad y de orllewin ac oddeutu 3.7 milltir tuag at bentref Sarn Mellteyrn i gyfeiriad y gogledd ddwyrain.
- 1.3 Mae'r safle presennol yn dir gwyrdd gyda gwrychoedd yn ei amgylchynu sydd yn ei wneud yn guddiedig o fewn yr ardal gyfagos a thrwy hynny, yn gwarchod golygfeydd i mewn ag allan o'r safle gan gynnwys unrhyw edrychiadau fyddai'n effeithio yn weledol ar yr AHNE. Mae tai yn wasgaredig gerllaw a thiroedd amaethyddol agored tu hwnt.

2. Polisiâu Perthnasol:

- 2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.
- 2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chymau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.
- 2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

PS 5: Datblygu cynaliadwy

PCYFF 2: Meini prawf datblygu

PCYFF 3 : Dylunio a siapio lle

PCYFF 4: Dylunio a thirweddu

AMG 2: Ardaloedd o dirwedd arbennig

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

PS 19: Gwarchod a ble'n briodol gwella'r amgylchedd naturiol

PS 4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd

TRA 2: Safonau parcio

TRA 4 : Rheoli ardrawiadau cludiant

PS 14: Yr economi ymwelwyr

TWR 5: Safleoedd carafanau teithiol, gwersylla a llety gwersylla amgen dros dro

PS 20: Diogelu a ble'n briodol gwella asedau treftadaeth

AT 1: Ardaloedd cadwraeth, safleoedd treftadaeth y byd a thirweddau, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig

Hefyd yn berthnasol yn yr achos yma mae'r canlynol:

Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid

2.4 **Polisiâu Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11 - Chwefror 2021)

Nodyn Cyngor Technegol 13: Twristiaeth

Nodyn Cyngor Technegol: Trafnidiaeth

3. **Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Nid yw'n ymddangos fod unrhyw hanes Cynllunio yn ymwneud yn benodol a safle'r cais yma.

4. **Ymgynghoriadau:**

Cyngor Cymuned/Tref:

Dim sylwadau ar adeg y cais gwreiddiol. Cynhaliwyd ail ymgynghoriad yn dilyn diwygio'r cais, derbyniwyd sylwad yn nodi y dylid gofalu fod yr adnoddau ymolchi a thoiledau yn briodol cyn ychwanegu'r 8 carafán symudol.

Uned Drafnidiaeth:

Dim gwrthwynebiad ar adeg y cais gwreiddiol. Derbyniwyd cadarnhad pellach nad oedd gwrthwynebiad i'r cynlluniau diwygiedig.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Cyfoeth Naturiol Cymru: Dim sylw

Dŵr Cymru: Heb eu derbyn

Uned Gwarchod y Cyhoedd/Trwyddedu: Sylwadau ar y cais gwreiddiol yn nodi fod cynlluniau a gyflwynwyd yn dangos gofod annigonol rhwng unedau er mwyn cydymffurfio gyda gofynion cyfredol, gofynnir am gynlluniau diwygiedig er mwyn sicrhau gosodiad derbyniol neu leihau'r niferoedd o unedau y gofynnir amdano. Derbyniwyd ymateb i'r ail ymgynghoriad yn nodi nad oes gwrthwynebiad i'r datblygiad cyn belled ei fod yn cwrdd ag amodau trwydded.

Uned Hawliau Tramwy: Heb eu derbyn.

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben, ni dderbyniwyd llythyr / gohebiaeth yn gwrthwynebu.

5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

Egwyddor y datblygiad

- 5.1 Gan mai cais ar gyfer safle carafanau teithiol sydd yma, rhaid ystyried y cais o dan ofynion polisi TWR 5 y CDLI sy'n gosod cyfres o feini prawf ar gyfer caniatáu datblygiadau o'r fath.
- 5.2 Mae maen prawf 1 polisi TWR 5 yn datgan y dylai unrhyw ddatblygiad carafanau teithiol newydd fod o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad a hefyd dylai fod wedi'i guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd a / neu mewn lle gellir cydweddu'r unedau teithiol yn hawdd i'r dirwedd mewn modd nad yw'n peri niwed sylweddol i'w hansawdd weledol. Yn yr achos yma, rhaid ystyried mai cais ar safle sydd eisoes yn gweld defnydd o dan drwydded Clwb Carafanau a Champio fel maes carafanau teithiol ydi hwn, er ar raddfa llai o ran carafanau ond hefyd yn cynnwys elfen gwrsylla yn ogystal.
- 5.3 Datganwyd pryder gan yr Uned Drwyddedu yn wreiddiol nad oedd yn eglur o'r cynlluniau os fyddai'r pellter rhwng y carafanau teithiol yn ddigonol gan fod rhaid gadael mwy na 6 metr o led rhwng carafanau teithiol ar gyfer adlen, car a 3 metr clir. Os nad ydyw safle'n cwrdd â safonau trwyddedu, ni chredir y gellir ei ystyried yn ddatblygiad o "ansawdd uchel". Nodwyd ar amrywiol adegau a thrwy trafodaethau pellach, y gellir sicrhau trefniant safle boddhaol ar gyfer dibenion trwyddedu trwy gyflwyno cynlluniau diwygiedig. Fel sydd wedi ei nodi uchod, derbyniwyd cynllun diwygiedig maes o law sydd yn dangos lleihad yn nifer y carafanau ar y safle o'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol a thynnu'r elfen gwrsylla yn gyfan gwbl o'r cynnig. Credir bellach fod

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

gosodiad y safle fel a ddangosir yn ei ffurf diwygiedig yn dderbyniol a derbyniwyd cadarnhad gan yr Uned Drwyddedu fod y gosodiad a'r pellteroedd rhwng safleoedd bellach yn dderbyniol.

- 5.4 Derbynnir, oherwydd tyfiant presennol, y byddai'r datblygiad hwn wedi ei guddio'n dda yn y dirwedd.
- 5.5 Oherwydd y diwygiadau a wneir i'r bwriad, credir bod gwybodaeth ddigonol ar y cais bellach i ddangos ei fod yn cwrdd gyda gofynion polisiâu TWR 5, PCYFF 3 a PCYFF 4 y CDLI.

Mwynderau gweledol, cyffredinol a phreswyl

- 5.6 Ni ystyrir y byddai'r datblygiad yn cael niwed arwyddocaol ychwanegol amlwg ar fwynderau lleol oherwydd tirlunio sefydledig presennol oddiamgylch sydd yn creu sgrin addas ar gyfer y safle. Rhaid hefyd wrth gwrs ystyried fod defnydd presennol yn gweithredu o'r safle trwy drefniadau trwydded gan y Clwb Carafannau a Gwersylla sydd ddim yn destun caniatâd Cynllunio. Ni ystyrir felly y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol i fwynderau'r gymdogaeth leol o safbwynt yr agwedd yma ac ystyrir y bwriad yn dderbyniol o'r agweddau penodol hyn o Bolisi PCYFF 2.

Materion trafndiaeth a mynediad a chynaliadwyedd

- 5.7 Ceir mynediad i'r safle oddi ar ffordd di ddsbarth sydd yn cysylltu gyda priffordd B4413 oddeutu milltir i'r de ddwyrain o'r safle. Ni wrthwynebir y bwriad gan yr Uned Drafnidiaeth.
- 5.8 Mae pwynt 12 o Bolisi PS 5 yn ymwneud gyda teithio cynaliadwy. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw yn safle y gellir ei gyrraedd drwy amrywiol ffyrdd gan gynnwys cerdded, beicio a cludiant cyhoeddus. Er hynny, o ystyried sefyllfa a defnydd presennol y safle, mae'n bur debyg fod cyfanswm uwch o symudiadau yn gallu deillio o ddefnydd y carafannau a gwersylla a thrwy gyfyngu'r cais presennol i ddefnydd o 8 carafan teithiol yn unig credir ar sail balans fod y bwriad presennol yn welliant i'r defnydd a ganiateir gan drwydded y Clwb Carafannau a Champio.
- 5.9. Nid yw cynigion sy'n gofyn am ddefnyddio cerbydau preifat yn cael eu gwahardd yn llwyr trwy'r CDLI, ond mae Polisi PS 5 yn hyrwyddo cymhwysio egwyddorion datblygu cynaliadwy ym mhob datblygiad newydd, gan gynnwys cyfeirio datblygiad at y lleoliadau mwyaf priodol a lleihau'r angen i deithio gan ddefnyddio trafndiaeth breifat.
- 5.10 Ond rhaid ystyried defnydd gwersylla presennol ar y safle ar gyfer carafannau a phebyll. Yn amlwg felly mi fyddai'r bwriad presennol i gael 8 carafan teithiol yn golygu cynnydd yn nifer y cerbydau yn ymweld a'r safle fyddai'n tynnu carafannau. Er hynny, ag fel sydd wedi ei egluro eisoes, cynnydd o 3 fyddai hyn a thrwy dynnu'r elfen gwersylla, mae'n debyg mai lleihad cyflawn a fyddai i symudiadau yn gysylltiedig a'r safle.
- 5.11 Felly o ystyried y defnydd presennol a niferoedd y bwriad yn ei ffurf diwygiedig, ni chredir ei fod yn annerbyniol ar sail gofynion perthnasol TWR 5 a PS 14.

Hanes Cynllunio

- 5.12 Fel sydd eisoes wedi ei nodi uchod, rhaid cydnabod fod defnydd presennol i'r safle trwy drwydded a threfniadau'r Clwb Carafannau a Gwersylla ac felly rhaid derbyn fod defnydd wedi ei

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

sefydlu. Byddai trwydded yn caniatáu hyd at 5 o unedau teithiol ac hyd at 10 pabell. Er mwyn sefydlu beth fyddai'r sefyllfa 'fallback' a gallu cymharu niferoedd ymwelwyr i'r safle dros gyfnod a'r hyn fyddai'n debygol o ddeillio o'r bwriad presennol, gofynnwyd am gofnodion er mwyn ceisio sefydlu'r gwahaniaeth, os o gwbl, rhwng defnydd hanesyddol y safle a'r defnydd bwriedig. Er na dderbyniwyd y wybodaeth yma, credir erbyn hyn fod y gwahaniaeth yn amlwg yn mynd i fod yn llai gan fod yr elfen gwersylla yn cael ei dynnu o'r cynnig. Mae'r cynnydd bychan fyddai'n caniatáu 8 carafán pan yn ei gymharu gyda'r hawl presennol am 5 carafán a hyd at 10 o bebyll yn amlwg ac fe greder fod gwelliant trwy reolaeth amodau perthnasol.

- 5.13 O ganlyniad, credir fod y bwriad yn ei ffurf diwygiedig yn cydymffurfio â Pholisïau TWR 5, PS 4, PS 5 a PS 14 y CDLI.

Materion Ieithyddol

- 5.14 Yn yr achos yma, ni chredir fod y bwriad yn cyrraedd trothwy gofynion PS 1 o ran yr angen i gyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg, yn benodol:
- 5.15 O ystyried graddfa a'r math o ddatblygiad a fwriedir, ni fuasai'r bwriad yn berthnasol i'r categorïau fel a ddiffinir o fewn meini prawf 1a, 1b a 1c ac felly ni fydd angen datganiad ar sail y gofynion yma o fewn Polisi PS 1.
- 5.16 Oherwydd maint y bwriad ni fydd angen Asesiad ieithyddol o dan maen prawf (2) o Polisi PS 1.
- 5.17 Os nad oes angen Datganiad Ieithyddol fe ddylid rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg yn unol â threfn sgrinio ceisiadau o fewn Atodiad 5 o'r 'CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy'. O ddilyn y canllawiau fel a amlinellir yn y CCA gofynnwyd i'r asiant gyflwyno datganiad sydd wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r Iaith Gymraeg. Ni dderbyniwyd ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ond o'i dderbyn, fe drafodir y mater ar lafar yn ystod y pwyllgor. Yn ogystal, credir y byddai'n rhesymol gosod amodau priodol er mwyn sicrhau arwyddion dwyieithog er mwyn cydymffurfio gyda categorï CH 1 o'r atodiad yn ogystal â maen prawf 4 o bolisi PS 1 sy'n ymwneud gyda arwyddion dwyieithog.

6. Casgliadau:

- 6.1 Mae'r safle yma wedi ei sefydlu ar gyfer defnydd gwersylla a charafanau teithiol trwy drefniant trwyddedu'r clwb carafán a gwersylla. Mae'r defnydd presennol yn golygu fod 5 carafán yn gallu defnyddio'r safle ac i fyny at 10 o bebyll. Mae'r cynnig diwygiedig yn tynnu'r elfen gwersylla gyda phabell o'r bwriad a darparu safle ar gyfer 8 carafán teithiol yn unig. Gweler felly fod cynnydd o 3 carafán rhwng y defnydd carafán presennol a'r bwriedig ond oherwydd fod yr elfen gwersylla yn cael ei dynnu o'r bwriad, mae'n debygol fod y cynnydd yma yn ddibwys (negligible) pan yn cymharu gyda'r hyn allai weithredu o'r safle trwy ddefnyddio'r hawl gwersylla. Mi fyddai cyfyngu defnydd y safle i 8 carafán teithiol yn unig yn lleihau defnydd y safle a thrwy hynny, yr effaith yn lleol. Wedi asesu a phwyso a mesur y datblygiad yn ei ffurf diwygiedig yn ei gyfanrwydd yn erbyn gofynion yr holl bolisïau perthnasol, rhaid dod i'r casgliad fod y bwriad bellach yn dderbyniol. Mae ffurf a gosodiad yr unedau fel a ddangosir ar y cynllun diwygiedig yn arddangos gosodiad cwbl dderbyniol oherwydd gofod digonol rhwng y safleoedd unigol a'i fod o ganlyniad yn ddatblygiad derbyniol yn unol a maen prawf 1 o bolisi TWR 5

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

sydd yn nodi yr angen i ddatblygiad arfaethedig fod o ansawdd uchel o ran gosodiad ac edrychiad.

7. Argymhelliad:

7.1 Caniatau – amodau

1. Amser
2. Unol a'r cynllun diwygiedig
3. Cyfyngu niferoedd a defnydd a dim peyll i'w gosod o fewn safle'r cais
4. Cynllun arwyddion dwyieithog

Nodyn:

Angen sicrhau trwydded briodol

C19/0746/46/LL

Gosod 8 carafan symudol /

Provision of 8 touring caravans

Trefgraig Isaf, Rhydlios, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8LR


Tud. 128



Existing site used by 5 caravans and unrestricted number of tents

Existing shower and toilet block.
Existing bin store and chemical disposal.

Existing access track.




GPS 52.850066, -4.6870721
OS SH 191314


 huw meredydd owen
 BSc
 BA
 MA
 BA
 ABE
 FRS
 pensaer
 07733 121395
 01758 712581
 huw_meredydd@icloud.com
 @huw_meredydd
 huw_meredydd.com

Trefgraig Isaf Rhoshirwaun LL53 8LR
block plan

P096_01_06

graddfa / scale @ A3: 1:500
printwyd / printed: 21-08-2019
cychwynwyd / started: 28-03-2018




 huw.meredydd.owen
 BSc
 MA
 MBA
 ARB
 FRSK
 pensaer
 07733 121395
 01758 712581
 huw.nant@icloud.com
 @huw_nant
 huw owen.com

**Cynllun Diwygiedig
Amended Plan**

Trefraig Isaf Rhoshirwaun LL53 8LR
block plan

P096_01 05a

graddfa / scale @ A3 : 1:500
 printwyd / printed : 26-07-2019
 cychwynwyd / started : 28-03-2018

revisions
 a 26-07-2019 indicative layout amended

Tud. 130



Tud. 131



Tud. 132



Tud. 133



Tud. 134



Tud. 135



Tud. 136



Tud. 137



Tud. 138



Tud. 139



Eitem 5.6

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Rhif: 6

Cais Rhif: C20/0673/41/MG

Dyddiad 21/08/2020

Cofrestru:

Math y Cais: Caniatáu materion a gadwyd yn ôl

Cymuned: Llanystumdwy

Ward: Llanystumdwy

Bwriad: Cais ar gyfer materion a gadwyd yn ôl a gwybodaeth draenio a datblygu cam wrth cam mewn cyswllt a chaniatâd cynllunio amlinellol C16/1603/41/AM ar gyfer codi 9 tŷ sy'n cynnwys 3 fforddiadwy a ffordd mynediad

Lleoliad: Cae Bodlondeb, Ger Ael Y Bryn, Chwilog, LL53 6SH

Crynodeb o'r Argymhelliad: CANIATAU GYDA AMODAU

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

1. Disgrifiad:

- 1.1 Mae'r cais yma yn gais materion a gadwyd yn ôl sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth draenio a datblygu cam wrth gam mewn cyswllt a caniatâd cynllunio amlinellol C16/1603/41/AM ar gyfer codi 9 tŷ sy'n cynnwys 3 fforddiadwy a ffordd fynediad.
- 1.2 Caniatawyd y cais amlinellol gyda llunwedd, graddfa, golwg a thirweddu wedi ei gadw yn ôl, ac felly mae'r cais gerbron ar gyfer asesu y materion hyn ynghyd a materion draenio a datblygu cam wrth gam sy'n destun amodau rhif 7 a 10 o'r caniatâd amlinellol. Mae egwyddor y bwriad ynghyd a'r materion yn ymwneud gyda'r fynedfa eisoes wedi eu caniatáu o dan y cais amlinellol.
- 1.3 Nodir fod cais cynllunio C20/0674/41/MG hefyd wedi ei gyflwyno ar ail hanner y safle yng nghyd destun caniatâd amlinellol C16/1363/41/AM ar gyfer 9 tŷ ychwanegol (3 ohonynt yn fforddiadwy) ac sy'n defnyddio'r un fynedfa. O'i ddarfod byddai'r datblygiad yma a'r un sy'n destun y cais a drafodir yma yn ymddangos fel un datblygiad mwy.
- 1.4 Mae'r safle presennol yn rhan o gae sy'n codi'n raddol o'r briffordd ac sydd wedi ei leoli tu ôl i dai presennol a ger stad Tŷ'n Rhos. Mae'r cais penodol yma yn ymwneud a hanner y safle sydd agosaf i dai bresennol Tŷ'n Rhos, ac sy'n cynnwys y ffordd fynediad. Mae'r rhan helaeth o'r safle erbyn hyn wedi ei leoli y tu allan i ffin ddatblygu pentref Chwilog, er fod y fynedfa rhwng eiddo Cartrefle ac Ael y Bryn yn parhau o fewn y ffin ddatblygu.
- 1.5 Mae'r cynlluniau a gyflwynwyd fel rhan o'r cais gerbron yn cadarnhau'r fynedfa yn unol â'r hyn a ganiatawyd o dan y caniatâd amlinellol. Mae llunwedd y safle yn dangos bwriad i ddarparu ffordd stad oddi ar y fynedfa sy'n fforchio; ynghyd a chodi 4 annedd ar wahân a 3 mewn teras ar ochr chwith y ffordd stad sy'n fforchio i'r chwith (3 o fewn y teras yn fforddiadwy) a dau annedd ar wahân ar ochr dde y ffordd sy'n fforchio i'r dde. Mae'r rhan yma o'r datblygiad yn cynnwys 6 annedd 3 gwely farchnad agored a 3 annedd fforddiadwy 3 gwely.
- 1.6 Mae'r cynllun safle yn cadarnhau'r lefelau llawr gorffenedig. Mae dyluniad yr anheddau bwriedig yn syml ac mae bwriad gorffen yr anheddau gyda tho llechi a'r waliau allanol wedi eu gorchuddio a chladin carreg a chedrwydden (cedar). Mae cynllun tirlunio hefyd wedi ei gyflwyno.
- 1.7 Mae cynlluniau o'r system draenio wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais sy'n dangos y modd o ddelio gyda dŵr wyneb, ac mae cynllun gam wrth gam hefyd wedi ei gyflwyno sy'n rhyddhau'r gofyniad amodau 7 a 10 sy'n gofyn am gynlluniau draenio a datblygu gam wrth gam.
- 1.8 Mae'r ACLI wedi gofyn am gynlluniau diwygiedig parthed trefniadau parcio ar gyfer rhai o'r plotiau ond nid oes cynllun wedi ei dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

2. Polisiâu Perthnasol:

- 2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.
- 2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

TRA2: Safonau Parcio

TRA 4: Rheoli Ardrawiad Cludiant

PS 5: Datblygu cynaliadwy

PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu

PCYFF 3: Dylunio a siapio lle

PCYFF 4: Dylunio a thirweddu

PCYFF 6: Cadwraeth Dwr

PS 19: Gwarchod a lle bo'n berthnasol gwella'r amgylchedd naturiol

2.4 **Polisiâu Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11 - Chwefror 2021)

3. **Hanes Cynllunio Perthnasol:**

C16/1363/41/AM - Cais amlinellol ar gyfer codi 9 ty sy'n cynnwys 3 ty fforddiadwy ynghyd a darparu mynedfa a lon stad – CANIATÁU – 22.09.2017

C16/1603/41/AM - Cais amlinellol ar gyfer codi 9 tŷ sy'n cynnwys 3 tŷ fforddiadwy ynghyd a darparu mynedfa a lon stad - CANIATÁU - 22-09-2017

C20/0674/41/MG - Cais ar gyfer materion a gadwyd yn ôl a gwybodaeth draenio a datblygu cam wrth cam mewn cyswllt a chaniatâd cynllunio amlinellol C16/1363/41/AM ar gyfer codi 9 tŷ sy'n cynnwys 3 fforddiadwy a ffordd mynediad - HEB EI BENDERFYNU

4. **Ymgynghoriadau:**

Cyngor Cymuned/Tref:

Mae'r Cyngor Cymuned wedi cefnogi'r ceisiadau uchod yn dilyn ein cyfarfod ar 03.09.2020, ond rwyf wedi derbyn ymholiad gan Ysgrifennydd Pwyllgor Mynwent Chwilog yn dilyn ein cyfarfod yn datgan pryder mawr gan drigolion sydd yn byw gerllaw ynglŷn â'r ffos/dwr/ a draenio yn dod o'r cae uchod.

Dŵr Cymru:

Ar ôl asesu gosodiad y cynllun draenio arfaethedig, nodwn mai'r bwriad yw i lif dŵr aflan gysylltu i'r garthffos dŵr aflan gyhoeddus 225mm sydd wedi'i lleoli yn y B4354, ac y bydd llif dŵr wyneb yn gollwng i system ffos gerrig. Ar y sail mai dim ond dŵr aflan y

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

bwriedir ei gysylltu â'r system garthffos gyhoeddus yn y lleoliad a ddangosir, nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r trefniadau draenio arfaethedig.

Uned Drafnidiaeth:

Dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau, ac yn argymhell yr amodau yn y rhestr islaw.

Mae angen cynnwys amod neu nodyn ychwanegol i adnabod yr angen i ail-leoli'r twmpathau cyflymder ar y ffordd fawr, y colofn golau stryd ac unrhyw beth arall sy'n gwrthdaro a leoliad yr adwy, a dwi di cynnig rwbath ar gwaelod y rhestr.

Dwi hefyd yn nodi mymryn o wahaniaeth rhwng cynlluniau Cadarn a Russell Hughes – un dangos y ffordd stad yn phase 2 yn darfod cyn y ddau tŷ pen ac yn troi i mewn i ffordd breifat, y llall yn dangos y ffordd stad reit i'r pendraw ond i'r llwybrau troed darfod cyn y ddau tŷ pen. O ddewis hoffwn gweld dyluniad ffordd stad fel sy'n cael ei ddangos gan Cadarn.

Lle'n bosibl hoffwn gweld parcio'n cael ei ddarparu ochr wrth ochr yn hytrach nag un tŷ ôl y llall. Mae rhan fwyaf o'r tai yn cynnig darpariaeth fel hyn, ar wahân i ddau, ond dwi'n meddwl y byddai'n bosibl addasu parcio plot 8 i siwtio'r uchod.

Dyma rhestr o amodau/nodiadau:

Mynedfa

Ffordd stad

cyrbiau

cam wrth gam

parcio

nodweddion tawelu traffig

mabwysiadu ffordd

Uned Llwybrau:

Heb eu derbyn

Bioamrywiaeth:

Dim sylwadau

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Uned Draenio Tir:

GWYBODAETH: Mae ein mapiau'n dangos fod system dŵr wyneb wedi ei chylfatio yn rhedeg trwy'r safle datblygu arfaethedig. Rydym yn argymhell fod y datblygwr yn nodi union lwybr y system a'n osgoi gosod / codi unrhyw strwythurau o fewn 3m iddi oherwydd gallai hyn atal cynnal a chadw yn y dyfodol. Bydd angen Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin ar gyfer unrhyw waith a allai effeithio ar lif y nant a dylid cysylltu â FCRMU@gwynedd.llyw.cymru i gael cyngor pellach.

Bydd perchennog y tir yn gyfrifol am gynnal a chadw unrhyw gylfat o fewn eu eiddo yn y dyfodol.

Ers y 7fed Ionawr 2019, mae angen systemau draenio cynaliadwy (SDC) i reoli dŵr wyneb ar gyfer pob datblygiad newydd o fwy nac 1 tŷ neu lle mae'r arwynebedd adeiladu gydag oblygiadau draenio yn 100m² neu fwy. Rhaid i systemau draenio fod wedi eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â safonau gofynnol ar gyfer draenio cynaliadwy a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r systemau hyn gael eu cymeradwyo gan Gyngor Gwynedd yn ei rôl fel Corff Cymeradwyo SDC (CCS) cyn y bydd gwaith adeiladu'n dechrau.

Hefyd yn ôl rhan 2.39 o Ganllawiau Statudol ar Ddraenio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru bydd cymeradwyaeth CCS (SAB) yn ofynnol os dyfarnwyd y caniatâd cynllunio gydag amod ynghylch mater a gedwir yn ôl (h.y. cyn Ionawr 2019) ac os na wneir cais am gymeradwyaeth i'r mater a gedwir yn ôl cyn 7 Ionawr 2020.

Oherwydd maint a natur y datblygiad, bydd angen cyflwyno cais i'r SAB i'w gymeradwyo cyn i'r gwaith adeiladu gychwyn. Mae strategaeth ddraenio a chynllun cysylltiedig wedi eu cyflwyno gyda'r cais sy'n dangos fod y datblygwr yn ystyried dulliau draenio cynaliadwy, ond hyd nes y gwneir cais i'r SAB mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd a fyddai cynllun arfaethedig y safle yn galluogi'r datblygiad i gydymffurfio'n llawn â'r gyfres o safonau SuDS cenedlaethol.

Cyfoeth Naturiol Cymru:

Dim sylwadau i'w cynnig

Uned Strategol Tai:

Heb eu derbyn

Ymgynghoriad Cyhoeddus:

Rhoddyd rhybudd ar y safle a gwybuwyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben ar 02.10.2021 a derbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu'r bwriad:

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

- Materion draenio

5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

Egwyddor y datblygiad

- 5.1 Mae'r cais gerbron ar gyfer materion a gadwyd yn ôl yn dilyn rhoi caniatâd amlinellol ar gyfer codi 9 tŷ gyda 3 ohonynt i fod yn fforddiadwy. Mae egwyddor y bwriad, gan gynnwys materion mynedfa, ynghyd a'r elfen fforddiadwy a materion llecyn agored eisoes wedi eu caniatáu ac felly nid oes modd i'r cais yma ail asesu'r materion yma yn unol â'r drefn ceisiadau amlinellol a materion a gadwyd yn ôl.
- 5.2 Nodir fod y cais amlinellol yn destun cytundeb 106 oedd yn sicrhau'r elfen fforddiadwy ynghyd a taliadau ar gyfer llecynnau agored ac addysg. Roedd y caniatâd amlinellol yn nodi math penodol o gymysgedd dai (6 tŷ 3 ystafell wely marchnad agored a 3 tŷ fforddiadwy 3 ystafell wely) ac mae'r elfennau yma eisoes wedi eu caniatáu drwy'r cais amlinellol.
- 5.3 O ganlyniad yr unig faterion a asesir yn y cais hwn yw materion dyluniad, llunwedd, graddfa a thirwedd.

Mwynderau gweledol, cyffredinol a phreswyl

- 5.4 Mae'r safle wedi ei leoli y tu cefn i rhes o dai sy'n wynebu'r brif ffordd drwy bentref Chwilog. Ar adeg y cais amlinellol cydnabyddir fod yr egwyddor o godi tai ar y safle yn dderbyniol wrth fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Unedol gan fod y safle wedi ei ddynodi ar gyfer codi tai o dan y Cynllun hwnnw. Nodir ar adeg y cais amlinellol hefyd fod dwysedd y datblygiad yn dderbyniol ac fod maint y tai yn addas o safbwynt uchafswm a graddfa (gan gynnwys y tai fforddiadwy), a'i fod yn bosib drwy amodau a thrwy ystyried y manylion llawn reoli gweddill y datblygiad yn dderbyniol.
- 5.5 Mae llunwedd y bwriad gerbron yn cyd-fynd gyda'r hyn a gynigir ar adeg y cais amlinellol, ac mae'r cynllun safle bwriedig yn cadarnhau fod y pellteroedd rhwng y tai bwriedig a'r ffiniau gyda gerddi tu cefn rhwng 10m a 4m a'r pellteroedd o gefnau'r tai bwriedig i gefnau'r tai presennol oddeutu 20-25m. Ystyrir fod y pellteroedd yma yn ddigonol ar y safle yma er mwyn sicrhau mwynderau'r trigolion cyfagos presennol.
- 5.6 Mae nodweddion dyluniadol amrywiol yn yr ardal. Mae'r dyluniad, gorffeniad a'r tirwedd bwriedig yn syml ac ystyrir ei fod yn cydweddu a'r ardal ac yn dderbyniol o ran effaith weledol.
- 5.7 Ystyrir fod y manylion yma yn dderbyniol ac yn cydymffurfio a gofynion pholisïau PS5, PCYFF 2, 3 a 4 o'r CDLI.

Materion Priffyrdd

- 5.8 Mae'r fynedfa i'r safle eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio o dan y cais amlinellol, ac mae amod cynllunio ar gyfer cwblhau'r fynedfa yn unol a'r cynllun a ganiatwyd cyn cychwyn unrhyw waith pellach ar y cynllun yn bodoli ar y caniatâd amlinellol yn barod.
- 5.9 Mae'r Uned Drafnidiaeth wedi codi rhai materion ynglŷn â'r drefn parcio a llwybr troed ac mae'r sylwadau yma wedi eu pasio i asiant y cais ar gyfer eu datrys. Mae'r Uned Drafnidiaeth yn ffyddiog fod y datblygiad yn dderbyniol o ran parcio a diogelwch ffyrdd, ac mae'r newid bychan

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

i drefn parcio yn golygu gosod cerbydau ochr wrth ochr yn lle un to ol i'r llall, a'r mater llwybr troed yn golygu sicrhau fod y cynlluniau sydd wedi eu cyflwyno yn cyfateb a'u gilydd. Yn ddarostyngedig i dderbyn y cynlluniau diwygiedig o ran hyn ac amodau i sicrhau gorffeniad y ffordd stad, datblygiad gam wrth gam a parcio, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio a gofynion polisïau TRA 2 a 4 o'r CDLI.

Materion Draenio

- 5.10 Mae'r wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais hefyd yn cynnwys cynllun draenio sy'n dangos fod bwriad delio gyda dŵr wyneb drwy sianeli tan ddaear a 'swale' agored.
- 5.11 Mae Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Uned Draenio tir wedi cadarnhau fod y wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno yn dderbyniol. Nodir fod Dwr Cymru wedi cadarnhau mai dim ond dwr aflan a fydd yn cysylltu i'r brif garthffos, ac nodir y byddai'r system draenio dŵr wyneb yn destun cais SUDS.
- 5.12 Mae sylwadau wedi eu derbyn gan drigolion lleol, yr Aelod Lleol ynghyd â'r Cyngor Cymuned ynglŷn â materion draenio presennol ar y safle ac sy'n effeithio tai cyfagos. Mae swyddogion o'r Uned Draenio yn ymwybodol o'r sefyllfa ac wedi ymweld â'r safle. Yn ogystal, bydd angen dylunio'r system gwaredu dŵr wyneb er mwyn cydymffurfio â gofynion System Draenio Gynaliadwy (SuDS). Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd y system ddraenio newydd bydd mesurau cynnal a chadw yn cael eu cynnwys oddi fewn i gynllun systemau dwr cynaliadwy (SuDS) a fydd yn cael ei gymeradwyo gan Uned Dwr ac Amgylchedd y Cyngor yn ei rôl fel Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC).
- 5.13 Ar sail y wybodaeth gerbron a'r sylwadau a dderbynnir gan yr ymgynghorwyr statudol, ystyrir fod modd delio gyda materion draenio mewn ffordd derbyniol ac effeithlon ac felly mae'r bwriad yn cydymffurfio â gofynion polisi PCYFF 6.

Datblygu gam wrth gam

- 5.14 Mae'r safle yma yn ei gyfanrwydd yn destun dau ganiatâd cynllunio amlinellol ac wrth ddelio gyda'r ceisiadau hynny penderfynwyd ei bod yn rhesymol i osod amod cynllunio i gytuno ar gynllun datblygu gam wrth gam er mwyn sicrhau datblygiad trefnus o'r safle. Mae amod cynllunio yn bodoli ar y caniatadau amlinellol sy'n sicrhau fod y fynedfa yn cael ei gwblhau cyn gweddill y datblygiad, ac mae'r cynllun cam wrth gam sydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais yn cadarnhau y byddai'r rhan agosaf i'r fynedfa (yr hyn sy'n destun y cais yma) yn cael ei ddatblygu gyntaf, ac wedyn y rhan o'r safle sydd wedi ei leoli tu cefn.
- 5.15 Ystyrir fod hyn yn dderbyniol ac yn sicrhau datblygiad trefnus o'r safle.

Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus

- 5.16 Yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus, derbyniwyd sylwadau ynglŷn â materion draenio ar y safle. Mae'r materion hyn wedi derbyn sylw uchod, ac bydd y datblygiad yn destun cais ar gyfer system draenio cynaliadwy ac felly ystyrir fod y wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais parthed hyn yn dderbyniol.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

6. Casgliadau:

- 6.1 Cadarnheir felly fod y materion a gadwyd yn ôl ar ganiatâd amlinellol C16/1603/41/AM ar gyfer codi 9 tŷ sy'n cynnwys 3 fforddiadwy a ffordd mynediad o dan gyfeirnod ynghyd â rhyddhau amodau 7 a 10 o'r caniatâd amlinellol sy'n ymwneud â materion draenio a datblygu gan wrth gam yn dderbyniol ac yn unol â'r polisiau cynllunio a nodir uchod.

7. Argymhelliad:

Caniatáu

Amodau priffyrdd

Nodyn fod amodau 7 a 10 o'r caniatâd amlinellol sy'n ymwneud â materion draenio a datblygu gan wrth gam wedi eu rhyddhau fel rhan o'r caniatâd yma.


Nodyn SUDS

C20/0673/41/MG

Tud. 148

Cais ar gyfer materion a gadwyd yn ol a gwybodaeth draenio a datblygu cam wrth cam mewn cyswllt a chaniatad cynllunio amlinellol C16/1603/41/AM ar gyfer codi 9 ty sy'n cynnwys 3 fforddiadwy a ffordd mynediad. / Reserved matters application together with drainage and phasing details in relation to outline planning permission C16/1603/41/AM for the erection of 9 dwellings including 3 affordables and access road.

Cae Bodlondeb, Ger Ael Y Bryn, Chwilog, LL53 6SH



Yn eiddo hysbysu a phrosiectio'n ddiwydiol yn unig.
Dim hysbysu a phrosiectio'n ddiwydiol yn eiddo hysbysu a phrosiectio'n ddiwydiol yn unig.
18.06.2010

Yn eiddo hysbysu a phrosiectio'n ddiwydiol yn unig.
Dim hysbysu a phrosiectio'n ddiwydiol yn eiddo hysbysu a phrosiectio'n ddiwydiol yn unig.
18.06.2010

Yn eiddo hysbysu a phrosiectio'n ddiwydiol yn unig.
Dim hysbysu a phrosiectio'n ddiwydiol yn eiddo hysbysu a phrosiectio'n ddiwydiol yn unig.
18.06.2010

Yn eiddo hysbysu a phrosiectio'n ddiwydiol yn unig.
Dim hysbysu a phrosiectio'n ddiwydiol yn eiddo hysbysu a phrosiectio'n ddiwydiol yn unig.
18.06.2010

Yn eiddo hysbysu a phrosiectio'n ddiwydiol yn unig.
Dim hysbysu a phrosiectio'n ddiwydiol yn eiddo hysbysu a phrosiectio'n ddiwydiol yn unig.
18.06.2010

Yn eiddo hysbysu a phrosiectio'n ddiwydiol yn unig.
Dim hysbysu a phrosiectio'n ddiwydiol yn eiddo hysbysu a phrosiectio'n ddiwydiol yn unig.
18.06.2010





Yn parhysu'r ddiagram hon yn ddwy dimensiwn yn unig. Dim gwarantu ydych chi chi os ydych chi chi ddefnyddio'r ddiagram hon yn ddwy dimensiwn yn unig. Dim gwarantu ydych chi chi os ydych chi chi ddefnyddio'r ddiagram hon yn ddwy dimensiwn yn unig.

Yn parhysu'r ddiagram hon yn ddwy dimensiwn yn unig. Dim gwarantu ydych chi chi os ydych chi chi ddefnyddio'r ddiagram hon yn ddwy dimensiwn yn unig.

Yn parhysu'r ddiagram hon yn ddwy dimensiwn yn unig. Dim gwarantu ydych chi chi os ydych chi chi ddefnyddio'r ddiagram hon yn ddwy dimensiwn yn unig.

Yn parhysu'r ddiagram hon yn ddwy dimensiwn yn unig. Dim gwarantu ydych chi chi os ydych chi chi ddefnyddio'r ddiagram hon yn ddwy dimensiwn yn unig.

Yn parhysu'r ddiagram hon yn ddwy dimensiwn yn unig. Dim gwarantu ydych chi chi os ydych chi chi ddefnyddio'r ddiagram hon yn ddwy dimensiwn yn unig.



Yn parhysu'r ddiagram hon yn ddwy dimensiwn yn unig. Dim gwarantu ydych chi chi os ydych chi chi ddefnyddio'r ddiagram hon yn ddwy dimensiwn yn unig.



- PLOTS 1-4, 8-9 3 Bedroom 3 person 114m²
- PLOTS 5-7, 10-12 3 Bedroom 5 person 100m²
- PLOTS 13-18 4 Bedroom 7 person 146m² + 18m² single garage




All dimensions are approximate and subject to change without notice. The client is responsible for the accuracy of the information provided. The information is provided for general information only and should not be used for any other purpose. The information is provided as a guide only and should not be used for any other purpose. The information is provided as a guide only and should not be used for any other purpose.


Plan No: **CAE BODLONDEB**
CHWYLOG
 CHWYLOG
PROPOSED SITE PLAN

2776202
 1530 @ A2
 July 2020


russell-hughes cyf
 54 Design Avenue,
 Llanelli,
 Carmarthenshire,
 SA31 3JH
 Tel: 01495 752333
 Fax: 01495 750402
 Email: info@russellhughes.co.uk




GROUND FLOOR PLAN
Gross G.F. Internal Floor Area 50m



FIRST FLOOR PLAN
Gross Internal 1.F. Floor Area 50.0m



REAR ELEVATION




SIDE ELEVATION



FRONT ELEVATION

- WATERBURY
- STONEWALL DUNNO NATURAL SLATE
- GRAY LUPIC PANELS AND CUTTERS
- CEDRAL TIMBER CLADDING PANELS
- GRAY LUPIC WINDOWS AND DOORS

STONEWALL CLADDING PANELS





SIDE ELEVATION

Published & approved drawings, printed and/or electronic form.
Do not alter or reproduce.
Do not scale from this drawing.
P. 152 - 152 - 152

Architect: **CAE BODLONDEL, CHWILLOG**
Project: **PROPOSED HOUSE TYPE 1 3 BED AFFORDABLE**

Client: **CAE BODLONDEL, CHWILLOG**
Project: **PROPOSED HOUSE TYPE 1 3 BED AFFORDABLE**
Scale: **1:100 A2**
Date: **May 2020**

russell-hughes cyf
54 Bridge Street,
Llanelli,
Tyne Valley,
LL77 7JH
Tel: 01249 723333
Fax: 01249 720400
E-mail: info@russell-hughes.co.uk




Approved & subject to planning permission
 On your site - 20/20/20/20
 On your site - 20/20/20/20
 If it is not - 20/20/20/20

Materials - 20/20/20/20

Client: CAE BODLONDER, CHWILLOG
 Proposed: PROPOSED HOUSE TYPE 2 3 BED
 2776/205
 1:100
 July 2020

russell-hughes cyf
 56 Beldale Street, Llangelli, 1975, Plas, LL77 7YH
 Tel: 01248 722833
 Fax: 01248 750600
 Email: info@russell-hughes.co.uk



- PLOTS 1-4, 8-9 3 Bedroom 5 person 114m²
- PLOTS 5-7, 10-12 3 Bedroom 5 person 100m²
- PLOTS 13-18 4 Bedroom 7 person 146m² + 18m² single garage

Yn eiddo'r awyrded hon, dim gwarantwch ydych chi chi gael gwybodaeth am y cyfnewidiadau a'r hysbysu. Dim gwarantwch ydych chi chi gael gwybodaeth am y cyfnewidiadau a'r hysbysu.

Yn eiddo'r awyrded hon, dim gwarantwch ydych chi chi gael gwybodaeth am y cyfnewidiadau a'r hysbysu.

CAE BODLONDES
CAWLOG
 Rhwyfod - Cymru
PROPOSED PHASING DRAWING

2778-2008
1800 08 A3
 July 2020

russell-hughes cyf
 architects

58 Bridge Street,
 Llanwrtyd,
 Ynys Môn,
 LL57 7JH
 Tel: 01248 22280
 Fax: 01248 750009
 E-mail: rh@russell-hughes.co.uk



Tud. 155



- NOTES**
1. DO NOT SCALE FROM THIS DRAWING.
 2. ALL LEVELS IN METERS UNLESS NOTED OTHERWISE ON DRAWING.
 3. ALL DIMENSIONS AND LEVELS TO BE CHECKED ON SITE PRIOR TO UNDERTAKING ANY WORKS, ORDERING MATERIALS OR FABRICATING ANY COMPONENTS.
 4. THIS DRAWING IS TO BE READ IN CONJUNCTION WITH ALL OTHER RELEVANT ENGINEERS AND ARCHITECTS DRAWINGS AND RELEVANT SPECIFICATION CLAUSES.

KEY

NO.	REV.	DESCRIPTION	DATE

CAE BODLONDEB, CHWILOG

PROPOSED DRAINAGE LAYOUT

PROJECT NO.	ISSUE NO.	DATE	SCALE	TITLE
10820	CCE V1 XX	40-40-88	C	80 0002 SI P01

REVISION	DATE	SCALE	ISSUE NO.
T W W	20/08/20	1:500	A0

CADARN
CONSULTING ENGINEERS

Address: CADARN Consulting Engineers,
Ty Elen Ysgafn,
Llanidloes,
Radnorshire,
Powys,
LL20 4AD. Tel: 01407 120912
E-mail: Admin@cadarnconsulting.co.uk

Tud. 156



Tud. 157



Tud. 158



Eitem 5.7

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Rhif : 7

Cais Rhif: C20/0674/41/MG

Dyddiad 21/08/2020
Cofrestru:

Math y Cais: Caniatau materion a gadwyd yn ôl

Cymuned: Llanystumdwy

Ward: Llanystumdwy

Bwriad: Cais ar gyfer materion a gadwyd yn ol a gwybodaeth draenio a datblygu cam wrth cam mewn cyswllt a chaniatad cynllunio amlinellol C16/1363/41/AM ar gyfer codi 9 ty sy'n cynnwys 3 fforddiadwy a ffordd mynediad.

Lleoliad: Cae Bodlondeb, Ger Ael y Bryn, Chwilog, LL53 6SH

Crynodeb o'r
Argymhelliad: CANIATÁU GYDA AMODAU

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

1. Disgrifiad:

- 1.1 Cais materion a gadwyd yn ôl a gwybodaeth draenio a datblygu cam wrth gan mewn cyswllt a caniatâd cynllunio amlinellol C16/1363/41/AM ar gyfer codi 9 tŷ sy'n cynnwys 3 fforddiadwy a ffordd fynediad.
- 1.2 Caniatawyd y cais amlinellol gyda llunwedd, graddfa, golwg a thirweddu wedi ei gadw yn ôl, ac felly mae'r cais gerbron ar gyfer asesu y materion hyn ynghyd a materion draenio a dylunio gam wrth gam sy'n destun amodau rhif 7 a 9 o'r caniatâd amlinellol. Mae egwyddor ynghyd a'r materion yn ymwneud gyda'r fynedfa eisoes wedi eu caniatáu o dan y cais amlinellol.
- 1.3 Nodir fod cais cynllunio C20/0673/41/MG hefyd wedi ei gyflwyno ar ail hanner y safle yng nghyd destun caniatâd amlinellol C16/1603/41/AM ar gyfer 9 tŷ ychwanegol (3 ohonynt yn fforddiadwy) ac sy'n defnyddio'r un fynedfa.
- 1.4 Mae'r safle presennol yn rhan o gae sy'n codi'n raddol o'r briffordd ac sydd wedi ei leoli tu ôl i dai presennol a ger stad Tŷ'n Rhos. Mae'r cais penodol yma yn ymwneud a hanner pellaf y safle a fyddai wedi ei leoli tu cefn i'r datblygiad sy'n destun y cais arall. Mae'r ddau gais yn cynnwys y ffordd fynediad. Mae'r rhan helaeth o'r safle erbyn hyn wedi ei leoli y tu allan i ffin ddatblygu pentref Chwilog, er fod y fynedfa rhwng eiddo Cartrefle ac Ael y Bryn yn parhau o fewn y ffin ddatblygu.
- 1.5 Mae'r cynlluniau a gyflwynwyd fel rhan o'r cais gerbron yn cadarnhau'r fynedfa yn unol â'r hyn a ganiatawyd o dan y caniatâd amlinellol. Mae llunwedd y safle yn dangos bwriad i ddarparu ffordd stad oddi ar y fynedfa sy'n fforchio; ynghyd a chodi 6 annedd ar wahân ar ochr chwith y ffordd stad a teras o 3 annedd fforddiadwy ar yr ochr dde. Mae'r rhan yma o'r datblygiad yn cynnwys 6 annedd 4 gwely farchnad agored a 3 annedd fforddiadwy 3 gwely.
- 1.6 Mae'r cynllun safle yn cadarnhau'r lefelau llawr gorffenedig. Mae dyluniad yr anheddau bwriedig yn syml ac mae bwriad gorffen yr anheddau gyda tho llechi a'r waliau allanol wedi eu gorchuddio a chladin carreg a cedar. Mae cynllun tirlunio hefyd wedi ei gyflwyno.
- 1.7 Mae cynlluniau o'r system draenio wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais sy'n dangos y modd o ddelio gyda dŵr wyneb, ac mae cynllun gam wrth gam hefyd wedi ei gyflwyno sy'n rhyddhau'r gofyniad amodau 7 a 9 sy'n gofyn am gynlluniau draenio a thirlunio.
- 1.8 Mae'r ACLI wedi gofyn am gynlluniau diwygiedig parthed parcio rhai o'r plotiau ond nid oes cynllun wedi ei dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

2. Polisiâu Perthnasol:

- 2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.
- 2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

2.3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017

TRA2: Safonau Parcio

TRA 4: Rheoli Ardrawiad Cludiant

PS 5: Datblygu cynaliadwy

PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu

PCYFF 3: Dylunio a siapio lle

PCYFF 4: Dylunio a thirweddu

PCYFF 6: Cadwraeth Dwr

PS 19: Gwarchod a lle bo'n berthnasol gwella'r amgylchedd naturiol

2.4 Polisiâu Cenedlaethol:

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11 - Chwefror 2021)

3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

C16/1363/41/AM - Cais amlinellol ar gyfer codi 9 tŷ sy'n cynnwys 3 tŷ fforddiadwy ynghyd a darparu mynedfa a lon stad - CANIATAU - 22.09.2017

C16/1603/41/AM - Cais amlinellol ar gyfer codi 9 tŷ sy'n cynnwys 3 tŷ fforddiadwy ynghyd a darparu mynedfa a lon stad - CANIATAU - 22-09-2017

C20/0673/41/MG - Cais ar gyfer materion a gadwyd yn ôl a gwybodaeth draenio a datblygu cam wrth cam mewn cyswllt a chaniatâd cynllunio amlinellol C16/1603/41/AM ar gyfer codi 9 tŷ sy'n cynnwys 3 fforddiadwy a ffordd mynediad - HEB EI BENDERFYNU

4. Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned/Tref:

Mae'r Cyngor Cymuned wedi cefnogi'r ceisiadau uchod yn dilyn ein cyfarfod ar 03.09.2020, ond rwyf wedi derbyn ymholiad gan Ysgrifennydd Pwyllgor Mynwent Chwilog yn dilyn ein cyfarfod yn datgan pryder mawr gan drigolion sydd yn byw gerllaw ynglŷn â'r ffos/dwr/ a draenio yn dod o'r cae uchod.

Dwr Cymru:

Nodwn, o fod wedi asesu gosodiad y cynllun draenio arfaethedig, y bwriedir i'r llif dŵr aflan gael ei gysylltu â'r garthffos dŵr aflan gyhoeddus 225mm a leolir yn yr B4354 a bod y llif dŵr wyneb yn gollwng i system ffos gerrig. Ar y sail mai dim ond dŵr aflan y

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

bwriedir ei gysylltu â'r system garthffos gyhoeddus yn y lleoliad a ddangosir, nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r trefniadau draenio arfaethedig.

Uned Drafnidiaeth:

Dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau, ac yn argymhell yr amodau yn y rhestr islaw.

Mae angen cynnwys amod neu nodyn ychwanegol i adnabod yr angen i ail-leoli'r twmpathau cyflymder ar y ffordd fawr, y golofn golau stryd ac unrhyw beth arall sy'n gwrthdaro a leoliad yr adwy, a dwi di cynnig rwbath ar gwaelod y rhestr.

Dwi hefyd yn nodi mymryn o wahaniaeth rhwng cynlluniau Cadarn a Russell Hughes – un dangos y ffordd stad yn phase 2 yn darfod cyn y ddau tŷ pen ac yn troi i mewn i ffordd breifat, y llall yn dangos y ffordd stad reit i'r pendraw ond i'r llwybrau troed darfod cyn y ddau tŷ pen. O ddewis hoffwn gweld dyluniad ffordd stad fel sy'n cael ei ddangos gan Cadarn.

Lle'n bosibl hoffwn gweld parcio'n cael ei ddarparu ochr wrth ochr yn hytrach nag un tŷ ôl y llall. Mae rhan fwyaf o'r tai yn cynnig darpariaeth fel hyn, ar wahân i ddau, ond dwi'n meddwl y byddai'n bosibl addasu parcio plot 8 i siwtio'r uchod.

Dyma rhestr o amodau/nodiadau:

Mynedfa

Ffordd stad

cyrbiau

cam wrth gam

parcio

nodweddion tawelu traffig

mabwysiadu ffordd

Uned Llwybrau:

Heb eu derbyn

Bioamrywiaeth:

Dim sylwadau

Uned Draenio Tir:

GWYBODAETH: Mae ein mapiau'n dangos fod system dŵr wyneb wedi ei chylfatio yn rhedeg trwy'r safle datblygu arfaethedig. Rydym

Tud. 162

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

yn argymhell fod y datblygwr yn nodi union lwybr y system a'n osgoi gosod / codi unrhyw strwythurau o fewn 3m iddi oherwydd gallai hyn atal cynnal a chadw yn y dyfodol. Bydd angen Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin ar gyfer unrhyw waith a allai effeithio ar lif y nant a dylid cysylltu â FCRMU@gwynedd.llyw.cymru i gael cyngor pellach.

Bydd perchennog y tir yn gyfrifol am gynnal a chadw unrhyw gylfat o fewn eu eiddo yn y dyfodol.

Ers y 7fed Ionawr 2019, mae angen systemau draenio cynaliadwy (SDC) i reoli dŵr wyneb ar gyfer pob datblygiad newydd o fwy nac 1 tŷ neu lle mae'r arwynebedd adeiladu gydag oblygiadau draenio yn 100m² neu fwy. Rhaid i systemau draenio fod wedi eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â safonau gofynnol ar gyfer draenio cynaliadwy a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r systemau hyn gael eu cymeradwyo gan Gyngor Gwynedd yn ei rôl fel Corff Cymeradwyo SDC (CCS) cyn y bydd gwaith adeiladu'n dechrau.

Hefyd yn ôl rhan 2.39 o Ganllawiau Statudol ar Ddraenio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru bydd cymeradwyaeth CCS (SAB) yn ofynnol os dyfarnwyd y caniatâd cynllunio gydag amod ynghylch mater a gedwir yn ôl (h.y. cyn Ionawr 2019) ac os na wneir cais am gymeradwyaeth i'r mater a gedwir yn ôl cyn 7 Ionawr 2020.

Oherwydd maint a natur y datblygiad, bydd angen cyflwyno cais i'r SAB i'w gymeradwyo cyn i'r gwaith adeiladu gychwyn. Mae strategaeth ddraenio a chynllun cysylltiedig wedi eu cyflwyno gyda'r cais sy'n dangos fod y datblygwr yn ystyried dulliau draenio cynaliadwy, ond hyd nes y gwneir cais i'r SAB mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd a fyddai cynllun arfaethedig y safle yn galluogi'r datblygiad i gydymffurfio'n llawn â'r gyfres o safonau SuDS cenedlaethol.

Cyfoeth Naturiol Cymru: Dim sylwadau i'w cynnig

Uned Strategol Tai: Heb eu derbyn

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybuwyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben ar 02.10.2021 a derbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu'r bwriad:

- Materion draenio

5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

Egwyddor y datblygiad

- 5.1 Mae'r cais gerbron ar gyfer materion a gadwyd yn ôl yn dilyn caniatâd amlinellol ar gyfer codi 9 ty 3 i fod yn fforddiadwy. Mae egwyddor y bwriad gan gynnwys materion mynedfa, ynghyd a'r elfen fforddiadwy a materion lle cyn agored eisoes wedi eu caniatáu ac felly nid oes modd i'r cais yma ail asesu'r materion yma yn unol â'r drefn ceisiadau amlinellol a materion a gadwyd yn ôl.
- 5.2 Nodir fod y cais amlinellol yn destun cytundeb 106 oedd yn sicrhau'r elfen fforddiadwy ynghyd a taliadau ar gyfer lle cynnau agored ac addysg. Roedd y caniatâd amlinellol yn nodi math penodol o gymysgedd dai (6 ty 4 gwely farchnad agored a 3 ty fforddiadwy 3 gwely) ac mae'r elfennau yma eisoes wedi eu caniatáu drwy'r cais amlinellol.
- 5.3 O ganlyniad yr unig faterion a asesir yn y cais hwn yw materion dyluniad, llunwedd, graddfa a thirwedd.

Mwynderau gweledol, cyffredinol a phreswyl

- 5.4 Mae'r safle sy'n destun y cais yma wedi ei leoli ym mhen pellaf y safle a'r tai agosaf fyddai'r rhai hynny oedd yn destun ceisiadau C16/1603/41/AM ac C20/0673/41/MG. Ar adeg y cais amlinellol cydnabyddir fod yr egwyddor o godi tai ar y safle yn dderbyniol wrth fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Unedol gan fod y safle wedi ei ddynodi ar gyfer codi tai ar y pryd. Nodir ar adeg y cais amlinellol hefyd fod dwysedd y datblygiad yn dderbyniol ac fod maint y tai yn addas o safbwynt uchafswm a graddfa (gan gynnwys y tai fforddiadwy), a'i fod y bosib drwy amodau a thrwy ystyried y manylion llawn reoli gweddill y datblygiad yn dderbyniol.
- 5.5 Mae llunwedd y bwriad gerbron yn cyd-fynd gyda'r hyn a gynnigir ar adeg y cais amlinellol, ac mae'r cynllun safle bwriedig yn cadarnhau fod y datblygiad yn dderbyniol o ran effaith ar gweddill tai'r datblygiad.
- 5.6 Mae nodweddion dyluniadol amrywiol yn yr ardal. Mae'r dyluniad, gorffeniad a'r tirwedd bwriedig yn syml ac ystyrir ei fod yn cydweddau a'r ardal ac yn dderbyniol o ran effaith weledol.
- 5.7 Ni ystyrir y byddai'r bwriad yn debygol o gael effaith niweidiol ar unrhyw drigolyn cyfagos o ran goredrych nac effaith ar fwynderau.
- 5.8 Ystyrir fod y manylion yma yn dderbyniol ac yn cydymffurfio a gofynion pholisïau PS5, PCYFF 2, 3 a 4 o'r CDLI.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Materion Priffyrdd

- 5.9 Mae'r fynedfa i'r safle eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio o dan y cais amlinellol, ac mae amod cynllunio ar gyfer cwblhau'r fynedfa yn unol â'r cynllun a ganiatwyd cyn cychwyn unrhyw waith pellach ar y cynllun yn bodoli ar y caniatâd amlinellol yn barod.
- 5.10 Mae'r Uned Drafnidiaeth wedi codi rhai materion ynglŷn â'r drefn parcio a llwybr troed ac mae'r sylwadau yma wedi eu pasio i asiant y cais ar gyfer eu datrys. Mae'r Uned Drafnidiaeth yn ffyddiog fod y datblygiad yn dderbyniol o ran parcio a diogelwch ffyrdd, ac mae'r newid bychan i drefn parcio yn golygu gosod cerbydau ochr wrth ochr yn lle un to ol i'r llall, a'r mater llwybr troed yn golygu sicrhau fod y cynlluniau sydd wedi eu cyflwyno yn cyfateb a'u gilydd. Yn ddarostynedig i dderbyn y cynlluniau diwygiedig o ran hyn ac amodau i sicrhau gorffeniad y ffordd stad, datblygiad gam wrth gam a parcio, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio a gofynion polisiau TRA 2 a 4 o'r CDLI.

Materion Draenio

- 5.11 Mae'r wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais hefyd yn cynnwys cynllun draenio sy'n dangos fod bwriad delio gyda dŵr wyneb drwy sianeli tan ddaear a 'swale' agored.
- 5.12 Mae Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Uned Draenio tir wedi cadarnhau fod y wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno yn dderbyniol. Nodir fod Dwr Cymru wedi cadarnhau mai dim ond dwr aflan a fydd yn cysylltu i'r brif garthffos, ac nodir y byddai'r system draenio dŵr wyneb yn destun cais SUDS.
- 5.13 Mae sylwadau wedi eu derbyn gan drigolion lleol, yr Aelod Lleol yngyd a'r Cyngor Cymuned ynglŷn a materion draenio presennol ar y safle ac sy'n effeithio tai cyfagos. Mae swyddogion o'r Uned Draenio yn ymwybodol o'r sefyllfa ac wedi ymweld a'r safle. Yn ogystal, bydd angen dylunio'r system gwaredu dŵr wyneb er mwyn cydymffurfio a gofynion System Draenio Gynaliadwy (SuDS). Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd y system ddraenio newydd bydd mesurau cynnal a chadw yn cael eu cynnwys oddi fewn i gynllun systemau dwr cynaliadwy (SuDS) a fydd yn cael ei gymeradwyo gan Uned Dwr ac Amgylchedd y Cyngor yn ei rol fel Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC).
- 5.14 Ar sail y wybodaeth gerbron a'r sylwadau a dderbynnir gan yr ymgynghorwyr statudol, ystyrir fod modd delio gyda materion draenio mewn ffordd derbyniol ac effeithlon ac felly mae'r bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi PCYFF 6.

Datblygu gam wrth gam

- 5.15 Mae'r safle yma yn ei gyfanrwydd yn destun dau ganiatâd cynllunio amlinellol ac wrth ddelio gyda'r ceisiadau hynny penderfynwyd yr oedd yn rhesymol i osod amod cynllunio i gytuno ar gynllun datblygu gam wrth gam er mwyn sicrhau datblygiad trefnus o'r safle. Mae amod cynllunio yn bodoli ar y caniatadau amlinellol sy'n sicrhau fod y fynedfa yn cael ei gwblhau cyn gweddill y datblygiad, ac mae'r cynllun cam wrth gam sydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais yn cadarnhau y byddai'r rhan agosaf i'r fynedfa yn cael ei ddatblygu gyntaf, ac wedyn y rhan o'r safle sydd wedi ei leoli tu cefn (y rhan sy'n destun y cais yma).
- 5.16 Ystyrir fod hyn yn dderbyniol ac yn sicrhau datblygiad trefnus o'r safle.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus

5.17 Yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus, derbyniwyd sylwadau ynglŷn â materion draenio ar y safle. Mae'r materion hyn wedi derbyn sylw uchod, ac bydd y datblygiad yn destun cais ar gyfer system draenio cynaliadwy ac felly ystyrir fod y wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais parthed hyn yn dderbyniol.

6. Casgliadau:

6.1 Cadarnheir felly fod y materion a gadwyd yn ol ar ganiatad amlinellol ar gyfer codi 9 ty sy'n cynnwys 3 fforddiadwy a ffordd mynediad o dan gyfeirnod C16/1363/41/AM ynghyd a rhyddhau amodau 7 a 9 o'r caniatad amlinellol sy'n ymwneud a materion draenio a datblygu gan wrth gam yn dderbyniol ac yn unol â'r polisiau cynllunio a nodir uchod.

7. Argymhelliad:

Caniatau

Amodau priffyrdd

Nodyn fod amodau 7 a 9 o'r caniatad amlinellol sy'n ymwneud a materion draenio a datblygu gam wrth gam wedi eu rhyddhau fel rhan o'r caniatad yma.

Nodyn SUDS

C20/0674/41/MG

Cais ar gyfer materion a gadwyd yn ol a gwybodaeth draenio a datblygu cam wrth cam mewn cyswllt a chaniatad cynllunio amlinellol C16/1363/41/AM ar gyfer codi 9 ty sy'n cynnwys 3 fforddiadwy a ffordd mynediad. / Reserved matters application together with drainage and phasing details in relation to outline planning permission C16/1363/41/AM for the erection of 9 dwellings including 3 affordables and access road.

Cae Bodlondeb, Ger Ael Y Bryn, Chwillog, LL53 6SH





Yn eiddo'r awyrgylch hon, dim gwarantiaeth ydychydig. Dim gwarantiaeth ydychydig. Dim gwarantiaeth ydychydig.

Yn eiddo'r awyrgylch hon, dim gwarantiaeth ydychydig. Dim gwarantiaeth ydychydig. Dim gwarantiaeth ydychydig.

Yn eiddo'r awyrgylch hon, dim gwarantiaeth ydychydig. Dim gwarantiaeth ydychydig. Dim gwarantiaeth ydychydig.

Yn eiddo'r awyrgylch hon, dim gwarantiaeth ydychydig. Dim gwarantiaeth ydychydig. Dim gwarantiaeth ydychydig.

Yn eiddo'r awyrgylch hon, dim gwarantiaeth ydychydig. Dim gwarantiaeth ydychydig. Dim gwarantiaeth ydychydig.





FLOTS 1-4, 8-9 3 Bedroom 3 person 114m²

FLOTS 5-7, 10-12 3 Bedroom 5 person 100m²

FLOTS 13-18 4 Bedroom 7 person 146m² + 18m² single garage

Yn parhysu'r parhysau parhysau cyffwrdd
Cy 21 1998 - 1999
Cy 21 1998 - 1999
Cy 21 1998 - 1999


Yn parhysu'r parhysau parhysau cyffwrdd
Cy 21 1998 - 1999
Cy 21 1998 - 1999
Cy 21 1998 - 1999

CAE BODLONDB
CHWYLOG
PROPOSED SITE PLAN


Yn parhysu'r parhysau parhysau cyffwrdd
Cy 21 1998 - 1999
Cy 21 1998 - 1999
Cy 21 1998 - 1999

russell-luetho cyf
Yn parhysu'r parhysau parhysau cyffwrdd
Cy 21 1998 - 1999
Cy 21 1998 - 1999
Cy 21 1998 - 1999

Yn parhysu'r parhysau parhysau cyffwrdd
Cy 21 1998 - 1999
Cy 21 1998 - 1999
Cy 21 1998 - 1999




GROUND FLOOR PLAN
Gross G.F. Internal Floor Area 50m



FIRST FLOOR PLAN
Gross Internal 1.F. Floor Area 50.0m



REAR ELEVATION




SIDE ELEVATION



FRONT ELEVATION

- MATERIALS
- STONEWARE CLADDING NATURAL SLATE
- GREY UPVC FACIAS AND OUTRIGS
- CEDRAL TIMBER CLADDING PANELS
- GREY UPVC WINDOWS AND DOORS
- STONEWARE CLADDING PANELS



SIDE ELEVATION

Published & displayed in accordance with the provisions of the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1987 (as amended) and the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Regulations 2017. This document is for informational purposes only. It is not to be used for any other purpose.


Author: Architect

Client: **CAE BODLONDEI, CHWILLOG**
Project Name: **PROPOSED HOUSE TYPE 1 3 BED AFFORDABLE**

Reference Number: **277620-4**
Scale: **1:100 A2**
Date: **May 2020**

russell-hughes cyf
54 Bridge Street, Llangefeli, LL37 7JH
Tel: 01248 722333
Fax: 01248 720400
Email: info@russell-hughes.co.uk

Tud. 172



Details to be agreed with the local authority planning department. The drawings are for information only and are not to be used for any other purpose without the written consent of the architect.

Architect: Architects

Order No: 7506
 CAE BOOLONDER,
 CHWILLOG


Project: Dwelling
 PROPOSED HOUSE TYPE 3 4 BED

Reference: 2776-206
 Scale: 1:100
 Date: July 2020

russell-hughes cyf

27 Sedge Street,
 Llanelli,
 Carmarthenshire,
 SA31 3JH

Tel: 01448 722333
 Fax: 01448 750600
 Email: info@russellhughes.co.uk



PLOTS 1-4, 8-9 3 Bedroom 5 person 114m²
 PLOTS 5-7, 10-12 3 Bedroom 3 person 100m²
 PLOTS 13-18 4 Bedroom 7 person 146m² + 18m² single garage



Yn eiddo o gyfraith hon, dim gwarantiaeth ydychydig i'w rhoi i'r ynnwngyd. Dim gwarantiaeth ydychydig i'w rhoi i'r ynnwngyd. Dim gwarantiaeth ydychydig i'w rhoi i'r ynnwngyd.

Project Name

Drawn by
CAE BODLONDEB
CNYWLOG
 27762016
 1:200 BS A3
 Issue Date
 July 2020
PROPOSED PHASING DRAWING

Project Name
russell-hughes cyf
 27762016
 1:200 BS A3
 Issue Date
 July 2020

26 Sir Forg Brwn,
 Llangili,
 1799 Plas
 LL27 9YF
 Tel: 01294 722051
 Fax: 01294 720008
 Email: rh@russell-hughes.co.uk

Tud. 174



NOTES

- DO NOT SCALE FROM THIS DRAWING.
- ALL LEVELS IN METERS UNLESS NOTED OTHERWISE ON DRAWING.
- ALL DIMENSIONS AND LEVELS TO BE CHECKED ON SITE PRIOR TO UNDERTAKING ANY WORKS. ORDERING MATERIALS OR FABRICATING ANY COMPONENTS.
- THIS DRAWING IS TO BE READ IN CONJUNCTION WITH ALL OTHER RELEVANT ENGINEERS' AND ARCHITECT'S DRAWINGS AND RELEVANT SPECIFICATION CLAUSES.

KEY

NO	REV	DATE	DESCRIPTION	BY	CHECKED

PROJECT TITLE
CAE BODLONDEB, CHWILOG

DRAWING TITLE
PROPOSED DRAINAGE LAYOUT

PROJECT NO	10820	CLIENT	CCE	DATE	V1	SCALE	XX	DATE	40-40-88	REV	C
CLASSIFICATION	80	NO	0002	S1	P01	DATE		DATE			

DATE	20/08/20	SCALE	1:500	REV	A0
------	----------	-------	-------	-----	----

CADARN
CONSULTING ENGINEERS

Address: CADARN Consulting Engineers,
Ty Haf Yrfa,
Llanidloes,
Radnorshire,
Powys,
LL21 4AD. E-mail: Admin@cadarnconsulting.co.uk Tel: 01497 139812

Tud. 175



Tud. 176



Tud. 177



Eitem 5.8

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

Rhif: 8

Cais Rhif: C20/0040/35/LL

Dyddiad 10-01-2020

Cofrestru:

Math y Cais: Llawn

Cymuned: Criccieth

Ward: Criccieth

Bwriad: Codi ty preswyl newydd

Lleoliad: Sibrwd Y Gwynt Morannedd, Criccieth, LL52 0PP

**Crynodeb o'r
Argymhelliad: GWRTHOD**

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

1. Disgrifiad:

- 1.1 Mae'r cais yn ymwneud gyda chodi tŷ newydd a chreu mynedfa gerbydol oddi ar y ffordd stad.
- 1.2 Mae'r safle wedi ei leoli ar blot cul o fewn stad o dai amrywiol sydd ar lethr. Mae wedi ei leoli rhwng dwy annedd ac mae ffordd bengaead wedi ei leoli union o'i flaen, ac yna mae tai eraill wedi eu lleoli wedi hynny. Mae'r safle o fewn ffin datblygu tref Criccieth.
- 1.3 Mae'r safle wedi bod yn destun sawl cais cynllunio ac apêl sydd wedi eu nodi isod o dan hanes cynllunio'r safle. Caniatwyd tŷ deulawr gyda mynedfa yn dilyn apêl yng nghyswllt a chais C08D/0570/35/LL, ac mae'r caniatâd yma yn parhau yn fyw ar y safle.
- 1.4 Mae'r bwriad i godi tŷ deulawr tair llofft ar y safle gyda balconi wedi ei gau ar y blaen. Gan fod y safle ar lethr, bydd yn ofynnol cloddio i mewn i'r safle a gosod y tŷ bwriedig yn y tir rhywfaint. Mae'n ymddangos o'r cynlluniau sydd wedi eu cyflwyno y byddai'r tŷ newydd yn mesur oddeutu 14m wrth 11m ac y byddai'r rhan uchaf o'r to yn mesur oddeutu 7m o uchder i'r crib ar y blaen. Byddai'r eiddo a tho chrib llechi a waliau cedar.
- 1.5 Bu i'r Pwyllgor Cynllunio ohirio gwneud penderfyniad ar y cais yn eu cyfarfod ar yr 22ain o Fawrth, 2021 er mwyn gofyn i swyddogion drafod y deunydd toi a chladio allanol gyda'r ymgeisydd. Mae'r bwriad fel y'i gyflwynwyd yn wreiddiol yn dangos to a waliau allanol o ddu lliw llwyd ac roedd Aelodau'r Pwyllgor yn datgan pryder am addasrwydd y deunydd o ddu lliw llwyd tywyll yn y lleoliad yma. O ganlyniad bu i swyddogion drafod hyn gyda'r ymgeisydd a derbyniwyd cadarnad fod bwriad i newid y deunydd toi i lechi a bwriad i gladio'r waliau allanol gyda choedyn cedar.
- 1.6 Mae'r cais gerbron yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio ar alw'r Aelod Lleol.

2. Polisiâu Perthnasol:

- 2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.
- 2.2 O dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy a hefyd i gymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi gan gymryd i ystyriaeth dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi ei ddatgan yn y Ddeddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ymgeisio i sicrhau fod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol neu annerbyniol ar gyflawniad yr amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.
- 2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

PS 5: Datblygu cynaliadwy

PCYFF 1: Ffiniau Datblygu

PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

PCYFF 3: Dylunio a siapio lle

PCYFF 4: Dylunio a thirweddu

PCYFF 6: Cadwraeth Dwr

TRA 2: Safonau parcio

TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant

TA1 2: Tai mewn Canolfannau Gwasanaeth Lleol

PS20: Diogelu a Lle bo'n berthnasol wella asedau treftadaeth

AT1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol, Cofrestredig

Canllaw Cynllunio Atodol- Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy

2.4 **Polisiâu Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11 - Chwefror 2021)

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio (2009)

3. **Hanes Cynllunio Perthnasol:**

C04D/0700/35/AM – Codi tŷ annedd GWRTHOD 17.12.2004

C04D/0259/35/AM – Codi tŷ annedd GWRTHOD 17.05.2004

C05D/0513/35/AM – Codi tŷ deulawr GWRTHOD 17.10.2005

C06D/0099/35/AM – Codi tŷ annedd GWRTHOD 16.05.2006

C06D/0479/35/AM – Codi tŷ annedd deulawr GWRTHOD 18.10.2006 – Apêl APP/Q6810/A/07/2042508/WF Gwrthod 20.07.2007

C08D/0570/35/LL – Codi tŷ deulawr a mynedfa gerbydol GWRTHOD 13.07.2010 Apêl APP/Q6810/A/11/2144394/WF CANIATAU 04.04.2011

C16/0255/35/AC - Rhyddhau amodau 3,4 a 5 o ganiatâd apêl APP/Q6810/A/11/2144394/WF - PENDERFYNIAD CYMYSG 26.04.2016

C18/1082/35/LL – Cais ar gyfer codi tŷ newydd a mynedfa gerbydau – GWRTHOD – 14.01.2019

Mae cyngor o flaen llaw wedi ei gynnig ar sawl achlysur yn cadarnhau fod yr opsiynau sydd wedi eu cyflwyno yn rhy fawr ac uchel i'r safle ac yn mynd yn groes i'r hyn a ganiatawyd o dan yr apêl diweddaraf.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

4. Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned/Tref: Dim gwrthwynebiad

Dwr Cymru: Amod cynllun draenio

Uned Drafnidiaeth: Cyfeirir at y cais uchod a chadarnhaf nad oes gennyf wrthwynebiad i'r bwriad. Argymhellaf cynnwys yr amodau / nodiadau sy'n ymwneud ac atal dŵr wyneb rhedeg i'r ffordd, cwblhau lle parcio a gosod cyrbiau smwt ar unrhyw caniatâd cynllunio a roddir

Cyfoeth Naturiol Cymru: Dim sylwadau i'w cynnig

CADW: Heb eu derbyn

Uned Draenio Tir: Heb eu derbyn

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybuwyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben ar 18.02.2020 a derbyniwyd 2 ohebiaeth yn gwrthwynebu'r bwriad:

- Dyluniad a deunyddiau allan o gymeriad
- Adeilad wedi ei leoli tu allan i linell adeiladu yr ardal
- Adeilad yn rhy uchel
- Potensial tirlithrio yn ystod gwaith
- Ffordd stad yn anaddas ar gyfer traffic gwaith
- Goredrych i'r eiddo o flaen ac bob ochr – nodi fod posibilrwydd na fydd y gwrych tu cefn i'r eiddo dros y ffordd yn bodoli am byth
- Effaith sŵn gwaith
- Parcio

5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

Egwyddor y datblygiad

5.1 Mae safle'r cais wedi ei leoli o fewn ffin datblygu pentref Criccieth. Mae lefel cyflenwad dangosol o dai i Criccieth dros gyfnod y Cynllun, fel nodir yn Atodiad 5 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, yn 164 uned (sydd yn cynnwys 'lwfans llithro' o 10%, sydd yn golygu bod y

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

modd o gyfrifo'r ffigwr wedi cymryd i ystyriaeth amgylchiadau posib na'u rhagwelwyd a allai ddylanwadu ar ddarparu tai e.e. materion perchnogaeth tir, cyfyngiadau seilwaith a.y.b.). Ceir un dynodiad yng Nghriccieth sef T41 ar gyfer amcangyfrif o 34 uned efo'r 130 unedau sy'n weddill yn cael ei darparu ar safleoedd ar hap. Yn y cyfnod 2011 i 2020, mae cyfanswm o 40 uned wedi eu cwblhau yn Criccieth (i gyd ar safleoedd ar hap), roedd y banc tir h.y. safleoedd gyda chaniatâd cynllunio presennol yn Ebrill 2020 yn 63 o unedau (eto i gyd ar safleoedd ar hap). Golyga hyn fod yna gapasiti o fewn cyflenwad dangosol Criccieth ar gyfer y datblygiad sy'n ffurfio rhan o'r cais yma.

- 5.2 Mae'r cais gerbron ar gyfer codi annedd deulawr newydd gyda mynedfa gerbydol oddi ar y ffordd stad. Mae hanes cynllunio hir i'r safle yma; ac mae 6 cais cynllunio wedi ei wrthod ar y safle. Mae caniatâd wedi ei roi ar y safle drwy apêl ar sail y cynlluniau a gyflwynwyd fel rhan o gais C08D/0870/35/LL, ac mae'r caniatâd hynny yn parhau yn fyw. Nodir fod penderfyniad yr Arolygydd wedi ei selio ar faterion a godwyd yn yr apêl yn 2007 a wrthodwyd, ac fod yr arolygydd o'r farn fod pryderon yr apêl hynny wedi eu goresgyn erbyn 2011. Mae'r adroddiad yma yn mynd i'r afael a'r materion hynny a godwyd yn yr apeliadau blaenorol; ac yn asesu'r bwriad yn erbyn polisïau cyfredol y Cynllun Datblygu Lleol.
- 5.3 Mae'r safle wedi ei leoli o fewn plot o dir bychan a chul o fewn stad Morannedd yng Nghriccieth. Mae'r safle ar lethr sy'n codi tua cefn y safle, ac mae wedi ei leoli rhwng dau eiddo gyda eiddo arall union o'i flaen gyferbyn a'r ffordd stad cul. Mae'r safle wedi ei leoli o fewn ffin datblygu'r dref ac yn ymddangos yn safle ar hap addas ar sail y penderfyniad apel diweddaraf. Er nad yw CADW wedi ymateb i'r ymgynghoriad hwn maent wedi cadarnhau ar y cais blaenorol na fyddai datblygu'r plot yma yn cael effaith ar heneb Cae'r Dynni oherwydd ei leoliad yng nghanol stad o dai presennol. Mae'r cais felly yn cydymffurfio gyda gofynion polisïau PCYFF 1, TAI 2 a PS20 o ran egwyddor o godi tŷ.

Mwynderau gweledol, cyffredinol a phreswyl

- 5.4 Mae'r safle wedi ei leoli o fewn plot o dir bychan a chul o fewn stad Morannedd yng Nghriccieth. Mae'r safle ar lethr sy'n codi tua cefn y safle, ac mae wedi ei leoli rhwng dau eiddo gyda eiddo arall union o'i flaen gyferbyn a'r ffordd stad cul.
- 5.5 Mae'r penderfyniadau apêl (gwrthod a chaniatáu) ar y safle yn gosod yn glir fod potensial i eiddo deulawr ar y safle yma beri goredrych ac effaith annerbyniol ar y trigolion gerllaw bob ochr ac i'r blaen. Mae'r penderfyniadau apêl yn dibynnu ar leoliadau ffenestri a lefelau llawr er mwyn sicrhau nad oes effaith andwyol ar yr tai cyfagos.
- 5.6 Mae'r cynllun a ganiatwyd o dan apêl 2011 yn golygu codi eiddo 9m wrth 10m ac oddeutu 7.5m o uchder i'r crib. Nid yw'r dyluniad yn cynnwys unrhyw ffenestr ar y waliau ochr (heblaw am ffenestr velux yn y to), ond mae ffenestri llawr cyntaf yn y cefn (ystafell wely ac ystafell ymolchi) a ffenestr fawr ar yr edrychiad blaen ar y llawr gwaelod a dwy ffenestr ar y llawr cyntaf (ystafelloedd gwely). Penderfynwyd y byddai'r tŷ yma yn dderbyniol ar sail y nifer a lleoliad y ffenestri a lefel llawr i'w gytuno. Nodir fod y cynlluniau a gyflwynwyd gyda'r cais apêl yn nodi y byddai lefel llawr yr eiddo ychydig yn uwch na'r ffordd (oddeutu 0.3m) ac ystyrir oherwydd y byddai'n rhaid cloddio'r safle y byddai modd lleihau lefel llawr eto.
- 5.7 Mae asiant y cais wedi cyflwyno cynllun trawstoriad cymharol er mwyn dangos y bwriad gerbron yng nghyd destun yr un lefelau. Mae'r cynllun yma yn awgrymu fod y tŷ bwriedig yn cael ei osod yn ôl 1m o'i gymharu â'r tŷ sydd wedi ei ganiatáu ac ar sail fod y cynllun yma yn dangos y

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

byddai lefel llawr gorffenedig yr un fath a'r hyn sydd eisoes wedi ei ganiatáu, byddai'r eiddo ar ei uchaf oddeutu 0.5m yn is.

- 5.8 Mae'r tŷ sydd gerbron erbyn hyn oddeutu 4m yn lletach a 1m yn hirach na'r eiddo a ganiatawyd ac 0.5m yn is ar ei uchaf. Nodir fod yr eiddo wedi ei ddylunio gyda ongl ar y blaen fel nad yw'r edrychiad yn edrych allan i'r un cyfeiriad i gyd. Mae dyluniad yr eiddo yn golygu darparu drysau 'patio' neu 'bi-folding' yn yr ystafell wely ar y blaen ar y llawr cyntaf sy'n ymddangos yn agor ar ffurf balconi 'juliette', ynghyd a ffenestr hir ar dop y glanfa ac yn y 'stydi' ar y llawr cyntaf.
- 5.9 Mae'r cynllun safle hefyd yn cadarnhau y byddai'r tŷ bwriedig oddeutu 2m i ffin yr eiddo un ochr a 2.4m i ffin yr eiddo'r ochr arall. Mae'r stad ble lleolir safle'r cais wedi ei nodweddu gan eiddo llawr a hanner yn bennaf sydd wedi eu lleoli yn braf o fewn eu plotiau (h.y ddim yn agos at eu ffiniau gyda'r eiddo drws nesaf) a gyda agoriadau lleiafrifol ar eu blaen ac ar y llawr cyntaf.
- 5.10 Mae'r penderfyniadau apêl yn cadarnhau y byddai'r safle yma yn addas ar gyfer eiddo preswyl cul. Mae'r annedd gerbron felly ychydig yn is o ran crib y to na'r hyn a ganiatawyd ond yn lletach ac yn cynnwys mwy o agoriadau ar y llawr cyntaf. Ystyrir nad yw'r lleihad mewn uchder yn gyfaddawd am yr effaith andwyol o gynyddu ei led ac ychwanegu agoriadau ar y llawr cyntaf.
- 5.11 Mae'r eiddo gerbron yn ddeulawr gyda'r rhan fwyaf o'r agoriadau ar y blaen ac ar y lefel llawr cyntaf ac ystyrir nad yw hyn yn cyd-fynd gyda patrwm yn y rhan yma o'r stad, ac ei fod yn achosi effaith gormesol a'r teimlad o or-edrych dros gweddill y stad. Ystyrir yn byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol sylweddol yn fwy ar eiddo Pen y Bryn sydd wedi ei leoli yn union o flaen y safle, na'r hyn a grybwyllwyd yn dderbyniol yn ystod apêl 2011.
- 5.12 Nodir fod trigolion Pen y Bryn wedi gwrthwynebu'r cais gan nodi y dylai asesu'r effaith y bwriad ar eu eiddo heb gymeryd i ystyriaeth y gwrych presennol tu cefn i'w eiddo, gan eu bod yn ceisio lleihau ei uchder ac mae potensial na fydd y gwrych yn bodoli yno yn y dyfodol oherwydd gwaith cynnal a chadw cysylltiol. Nodir fod gan unrhyw eiddo hawl i osod ffens, wal neu wrych o gwmpas eu heiddo er mwyn diogelu eu preifatrwydd, a chan fod y gwrych/ffens yn bodoli yma mae'n ofynnol cymryd i ystyriaeth yr hyn a gellir y trigolion ei wneud eu hunain i'w diogelu fel rhan o asesiad y cais.
- 5.13 Er gwaethaf yr uchod, ac er nad yw'r cynlluniau a gyflwynwyd fel rhan o'r cais yn dangos yr eiddo newydd mewn cyd-destun a'r ddau eiddo drws nesaf o ran uchder, ystyrir fod yna ddigon o wybodaeth wedi ei gyflwyno er mwyn cadarnhau y byddai'r tŷ gerbron, oherwydd ei faint (yn benodol ei led a'i swmp), lleoliad y ffenestri/drysau a balconïau ar yr edrychiad blaen a'r dyluniad modern yn cael effaith andwyol sylweddol ar fwynderau a phreifatrwydd rhesymol eiddo Pen y Bryn sydd wedi ei leoli gyferbyn a ffordd stad safle'r cais, ac y byddai yn elfen estron yn y dirwedd a'r ardal. Mae swyddogion yn croesawu y ffaith fod yr ymgeisydd yn awr yn bwriadu toi'r datblygiad gyda llechi a chladio'r waliau allanol gyda choedyn cedar.
- 5.14 Ystyrir hefyd fod maint yr eiddo (yn benodol ei led a'i swmp) yn golygu nad yw'r eiddo yn cydweddu a phatrwm adeiladu a dyluniad y stad – sy'n cynnwys tai llawr a hanner yn bennaf o fewn plotiau sy'n cynnwys y tai yn braf.
- 5.15 Ystyrir felly fod y bwriad yn groes i ofynion maen prawf 13 PS 5, maen prawf 1 PCYFF 2, meini prawf 1 a 10 PCYFF3 ar sail effaith ar fwynderau eiddo gerllaw, ac nad yw'n hyrwyddo safonau

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

dyluniad uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal leol nac yn ychwanegu at na gwella cymeriad ac ymddangosiad y safle.

Materion trafndiaeth a mynediad

- 5.16 Ymgynghorwyd gyda'r Uned Drafnidiaeth parthed y bwriad, ac mae'r Uned Drafnidiaeth wedi cadarnhau nad oes gwrthwynebiad i'r datblygiad o ran parcio a mynediad yn ddarostynedig i amodau a fyddai'n sicrhau lle parcio a throï, gwarchod y ffordd rhag llif dwr a derbyn trwydded ar gyfer creu'r fynedfa.
- 5.17 Ystyrir y byddai'r bwriad yn gydnaws ac amcanion polisiâu TRA 2 a TRA 4 o'r Cynllun Datblygu Lleol o ran mynediad a chyfleusterau parcio.

Materion ieithyddol

- 5.18 Nid yw'r bwriad yn cyrraedd trothwyon sydd wedi eu gosod o fewn polisi PS1: Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig ar gyfer darparu tai newydd, ac mae caniatâd cynllunio presennol ar gyfer codi tŷ ar y safle.
- 5.19 Mewn amgylchiadau fel hyn mae'r CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy yn gofyn i ymgeisydd dangos sut mae'r bwriad wedi rhoi ystyriaeth i faterion ieithyddol. Mae'r bwriad gerbron ar gyfer codi tŷ annedd ar leoliad sydd eisoes yn elwa o ganiatâd cynllunio ar gyfer annedd sydd eto i'w godi. Mae'r egwyddor o godi tŷ annedd ar y safle eisoes wedi ei sefydlu felly ac yn gyfle i deuluoedd lleol aros neu symud yn ôl i'r ardal, ac mae'r ymgeiswyr yn deulu lleol Cymraeg sydd yn symud yn ôl i'r ardal. Byddai potensial defnyddio gweithlu leol ar gyfer y gwaith ar y safle. Mae'r ymgeisydd wedi darparu datganiad sut ynglŷn a sut mae'r bwriad wedi rhoi ystyriaeth i faterion ieithyddol ac ystyrir felly fod y bwriad gyda potensial i gael effaith bositif ar y iaith yn yr ardal.
- 5.20 Ar sail yr uchod, ni ystyrir y byddai'r bwriad yn groes i ofynion penodol polisi PS1 o'r CDLI na gofynion y CCA 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy'.

Materion Draenio

- 5.21 Byddai'r bwriad yn destun cais systemau draenio cynaliadwy (SDC) i reoli dŵr wyneb, ac y byddai'r system yma yn cael ei gymeradwyo gan Corff Cymeradwyo SDC fel proses ar wahân i'r drefn cynllunio. Rhaid i systemau draenio fod wedi eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â safonau gofynnol ar gyfer draenio cynaliadwy a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru cyn eu caniatáu yn ffurfiol. Mae'r ACLI wedi ymgynghori gyda'r Uned Draenio y Cyngor ond nid oes ymateb wedi ei dderbyn. Er hyn, ystyrir bod modd darparu draenio digonol ar y safle petai egwyddor y bwriad yn dderbyniol ac byddai hyn yn fater i'r corff cymeradwyo SDC yn bennaf. I'r perwyl hyn ni ystyrir fod y bwriad yn groes i bolisi PS6 o'r CDLI.

Yr ymateb i'r ymgymghoriad cyhoeddus

- 5.22 Yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus, derbyniwyd y sylwadau isod ar faterion cynllunio
- Dyluniad a deunyddiau allan o gymeriad
 - Adeilad wedi ei leoli tu allan i linnell adeiladu yr ardal
 - Adeilad yn rhy uchel

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 12/04/2021
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	

- Potensial tirlithrio yn ystod gwaith
- Ffordd stad yn anaddas ar gyfer traffic gwaith
- Goredrych i'r eiddo o flaen ac bob ochr – nodi fod posibilrwydd na fydd y gwrych tu cefn i'r eiddo dros y ffordd yn bodoli am byth
- Effaith sŵn gwaith
- Parcio

5.23 Ystyrir fod yr asesiad uchod wedi delio gyda'r holl faterion yma. Nodir petai caniatâd cynllunio yn cael ei roi, byddai modd rheoli effaith sŵn gwaith drwy amodau cynllunio yn rhwystro oriau gwaith, ac y byddai sicrhau fod y tir yn addas ar gyfer ei gloddio yn fater a byddai'n cael ei asesu gan o dan faterion Rheolaeth Adeiladu.

6. Casgliadau:

6.1 Ar sail yr asesiad uchod, ystyrir fod y bwriad yn annerbyniol oherwydd mae'r ACLL yn ystyried y byddai'r tŷ gerbron, oherwydd ei faint (yn benodol ei uchder a'i led) lleoliad y ffenestri/drysau a balconïau ar yr edrychiad blaen a'r lefelau llawr gorffenedig yn cael effaith andwyol sylweddol ar fwynderau a phreifatrwydd rhesymol eiddo Pen y Bryn sydd wedi ei leoli gyferbyn a'r ffordd stad safle'r cais.

Ystyrir hefyd fod maint yr eiddo (yn benodol ei uchder a'i led) yn golygu nad yw'r eiddo yn cydweddu a phatrwm adeiladu'r stad – sy'n cynnwys tai llawr a hanner yn bennaf o fewn plotiau sy'n cynnwys y tai yn braf. Ar sail hyn mae'r bwriad yn groes i ofynion maen prawf 13 PS 5, maen prawf 1 PCYFF 2, meini prawf 1 a 10 PCYFF3 ar sail effaith ar fwynderau eiddo gerllaw, ac nad yw'n hyrwyddo safonau dyluniad uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal leol nac yn ychwanegu at na gwella cymeriad ac ymddangosiad y safle.

7. Argymhelliad:

Gwrthod – rhesymau

1. Mae'r ty bwriedig yn groes i faen prawf 13 o bolisi PS5, maen prawf 1 o bolisi PCYFF2 a meini prawf 1 a 10 o bolisi PCYFF 3 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2017 o ganlyniad i faint a graddfa a dyluniad yr annedd newydd yn benodol ei uchder a'i led a lleoliad y ffenestri a balconïau ar yr edrychiad blaen sy'n golygu nad yw'r bwriad yn cydweddu a phatrwm adeiladu'r stad ac yn achosi effaith andwyol sylweddol ar fwynderau a phreifatrwydd trigolion eiddo sydd wedi ei leoli o flaen y safle.

C20/0040/35/LL

Codi ty preswyl newydd/

Erection of a new dwelling

**Sibrwd Y Gwynt Morannedd, Criccieth, Gwynedd,
LL52 0PP**





Prifwch a chyrrwngol masurwch graidd oddi ar y ddiagram hon
(Do not scale or copy from this drawing)
If in doubt - ask.
Plan derived from an illustration prepared by Russell-Hughes as to
dimensions given in its original form.
This drawing is the copyright of Russell-Hughes architects and
must not be copied or reproduced without permission.

Cyflun - Job
**MORANNEDD ESTATE,
CRICCIETH**
Dyddiad - Drawing
LOCATION PLAN

Plan Ddylunio - Drawing No.
2675:19:1
Graddfa - Scale
1:1250 A4
Dyddiad - Date
May 2019






Radwedd a rhyngwyf mesurir, gwaith wedi ar y ddiolled hys
Os yn amau - gofynnwch
Do not scale from this drawing
If in doubt - ask
Mae'r ddiolled hys yn hysbysu Pwrdd Russell-Hughes os ei
chennosir at gyswllt ar y gwybodaeth hys gollol
This drawing is the copyright of Russell-Hughes Architects and
must not be copied or reproduced without permission

Cyfeirir - 208
**MORANNEDD ESTATE,
CRICCIETH**
Dyluniad - Drawing
EXISTING TOPO SITE PLAN


RHW Dyluniad - Drawing No.
2675:19:2
Gwaith - Scale
1:500 A3
Dyddiad - Date
May 2019

russell-hughes cyf
persenolarchitects





Detailed image taken from the first floor balcony eye level at 66.768m
Image shows the minimal overlooking towards Pen-y-Bryn at a distance of 32.5m.




Detailed image taken from the first floor balcony eye level at 66.168m
Image shows the minimal overlooking towards Pen-y-Bryn at a distance of 34.2m,
while looking away from Pen-y-Bryn, see amended dwelling location.

Yn ôl y rheolwr o'r awyrdwr, gwyddir bod y dyluniad hwn yn hyspysu'r gwybodaeth a roddir yma yn ôl y rheolwr.
Mae'r awyrdwr yn hyspysu'r gwybodaeth a roddir yma yn ôl y rheolwr.
Mae'r awyrdwr yn hyspysu'r gwybodaeth a roddir yma yn ôl y rheolwr.
Mae'r awyrdwr yn hyspysu'r gwybodaeth a roddir yma yn ôl y rheolwr.


Cyfeirir i'r
**MORANNEDD ESTATE,
CRICCIETH**
Dyluniad - Drawing
SECTIONAL COMPARISSON

REF: 2675:19:10A
Dyddiad - Date
1:500
Dyddiad - Date
March 2021


russell-hughes cyf
planning|architecture



FRONT ELEVATION



SIDE ELEVATION



SIDE ELEVATION




REAR ELEVATION


- NATURAL SLATE ROOF COVERING
- HARDY CEDAR CLADDING OR SIMILAR
- ALUMINIUM WINDOWS & DOORS



Surface Water Management.
 The proposed roof will discharge into soakways together with Hard standing/ roadways.
 Porosity test has been included within the planning application.
 The surface water layout is indicative only.
 The system is subject to SUDS policy.
 The plan is for planning application purposes only.
 Full SUDS application to be submitted after pre-application meeting with Local Authority SAB team.
 Final design will be determined after vetting by the SAB team.
 Site levels may have to be raised to provide cover level required to drainage



GROUND FLOOR PLAN



GROUND FLOOR PLAN

Project: 2675; 19-4B
 City: Moranned Estate, Crickieth
 If in doubt call:
 01248 750600
 For a copy of the drawings or to discuss the project please contact:
 Russell Hughes

Plot: 19-4B
 Area: 1000sqm
 Approved: 26/05/2019
 Approved: 26/05/2019

Client: MORANNED ESTATE, CRICKIETH
 Date: 26/05/2019
 AS PROPOSED OPTION 3

Scale: 1:100
 Date: May 2019

russell-hughes cyf
 people for places

56 Bridge Street,
 Llangefni,
 Ynys Môn,
 LL77 7HH

Tel: 01248 752333
 Fax: 01248 750600
 Email: info@russell-hughes.co.uk

Tud. 191



Tud. 192



Tud. 193



Tud. 194



Tud. 195



Tud. 196

